Atodiadau

Atodiad 1

Gorolwg o'r sector addysg uwch yng Nghymru

(Ffynhonnell: papur gan ELWa-CCAUC a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn ystod yr adolygiad polisi)

Adran 1: Y Sector

Cyffredinol
Cofrestriadau
Asesu Ansawdd Addysg
Ymchwil
Incwm Allanol
Y Dimensiwn Rhyngwladol
Uned Adnodd

Adran 2: Pynciau'r Adolygiad

a) Amrywiaeth y Disgyblaethau a'r Gweithgareddau
- Amrywiaeth ac Ansawdd y Ddarpariaeth
- Pynciau Cwota:
  - Meddygaeth
  - Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
- Datblygiadau mewn Dysgu ac Addysgu
- Ehangu Mynediad
- Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

b) Y Portffolio Ymchwil
- Cyllido Ymchwil
- Ymchwil yn y Sector AU yng Nghymru
- Cydbwysedd y Portffolio Ymchwil

c) Y Genhadaeth Economaidd
- Hyfforddi a Gwaith Ymchwil Contract
- Addysg Uwch ac Economi Cymru
- Cyflogadwyedd Myfyrwyr a Sylfaen Sgiliau Cymru

d) Cydweithio ac Integreiddio
- Cydweithio o fewn Addysg Uwch
- Cydweithio â Darparwyr Addysg eraill
- Cyfuniadau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch

Adran 3: Y Cyngor Cyllido

Cyflwyniad
Dyletswyddau a Chyfrifoldebau
Dull Gweithredu
Cenhadaeth y Cyngor

Adran 1: Y Sector

Cyffredinol

1.1 Mae 13 o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

- Mae'r Cyngor yn darparu cyllid yn uniongyrchol ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol mewn 9 Coleg Addysg Bellach (CAB).
- Mae'r Cyngor yn cyllido addysg uwch mewn colegau addysg bellach eraill yn anuniongyrchol drwy drefniadau ffranseis â sefydliadau addysg uwch (SAUau).
- Mae'r Cyngor yn dyrannu cyllid i Brifysgol Cymru ar gyfer:
  - y Bwrdd Astudiaethau Celtaidd;
  - y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd; a
  - chyhoeddi gweithiau ysgolheigaidd gan Wasg Prifysgol Cymru.

1.2 Roedd incwm a gwariant sefydliadau addysg uwch Cymru ym 1998-99 fel a ganlyn.

	£m		**£m**
Cyfanswm Incwm	570.0	Cyfanswm gwariant	565.6
Grant CCAUC yn y ffigur uchod	256.8	Gwariant ar gyflogau yn y ffigur uchod	323.4
Grant CCAUC fel canran o gyfanswm yr incwm	45.1%		

Gwariant ar gyflogau fel canran o gyfanswm yr incwm 56.7%

1.3 Mae'r ffeithiau canlynol o gofnodion 1998-99 yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU) yn rhoi AU yng Nghymru yng nghyd-destun AU yn y DU.

	Cymru	**DU**
Cyfanswm incwm	£570.6m	£12.1bn
Gweithlu Academaidd	6,162	131,136
Myfyrwyr yn cymryd cyrsiau proffesiynol a datblygiad personol nad ydynt yn arwain at gymhwyster	47,203	752,699
Myfyrwyr UE neu fyfyrwyr tramor eraill	12,717 (12% o'r cyfanswm)	219,285 (12% o'r cyfanswm)
Staff academaidd yn gwneud ymchwil yn unig	24.3%	29.7%
Myfyrwyr gradd gyntaf newydd 1998-99	19,838	355,012
Canran 21 oed neu drosodd	28.2%	31.8%

Cofrestriadau

1.4 Mae'r tabl isod yn dangos y twf mewn cofrestriadau yn sefydliadau addysg uwch Cymru rhwng 1993-94 a 1999-2000:

Modd/Lefel	Cofrestriadau 1999-2000	Twf % 1993-1994 i 1999-2000
Amser-llawn a rhyngosod		
Israddedigion	56,154	12.0
Gwyddoniaeth, Peirianneg, Mathemateg a Chyfrifiaduro yn y ffigur uchod	17,130	24.8
Myfyrwyr ôl-radd	7,046	18.2
Cyfanswm	63,200	12.7
Rhan-amser		
Israddedigion	22,099	43.1
Nifer dan ffranseis yn y ffigur uchod	4,018	70.8
Myfyrwyr ôl-radd	7,968	67.3
Cyfanswm	30,067	50.5
CYFANSWM	**93,267**	**20.9**

Ffynhonnell: Ystadegau AU Cynnar 1999-2000

1.5 Data cofrestru 1999-2000 ar gyfer sefydliadau unigol:

Data cofrestru fesul sefydliad 1999-2000

Sefydliadau	ALl	RhA	RhG	Cyfanswm
Prifysgol Morgannwg	9,250	274	5,140	14,664
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	6,294	185	2,342	8,821
Prifysgol Cymru, Bangor	6,244	69	3,039	9,352
Prifysgol Caerdydd	13,560	308	3,577	17,445
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	1,179	3	1,062	2,244
Prifysgol Cymru Abertawe	8,050	56	2,983	11,089
Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Caerdydd	2,259	0	844	3,103
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	5,335	136	1,460	6,931
Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,611	0	4,577	7,188
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru	2,449	0	2,436	4,885
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	2,751	38	1,334	4,123
Coleg y Drindod Caerfyrddin	1,209	0	946	2,155
Coleg Cerdd a Drama Cymru	501	0	50	551
Coleg Sir Gâr	276	0	109	385
Coleg Llandrillo	137	0	80	217
Coleg Gwent	0	0	38	38
Coleg Castell Nedd Port Talbot	19	0	12	31
Coleg Abertawe	7	0	38	45
Cyfanswm	**62,131**	**1,069**	**30,067**	**93,267**

Ffynhonell: Arolwg HESES 1999-2000

Nodiadau 1 Mae'r ffigurau yn cynnwys myfyrwyr addysg barhaus a chofrestriadau o dan gam cyntaf y fenter AU mewn AB.

2 Nid yw'r ffigurau rhan-amser yn cynnwys myfyrwyr ôl-radd sy'n cael eu dysgu.

3 Mae'r ffigurau yn cynnwys myfyrwyr y gellir eu cyllido, na ellir eu cyllido, myfyrwyr o'r ynysoedd a myfyrwyr tramor.

Asesu ansawdd addysg

1.6 Rhwng 1993 a 1997 gwnaeth y Cyngor ei asesiadau ei hun o ansawdd yr addysg a oedd yn cael ei darparu gan sefydliadau addysg uwch Cymru. Gwnaed 189 o asesiadau ar draws 53 o feysydd pwnc cyffredinol, yn cynrychioli bron y cyfan o'r cyrsiau a gyflwynir yn y sector, ac eithrio Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Barnwyd bod y ddarpariaeth yn ardderchog mewn 69 (37%) o'r 189 o asesiadau.

1.7 Bydd asesiadau ansawdd yn y dyfodol yn cael eu gwneud ar draws y DU gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a fydd yn gweithredu ar ran y Cyngor yng Nghymru. Disgwylir y bydd yr asesiadau cyntaf o dan drefniadau newydd y Cyngor yn dechrau yn 2001 er nad oes angen i sefydliadau yng Nghymru gymryd rhan yn y broses yn ffurfiol hyd fis Ionawr 2002.

Ymchwil

1.8 Cynhaliwyd pedwar ymarfer asesu ymchwil yn y Deyrnas Unedig hyd yn hyn – 1986, 1989, 1992 a 1996 – a bwriedir cynnal y pumed yn 2001. Dim ond yr "hen" brifysgolion a gymerodd ran yn ymarferion 1986 a 1989 (sefydliadau cyfansoddol Prifysgol Cymru yng Nghymru). Bu gwelliant ym mherfformiad y sefydliadau Cymreig mewn perthynas â'r DU gyfan ym 1992 ac eto ym 1996:

- dyblodd nifer yr adrannau yn y categorïau uwch bron, o 32 ym 1992 i 60 ym 1996.

Fodd bynnag, yn wahanol i weddill y DU, roedd gostyngiad bach yn nifer y staff a gymerodd ran yn yr ymarfer, o 2,428 ym 1992 i 2,339 ym 1,996.

1.9 Gall SAUau ddenu incwm ymchwil o ffynonellau cyhoeddus a'r cynghorau ymchwil yn ogystal â chan y Cyngor. Mae'r ddau lwybr cyllido yn ategu ei gilydd, gan ddarparu'r hyn y cyfeirir ato fel y system gyllido cymorth-deuol. O dan y drefn hon, mae'r cynghorau ymchwil yn darparu cyllid ar sail gystadleuol ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol tra bo arian y cyngor cyllido yn cefnogi'r is-strwythur ymchwil heb bennu ar ba brosiectau neu raglenni y mae'n rhaid gwario'r arian.

1.10 Yn yr un modd ag y bu perfformiad y sector addysg uwch yng Nghymru mewn ymarferion asesu ymchwil olynol yn wannach na gweddill y DU, felly hefyd y mae cyfanswm gwerth y grantiau a geir gan y sector addysg uwch yng Nghymru gan y cynghorau ymchwil yn llai na'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail y ffactor "cyfran safonol" o 5% a dybir wrth ddyrannu i Gymru gostau gweithgareddau a gynhelir ar y cyd gan sectorau addysg uwch y DU. Felly, denwyd incwm o £17.4m gan y cynghorau ymchwil ym 1998-99, sydd oddeutu 3.1% o'r cyfanswm ar gyfer y DU.

Incwm Sefydliadau Addysg Uwch O'r Cynghorau Ymchwil					
Blwyddyn	**Lloegr**	**Yr Alban**	**Cymru**	**G. Iwerddon**	**DU**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
1995-96	445.8	65.9	15.3	4.9	531.9
% O GYFANSWM DU	83.8%	12.4%	2.9%	0.9%	100%
1996-97	439.4	65.9	14.8	5.0	525.1
% O GYFANSWM DU	83.7%	12.5%	2.8%	1.0%	100%
1997-98	445.4	66.8	15.4	6.1	533.7
% O GYFANSWM DU	83.5%	12.5%	2.9%	1.1%	100%
1998-99	466.0	70.8	17.4	5.4	559.6m
% O GYFANSWM DU	83.3%	12.6%	3.1%	1.0%	100%

Ym mis Gorffennaf 2001, cyhoeddodd ELWa-CCAUC adroddiad cynnydd ar effeithiolrwydd y mesurau y cytunwyd arnynt i gynyddu'r incwm a gâi sefydliadau addysg uwch Cymru gan y cynghorau ymchwil. Dangosai'r adroddiad y bu cynnydd bychan yn yr incwm ar gyfer Cymru yn 1999-2000, i £19.3 miliwn, sef 3.2% o gyfanswm y DU.

Incwm Allanol

1.11 Yn ogystal â derbyn incwm gan y Cyngor, y cynghorau ymchwil a chyrff elusennol sy'n rhoi grantiau ymchwil, a thrwy osod ffioedd hyfforddi, bydd sefydliadau'n denu incwm drwy ddarparu gwasanaethau i ddiwydiant, masnach a'r sector cyhoeddus. Denwyd cyfanswm o tua £38m o'r ffynhonnell hon ym 1998-99 (y cyfanswm ar gyfer y DU oedd £1.49bn).

Incwm Ymchwil SAU o Ddiwydiant, Masnach a'r Sector Cyhoeddus					
Blwyddyn	**Lloegr**	**Yr Alban**	**Cymru**	**G. Iwerddon**	**DU**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
1995-96	558.5	84.3	27.4	13.3	683.5
% O GYFANSWM DU	81.7%	12.3%	4.0%	1.9%	100%
1996-97	616.2	91.3	28.2	17.2	752.9
% O GYFANSWM DU	81.8%	12.1%	3.7%	2.3%	100%
1997-98	647.8	99.3	34.9	18.5	800.5
% O GYFANSWM DU	80.9%	12.4%	4.4%	2.3%	100%
1998-99	682.5	107.5	36.5	19.5	846.0
% O GYFANSWM DU	80.7%	12.7%	4.3%	2.3%	100%

Y Dimensiwn Rhyngwladol

1.12 Mae sector addysg uwch Cymru yn rhan annatod o'r is-strwythur sector cyhoeddus sy'n gwasanaethu anghenion y wlad. Serch hynny, mae'n wahanol i rannau eraill o'r gwasanaeth addysg gan fod ei orwelion a gweithgareddau'r sefydliadau yn ymestyn y tu hwnt i Gymru, nid yn unig i'r Deyrnas Unedig ond hefyd i'r byd cyfan. Rhaid gwerthfawrogi hyn er mwyn asesu'n llawn ym mha ffyrdd y gall y sector wasanaethu anghenion Cymru orau. Mae'r ffeithiau a ganlyn yn rhoi amcan o hyd a lled y dimensiwn rhyngwladol hwn:

- Mae bron hanner y myfyrwyr amser-llawn/rhyngosod mewn sefydliadau Cymreig sy'n tarddu o'r DU yn dod o'r tu allan i Gymru.
- Mae cyfanswm o 27,842 o fyfyrwyr amser-llawn/rhyngosod o'r DU nad ydynt yn dod o Gymru yn dilyn eu hastudiaethau yng Nghymru.
- Mae 20,888 o fyfyrwyr o Gymru yn dilyn cyrsiau amser-llawn/rhyngosod mewn mannau eraill yn y DU.
- Mae tua 5,500 o fyfyrwyr o'r UE yn dilyn cyrsiau amser-llawn, rhyngosod neu ran-amser mewn sefydliadau AU Cymreig, a nifer ychydig yn llai o fyfyrwyr o wledydd y tu allan i'r UE.
- Mae gwaith ymchwil yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau rhyngwladol. Bydd grwpiau ymchwil yn cydweithio ar draws y byd. Mae partneriaethau effeithiol yn dibynnu mwy ar ddiddordebau ac arbenigedd ymchwil cydnaws nag ar agosrwydd daearyddol. Oni bai ei fod yn cael ei fwydo gan lif cyson o wybodaeth a chydweithio traws-ffiniol bydd gwaith ymchwil yn cyflym farweiddio.
- Mae 55% o bapurau ymchwil yn y DU yn deillio o gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau; ac mae 20% yn deillio o gydweithio rhyngwladol.
- Bydd sefydliadau addysg uwch Cymru yn cael incwm blynyddol o ryw £12.5m o ffynonellau Ewropeaidd.

1.13 Bydd gwahanol sefydliadau, i wahanol raddau, yn ymgymryd â gwaith ymchwil ar raddfa ryngwladol yn unol â'u cenadaethau. Mae persbectif rhyngwladol y sector yn helpu i sicrhau ei le mewn addysg uwch ar raddfa fyd-eang a lle Cymru ar y llwyfan masnachol a diwylliannol rhyngwladol.

Uned Adnodd

1.14 Gwelwyd gostyngiad cyson yn yr uned adnodd, a fesurir yn nhermau cyfanswm y cyllid cyhoeddus sydd ar gael i'r sector addysg uwch mewn perthynas â'r niferoedd myfyrwyr a bennwyd gan y Swyddfa Gymreig, drwy gydol y 1990au. Mewn termau real, cafwyd gostyngiad o:

- 24% rhwng 1989-90 a 1993-94; a
- 17% rhwng 1993-94 (y flwyddyn gyntaf y daeth y Cyngor yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru) a 1998-99.

1.15 Roedd gostyngiadau o'r fath yn destun cryn bryder i'r Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol i Addysg Uwch a argymhellodd ym 1997 na ddylai gostyngiadau blwyddyn ar flwyddyn yn yr uned adnodd mewn termau real fod yn fwy nag 1%. Yn sgil yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1998, mae'r cymorth grant rheolaidd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn dod o fewn y terfynau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Ymchwil am y tair blynedd o 1999-2000 i 2001-02, sef oddeutu 0.3% y flwyddyn. Os cymerir i ystyriaeth y dyraniadau grant cyfalaf a wneir dros y cyfnod o dair blynedd yna bydd cynnydd o ryw 4% yn yr uned adnodd o'i chymharu â 1998-99.

1.16 Rhwng canol a diwedd y 1990au cynyddodd y bwlch rhwng uned adnodd Cymru ac uned adnodd Lloegr ond mae setliadau diweddar wedi dechrau cau'r bwlch:

	Cymru	**Lloegr**	**Gwahaniaeth**
	£	**£**	**%**
1998-99	4549	4711	3.5
1999-00	4619	4747	2.8
2000-01	4739	4765	0.5
2001-02	4780	4798	0.4

1.17 O'i chymharu â'r Alban, fodd bynnag, mae'r uned adnodd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru gryn dipyn yn is. Os cymerir ffigurau dros dro 2001-02, y gwahaniaeth rhwng Cymru a'r Alban yw 22%: £4,780 o'i gymharu â £6,135.

Adran 2: Pynciau'r adolygiad

2.1 Yn y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad o addysg uwch yng Nghymru nodir chwe phwnc y rhoddir ystyriaeth arbennig iddynt. Mae'r adran hon yn edrych ar bedwar o'r pynciau hyn. Nid yw'n ymdrin â chymorth ariannol i fyfyrwyr na phwerau statudol y Cynulliad Cenedlaethol gan fod y materion hyn y tu allan i gylch gwaith y Cyngor.

a) Amrywiaeth y disgybaethau a'r gweithgareddau

Amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth

2.2 O ran y categorïau pwnc academaidd (CPA) cyffredinol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, mae'r portffolio o gyrsiau a gynigir gan y sector yn gynhwysfawr:

Cofrestriadau yn ôl CPA a modd mynychu ym 1999-2000

CPA	Pwnc	Amser-llawn	Rhyngosod Blwyddyn Allan	Rhan-amser	Cyfanswm
1	Pynciau Clinigol a Chyn-glinigol	1439	0	565	2,004
2	Pynciau a Phroffesiynau'n Gysylltiedig â Meddygaeth	6,077	59	3,567	9,703
3	Gwyddoniaeth	10,779	286	1,545	12,610
4	Peirianneg a Thechnoleg	4,509	94	3,568	8,171
5	Yr Amgylchedd Adeiledig	1,245	128	857	2,230
6	Gwyddorau Mathemategol, TG a Chyfrifiaduro	3,699	124	2,151	5,974
7	Busnes a Rheolaeth	7,942	252	5,214	13,408
8	Gwyddorau Cymdeithasol	7,715	17	3,224	10,956
9	Dyniaethau	10,003	201	7,586	17,790
10	Celfyddyd, Dylunio a'r Celfyddydau Perfformio	4,939	2	1,168	6,109
11a	Addysg (HCA)	3,581	0	17	3,598
11b	Addysg (Nid HCA)	589	2	3,680	4,271
Cyfanswm		**62,514**	**1,165**	**33,142**	**96,821**

Ffynhonnell: *Arolwg Monitro Diwedd y Flwyddyn 1999-2000*

Sylwer

Mae'r ffigurau'n cynnwys myfyrwyr AU wedi'u cyllido o dan gam cyntaf y Cynllun AU mewn AB.

Mae'r ffigurau'n cynnwys pob myfyriwr: cyllidadwy, anghyllidadwy, ynysoedd a thramor.

Mae'r ffigurau rhan-amser yn cynnwys myfyrwyr Addysg Barhaus ond nid myfyrwyr sy'n cwblhau traethawd Meistr amser-llawn.

2.3 Yr unig ddisgyblaeth fawr nad yw'n cael ei haddysgu yng Nghymru yw gwyddor filfeddygol. Fodd bynnag, oherwydd maint y sector nid yw ei bortffolio yn cynnwys rhai pynciau 'lleiafrifol', megis ieithoedd Dwyrain Ewrop, sydd i'w cael mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod y sector yn weddol fach o'i gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd Serch hynny, mae myfyrwyr Cymreig yn gallu manteisio ac yn manteisio ar gyfleoedd i astudio mewn sefydliadau y tu allan i Gymru, mewn prifysgolion eraill yn y DU a thrwy gynlluniau a noddir gan yr UE (e.e. Socrates/Erasmus) mewn gwledydd UE eraill. Felly, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) yn cefnogi nifer o bynciau lle recriwtir llai na 100 o fyfyrwyr ar draws y DU fel rheol. Yn y modd hwn, mae cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr Cymreig astudio pynciau lleiafrifol nad ydynt yn cael eu haddysgu yng Nghymru.

Pynciau Cwota

2.4 Mae'r Llywodraeth yn ymgymryd â chynllunio gweithlu mewn perthynas â Meddygaeth, Deintyddiaeth a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Gwneir y sylwadau canlynol am Feddygaeth a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

Meddygaeth

2.5 Caiff materion meddygol, gan gynnwys targedau recriwtio, eu hystyried gan Gyd-bwyllgor Ymgynghorol Meddygol Cynghorau Cyllido'r DU (JMAC) sydd yn draddodiadol wedi cynnig cyngor ac arweiniad i bob un o'r Cynghorau Cyllido ar y materion hyn. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi trydydd adroddiad y Pwyllgor Ymgynghorol Sefydlog ar y Gweithlu Meddygol (Pwyllgor Campbell) ym mis Rhagfyr 1997, a argymhellodd gynnydd sylweddol yn y cyflenwad o feddygon yn y DU, bu'r Cynghorau Cyllido yn rhoi ystyriaeth ar wahân i'r goblygiadau ar gyfer eu gwledydd eu hunain. O ganlyniad, ym 1998, yn dilyn trafodaethau â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a Phrifysgol Caerdydd, gwnaeth y Cyngor argymhellion i'r Swyddfa Gymreig ynghylch rhaglen recriwtio a chyllido hyd at 2006 a fyddai'n cwrdd â gofynion Cymru drwy godi nifer y lleoedd hyfforddi yng Nghymru i lefel a oedd yn gymesur â'r lefel ar gyfer y DU gyfan. I bob pwrpas, golygai hyn:

- gynnydd o 100 yn nifer y meddygon dan hyfforddiant yng Nghymru, gyda'r cynnydd yn cael ei weithredu mewn camau dros gyfnod o dair blynedd o 1999 i 2001.

Yr un pryd, law yn llaw â'r ehangu, disgwylid y gwneid mwy o ddefnydd o ysbytai hyfforddi ar draws Cymru i ddarparu hyfforddiant clinigol.

2.6 Cyflawnwyd rhan gyntaf y cynnydd cynlluniedig mewn niferoedd: cyllidwyd 35 o leoedd ychwanegol gan y Cyngor ym 1999 ac eto yn 2000:

	1998-99	1999-00	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05	2005-06
Niferoedd	190	225	225	290	290	290	290	290
Cofrestriadau Ychwanegol		34	67	163	258	352	412	471

2.7 Mae Prifysgol Cymru Abertawe, ar y cyd ag ysbytai Treforys a Singleton, yn awyddus i chwarae rhan flaenllaw mewn cynyddu nifer y meddygon sy'n cael eu hyfforddi. Deellir y byddai'r cynigion sy'n cael eu hystyried o fewn y Cynulliad yn cadarnhau lle Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru fel y corff arweiniol yng Nghymru ar gyfer darparu hyfforddiant i feddygon, gan weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol ac ysbytai yn ardal Abertawe. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r partneriaethau sy'n cael eu datblygu rhwng Y Coleg Meddygaeth ac Abertawe ac â chanolfannau eraill yng Nghymru, yn enwedig yng Nghasnewydd a Wrecsam.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

2.8 Wyth sefydliad yng Nghymru sy'n darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA). Dengys y tabl isod y nifer o leoedd a ddyrannwyd gan y Cyngor ar gyfer HCA yn 2000/01:

Sefydliad	Cyfnod Cynradd		Cyfnod Uwchradd	
	Israddedigion	Graddedigion	Israddedigion	Graddedigion
PC Aberystwyth		124		155
PC Bangor	374	62	33	240
PC Abertawe		102		325
APC Caerdydd	369	93	144	310
CPC Casnewydd	91	39	98	20
Athrofa G-ddC	212			
AAU Abertawe	325		22	30
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	377	75		30

2.9 Er bod cwotâu recriwtio i gyrsiau HCA wedi'u seilio ar staffio yng Nghymru a Lloegr, bydd oddeutu dwy ran o dair o'r rheiny sy'n cwblhau eu hastudiaethau yn ymgymryd â swyddi addysgu yng Nghymru. Felly ynghyd â'u cyfraniad at hyfforddiant mewn-swydd a gwasanaethau eraill ar gyfer ysgolion, mae darparwyr HCA Cymru yn gwneud cyfraniad allweddol at gynnal y sectorau cynradd ac uwch yng Nghymru.

2.10 Mae recriwtio i hyfforddiant cyfnod Cynradd wedi parhau'n gryf, yn erbyn cefndir o ostwng targedau recriwtio gan y Swyddfa Gymreig o 1,455 ym 1993-94 i 1,150 ym 1999-2000. Serch hynny, mae sefydliadau wedi'i chael hi'n fwyfwy anodd denu darpar hyfforddeion i gyrsiau cyfnod Uwchradd, yn enwedig mewn meysydd lle mae prinder athrawon, megis Gwyddoniaeth, Ieithoedd Modern, Cymraeg a Mathemateg. Mae'r cynnydd yn y cwotâu recriwtio ar gyfer hyfforddiant cyfnod Uwchradd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud y sefyllfa yn waeth. Mae'n werth nodi bod Lloegr yn wynebu anawsterau cyffelyb.

2.11 Bu'r Cyngor yn gweithio gyda'r sefydliadau i wella'r sefyllfa, yn enwedig drwy ei gynllun recriwtio i bynciau blaenoriaethol (CRBB) y dyrannwyd £2,860,000 drwyddo dros gyfnod o bum mlynedd hyd at a chan gynnwys 1999-2000.

2.12 Adolygwyd y CRBB yn ddiweddar ac esgorodd yr adolygiad ar nifer o welliannau. Fodd bynnag, collodd yr adolygiad beth o'i berthnasedd pan cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol grantiau hyfforddi i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddi cyfnod Uwchradd o 2000-01. Mae'n debygol o gymryd peth amser cyn y gellir asesu effaith lawn y penderfyniad hwn. Pa un

bynnag, mae denu darpar athrawon yn dibynnu cymaint ar amgyffred cyffredinol y cyhoedd o'r proffesiwn addysgu ag y mae ar natur benodol y cyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cynnig.

2.13 Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor adolygiad gyda'r sefydliadau o'i ddull cyllido addysgu. Codwyd nifer o faterion allweddol:

- **Digonolrwydd y lefelau cyllido presennol ar gyfer HCA**: yn enwedig mewn perthynas â'r cynigion a roddwyd ger bron ym mhapur gwyrdd y Swyddfa Gymreig "Y Gorau ar gyfer Addysgu a Dysgu" ynghylch cyllido partneriaethau HCA-ysgol yn uniongyrchol;
- **Dosbarthiad darpariaeth HCA**: lleoliad y darparwyr a natur y gwasanaethau a ddarperir i'w dalgylchoedd, yn ychwanegol at hyfforddiant cychwynnol athrawon – i ba raddau mae angen gwasanaeth rhanbarthol;
- **Yr iaith Gymraeg a hyfforddi athrawon yng Nghymru**: cynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- **Màs critigol**: a oes maint lleiaf mae'n rhaid i ddarpariaeth HCA fod i gynnal ei hyfywedd ariannol ac academaidd?

2.14 Ers yr adolygiad cynhwysfawr diwethaf o HCA yng Nghymru ar ddiwedd y 1980au mae'r patrwm recriwtio wedi newid ac mae natur y rhaglen hyfforddi wedi newid yn sylfaenol. Mae ysgolion wedi ffurfio partneriaethau llawn â darparwyr i gynnig hyfforddiant drwy fentora hyfforddeion ym mhob ysgol a chyflwynwyd Cwricwlwm Cenedlaethol yn sylfaen i raglenni hyfforddi'r sefydliadau. Yn fwy diweddar, mae cyflwyno grantiau i rai categorïau o athrawon dan hyfforddiant yn debygol o ddylanwadu ar batrymau recriwtio, ond mae'n rhy gynnar i farnu eu heffaith.

2.15 Mae'r materion hyn yn codi cwestiwn pwysig, sef a oes angen gwneud adolygiad cyffredinol o hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru?

Datblygiadau mewn Dysgu ac Addysgu

2.16 Bu'n rhaid i'r sefydliadau ddatblygu ffyrdd newydd o ddarparu cyfleoedd dysgu er mwyn ymdopi â'r cynnydd mawr mewn cofrestriadau ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au, mynd i'r afael â'r pwyslais ar ehangu mynediad i'r rheiny na fyddent yn draddodiadol yn ystyried mynd i mewn i addysg uwch, a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan Dechnoleg Gwybodaeth (TG) a rhwydweithiau electronig. O ganlyniad, bu'n rhaid i sefydliadau ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu ar gyfer y sefydliad cyfan.

2.17 Gan ddefnyddio'r grant cyfalaf penodol o £19.2m a ddarparwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r Cyngor wedi gallu helpu'r sefydliadau i wella'r is-strwythur adnoddau sy'n sylfaen i ddysgu ac addysgu, gan roi pwyslais arbennig ar TG. Mae hefyd yn darparu ar gyfer datblygu rhwydwaith gwasanaethau fideo AB/AU. Rhoddwyd cyllid o'r neilltu yn ogystal i sefydlu cyfleuster electronig band llydan (Rhwydwaith Ardal Fetropolitan) yng Ngogledd Cymru i gyfateb i'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ne a Chanolbarth Cymru. Mae hyn yn bwysig oherwydd yr ystyir mai Rhwydweithiau Ardal Fetropolitan yw'r brif ffordd o

gysylltu â'r cyd-rwydwaith academaidd (JANET) ac, ymhellach, eu bod yn gyfrwng ardderchog ar gyfer rhannu a lledaenu arbenigedd a phrofiad.

Ehangu Mynediad

2.18 Yn draddodiadol mae Cymru wedi dangos mwy o egalitariaeth na'r rhan fwyaf o'r DU o ran y ffordd mae ei phobl, ar draws pob dosbarth cymdeithasol, wedi manteisio ar addysg uwch. Mae hyn yn dal yn wir, fel y dangoswyd gan ddangosyddion perfformiad ar gyfer addysg uwch yn y DU a baratowyd ar y cyd gan y cyrff cyllido ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r ddogfen hon yn nodi, ymhlith pethau eraill, fod gan Gymru fwy o fyfyrwyr ifanc o gymdogaethau lle mae cyfranogiad yn isel (15%) na'r DU yn ei chyfanrwydd (12%).

2.19 Gan adeiladu ar y traddodiad hwn, mae'r Cyngor:

- Wedi cyllido cynlluniau penodol i ehangu mynediad, gan gynnwys sefydlu cynlluniau partneriaeth rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach, y mae datblygu Prifysgolion Cymunedol yn rhan bwysig ohono;
- Wedi cefnogi gwell cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion drwy hybu sefydlu cytundebau;
- Yn disgwyl dyrannu oddeutu £3m yn 2000-01 ar gyfer ehangu mynediad, a symiau tebyg yn y blynyddoedd sydd i ddod, yn rhannol drwy ei ddull cyllido fformiwla ar gyfer addysgu a thrwy wneud dyraniadau i gefnogi strategaethau ehangu mynediad y sefydliadau;
- Wedi creu trefniadau ym 1997 ar gyfer cyllido'r holl ddarpariaeth ran-amser a addysgir ar sail credydau; ac
- Yn bwriadu, erbyn 2002, estyn yr arfer hwn i'r holl ddarpariaeth a addysgir. Drwy ddosrannu cyllid yn y modd hwn mae'r Cyngor yn annog sefydliadau i gynnig "unedau" neu fodylau dysgu gweddol fach, sy'n apelio'n arbennig at y rheiny sydd heb hyder yn eu gallu, ar y dechrau, i ymdopi ag addysg uwch.

2.20 Fodd bynnag, fel y mae cyhoeddiad y Cyngor, *Cyfraddau Cyfranogiad ar gyfer Myfyrwyr Cymreig mewn Addysg Uwch yn y DU 1997-98*, yn ei ddangos, mae gwahaniaethau mawr iawn mewn cyfranogiad o fewn Cymru. Felly mae'r gyfradd cyfranogiad isaf a gofnodwyd yn yr astudiaeth honno yn 45% o'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail y ffigurau cyfranogiad cenedlaethol ar gyfer Cymru (ar ôl cymryd i ystyriaeth wahanol broffiliau oedran a rhyw pob ardal), ffactor o 3 o dan y gyfradd cyfranogiad uchaf a gofnodwyd.

2.21 At ei gilydd, awgryma'r data fod cyfraddau cyfranogiad isel yn mynd law yn llaw ag amddifadedd cymharol a pherfformiad yn yr ysgol. Felly ni all addysg uwch ar ei phen ei hun ateb y broblem.

2.22 Mae strategaethau i hybu ehangu mynediad yn ddrud; mae angen mwy o adnoddau i berswadio pobl sy'n dod o gefndiroedd anhraddodiadol i ystyried addysg uwch fel posibilrwydd ac i ddarparu cymorth ychwanegol ar eu cyfer ar ôl iddynt gofrestru. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o waith rhagarweiniol a wnaed gan Brifysgol Morgannwg ar gostau ychwanegol ymgymryd â gwaith allanol mewn cymunedau dan anfantais sy'n awgrymu bod angen dyblu'r cyllid y pen ar gyfer myfyrwyr o'r fath.

2.23 Bu'r Cyngor yn annog datblygiad darpariaeth ffranseis ran-amser i israddedigion mewn colegau addysg bellach. Ers 1993-94:

- gwelwyd cynnydd o ryw 70% (i ychydig dros 4000 o gofrestriadau) yn nifer y rheiny sy'n cofrestru ar y cyrsiau hyn; yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen o gyllido cyrsiau addysg uwch yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach.

Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

2.24 Er gwaethaf cyflwyno cyllid premiwm ar gyfer cofrestriadau ar fodylau cyfrwng Cymraeg a Chronfa Ddatblygu i gefnogi datblygiadau newydd (£550k dros gyfnod o 5 mlynedd), mae cofrestriadau ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg wedi aros yn eu hunfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn i raddau yn adlewyrchu'r ffaith bod bron hanner y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnig ym maes hyfforddiant cychwynnol athrawon, lle gwelwyd gostyngiad cyson mewn cofrestriadau yn ystod y 1990au wrth i'r Swyddfa Gymreig osod cwotâu recriwtio is.

Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg – Cofrestriadau Cyfwerth ag Amser Llawn Pob Categori Pwnc

1995-96	1996-97	1997-98	1998-99
1061.57	1027.34	1036.90	961.08

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

1995-96	1996-97	1997-98	1998-99
600.75	567.41	583.88	457.96

2.25 Bu twf mewn meysydd eraill yn anghyson. Serch hynny, sefydlwyd peth darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, gyda chymorth y Gronfa Ddatblygu, er enghraifft:

- Gwaith Cymdeithasol yn APC Caerdydd;
- Ieithoedd Tramor Modern yn PC Abertawe;
- Drama yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru;
- Llyfrgellyddiaeth (dysgu o bell) yn PC Aberystwyth; a
- Chyrsiau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn PC Bangor a Phrifysgol Caerdydd.

2.26 Comisiynwyd adolygiad gan y Cyngor o'i Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ym 1999. Er iddo ganolbwyntio ar y prosiectau penodol a gefnogwyd drwy'r Gronfa, roedd modd dod i gasgliadau ynghylch datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol. Tynnwyd sylw at nifer o wendidau, yn enwedig y ffaith nad oedd gan y sefydliadau ymagwedd strategol gyffredinol at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Pwysleisiodd yr astudiaeth fod tuedd i gymryd agwedd dymor byr at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac i ddibynnu ar unigolion brwd. Yr un pryd, nid oedd digon yn cael ei wneud i ddarganfod marchnadoedd posibl na'u datblygu.

2.27 Ar y sail bod datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn faes a allai elwa'n arbennig ar gydweithio effeithiol rhwng sefydliadau, mae'r Cyngor wedi cytuno i gefnogi'r Uned Datblygu addysgu cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei sefydlu gan Brifysgol Cymru (£50k y flwyddyn am 2 flynedd yn y lle cyntaf). Disgwylir y bydd y Swyddog Datblygu a fydd yn arwain yr Uned yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cynlluniau cydweithiol a fydd yn gofyn am gydweithrediad llawn y sefydliadau dan sylw. Felly, bydd angen i sefydliadau lunio strategaethau sy'n hwyluso ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill. I ategu gwaith yr Uned, mae'r Cyngor wedi gofyn i sefydliadau sy'n darparu modylau neu gyrsiau cyfrwng Cymraeg gyflwyno cynlluniau i'r Cyngor bob blwyddyn. Bu'n gweithio'n agos â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau bod cynlluniau cyfrwng Cymraeg y sefydliadau'n gyson â'r cynlluniau sydd i gael eu paratoi gan y Bwrdd. Darperir £254k i gefnogi'r cynlluniau hyn gyda'r bwriad o sicrhau ymagwedd fwy strategol ar hyd a lled Cymru.

b) Y portffolio ymchwil

Cyllido Ymchwil

2.28 O'r cychwyn cyntaf, bu gwella ansawdd yr ymchwil a wneir gan y sector addysg uwch yng Nghymru yn flaenoriaeth gan y Cyngor. Mae hyn wedi adlewyrchu'r angen i ddiogelu safle Cymru, a'r DU gyfan, ar y llwyfan ymchwil rhyngwladol, yn enwedig o ystyried manteision economaidd cael sylfaen ymchwil gadarn. Bu'n ymgais hefyd i ymateb i'r her o godi perfformiad ymchwil y sector addysg uwch yng Nghymru i lefel gweddill y DU.

2.29 Arweiniodd y Llywodraeth DU ymgyrch i wella a chynnal ansawdd yr ymdrech ymchwil drwy ei pholisi o gyllido ymchwil yn ddetholus, polisi a ddechreuodd gymryd siâp yn y 1980au. O dan y polisi hwn, roedd angen trin cyllid ar gyfer addysgu a chyllid ar gyfer ymchwil ar wahân. Felly, roedd dyraniadau cyllid y Cyngor Cyllido Prifysgolion i brifysgolion ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au yn cynnwys, o fewn y ffrwd cyllid ymchwil, ffactor yn adlewyrchu ansawdd ymchwil a oedd wedi cael ei bennu gan yr ymarfer asesu ymchwil (YAY). Defnyddir ffactor ansawdd, wedi'i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, i bennu'r gyfran o gyllid. Arweiniodd hyn, yng Nghymru fel mewn mannau eraill, at benderfyniad ym 1993 y dylai'r rhan fwyaf o'r cyllid ymchwil gael ei ddyrannu ar sail ansawdd ymchwil fel y'i pennwyd gan yr YAY. Gelwir y dyraniad ymchwil hwn yn ddyraniad QR (Q am 'quality').

2.30 QR yw'r prif ddull a ddefnyddir gan y Cyngor i gefnogi ymchwil. Ceir ffrydiau cyllido eraill, llai o ran maint: i hybu gwaith ymchwil contract (CR); i hybu cynlluniau a rhaglenni penodol yng Nghymru, gan gynnwys grantiau i Brifysgol Cymru ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd gan Wasg Prifysgol Cymru a'r Bwrdd Gwybodau Celtaidd (gan gynnwys y Geiriadur); ac ar gyfer rhaglenni a gefnogir ar y cyd gyda chyrff cyllido eraill, gan gynnwys Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Cyd-gynllun Cyfarpar Ymchwil. Yn ogystal, o ganlyniad i setliad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW) 1998 (gweler isod), mae'r Cyngor wedi derbyn grant cyfalaf penodol i gryfhau'r is-strwythur ymchwil.

2.31 Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer ymchwil yn 2000-01 wedi'i rannu fel a ganlyn:

Ffrwd Gyllido	**£m**
QR	44.751
CR	1.500
Cynlluniau, Cymru	1.733
Cyd-gynlluniau, DU	2.742
Eraill	0.494
Cyfalaf	**8.162**

2.32 Mae QR yn cyfateb i 4.4% o gyfanswm yr arian a ddyrennir gan gyrff cyllido'r DU ar sail yr YAY.

2.33 Pryder arbennig yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu methiant y sector addysg uwch i sicrhau bod cyfarpar a chyfleusterau yn cadw i fyny â datblygiadau technolegol. Darparwyd £22m o gyllid cyfalaf penodol ar gyfer y seilwaith ymchwil fel rhan o'r setliad ACW ym 1998, a hynny am gyfnod o dair blynedd, er mwyn helpu sefydliadau i ddiweddaru cyfarpar a oedd wedi hen ddyddio. Y symiau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban oedd £300m a £23m. Lansiwyd cynlluniau cyllido cystadleuol ar gyfer y DU gyfan hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, megis y Gyd-gronfa Seilwaith, Cronfa Her y Prifysgolion a'r Cyd-gynllun Cyfarpar Ymchwil. Serch hynny, dengys astudiaethau fod angen buddsoddi cyson i barhau'n gystadleuol. Mae'r Gronfa Fuddsoddi Ymchwil o £1bn a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yn gynnar ym mis Gorffennaf 2000, ac a gadarnhawyd yn y Papur Gwyn ar Wyddoniaeth ac Arloesedd a gyhoeddwyd yn ddiweddarach y mis hwnnw, yn cydnabod y ffaith hon. Bydd Cymru yn elwa ar gyfran o'r 70% o'r gronfa hon a fwriedir ar gyfer prosiectau i'w gweithredu drwy'r DU. Cedwir y gweddill ar gyfer prosiectau yn Lloegr a disgwylir i'r llywodraethau datganoledig wneud cyfraniad o'u cyllid eu hunain i'w fuddsoddi mewn prosiectau yn eu tiriogaethau hwy. Bydd y swm ar gyfer Cymru yn dibynnu ar benderfyniadau i'w cymryd gan y Cynulliad wrth bennu setliad y Cyngor ar gyfer 2001-02 a gweddill cyfnod yr ACW.

2.34 Cafodd polisi ymchwil y Cyngor ei adolygu eleni. Bu'n rhaid cynnal yr adolygiad oherwydd y bwriad i wneud ailasesiad o'r dull dyrannu cyllid ymchwil cyn y caiff canlyniadau'r YAY a gynhelir yn 2001 eu cyhoeddi. O ganlyniad i'r adolygiad polisi mae'r Cyngor wedi cytuno ar ddatganiadau sy'n amlinellu pwrpas ei gyllid ymchwil ac amcanion ei bolisi ymchwil.

Ymchwil yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru

2.35 Mae gweithgarwch ymchwil wedi bod yn nwylo sefydliadau cyfansoddol Prifysgol Cymru i raddau helaeth. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oedd y cymorth grant ar gyfer sefydliadau a oedd gynt yn y sector cyhoeddus, hyd nes trosglwyddo cyfrifoldeb i'r Cyngor, yn cynnwys unrhyw gyllid penodol ar gyfer hybu ymchwil. Ers sefydlu'r Cyngor bu peth twf, mewn meysydd penodol, yng ngweithgarwch ymchwil y sefydliadau hyn. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o waith ymchwil y sector yn parhau i gael ei wneud o fewn sefydliadau cyfansoddol Prifysgol Cymru.

2.36 Mae ansawdd yr ymchwil a wneir yn y DU wedi cael ei fesur mewn cyfres o ymarferion asesu ymchwil. Amlinellir canlyniadau'r YAY diweddaraf, a gynhaliwyd ym 1996. Dangosodd canlyniadau YAY 1996 fod ansawdd ymchwil yng Nghymru wedi gwella, mewn termau absoliwt ac o'i gymharu â pherfformiad yng ngweddill y DU. Gellir gweld hyn drwy gymharu sgorau cyfartalog 1996 a 1992 ar gyfer Cymru a'r DU, wedi'u pwysoli i gymryd i ystyriaeth nifer y staff a gyflwynwyd i'w hasesu.

Gwlad	Sgôr Gyfartalog Wedi'i Phwysoli	
	1996	1992
Cymru	3.6	3.1
DU	3.7	3.4

2.37 Roedd y gwelliant cyfrannol a gyflawnwyd gan y sector Cymreig yn fwy na hynny ar gyfer y DU gyfan, tra oedd y gwahaniaeth rhwng y sgôr gyfartalog wedi'i phwysoli ar gyfer Cymru a honno ar gyfer y DU gyfan wedi lleihau o 0.3 ym 1992 i 0.1 ym 1996.

2.38 Roedd y gwelliant hwn yn adlewyrchu cryn gynnydd yn nifer yr adrannau a gafodd raddau ym mhen uchaf y raddfa – 4, 5 a 5*. Cynyddodd nifer yr adrannau a gafodd y graddau hyn o 32 ym 1992 i 60 ym 1996, sef cynnydd o 88%. Dengys y tabl isod batrwm y graddau yn y ddau Ymarfer Asesu Ymchwil hyn:

Nifer adrannau	Gradd YAY					
	1	2	3a/3b	4	5/5*	Cyfanswm
1996 YAY	13	23	61	39	21	157
1992 YAY	33	28	75	25	7	168

Sylwer: Yn YAY 1992 nid oedd gradd 5 ac nid oedd gradd 3 wedi'i hisrannu'n 3a a 3b.*

2.39 Ochr yn ochr â'r gwelliannau hyn, yr oedd un agwedd yn peri pryder: y gostyngiad yn nifer y staff ymchwil gweithredol a gyflwynwyd gan sefydliadau Cymreig. Bu lleihad yn y nifer o 2,428 ym 1992 i 2,339 ym 1996, sef gostyngiad o 3.7%. Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad yng nghyfran Cymru o staff ymchwil gweithredol y DU o 5.5% ym 1992 i 4.9% ym 1996. Mewn ymateb i hyn, sefydlodd y Cyngor raglen gyllido newydd dros y cyfnod 1999 i 2002 – y Cynllun Maint Ymchwil – gyda'r nod o godi niferoedd. Yr arwyddion yw, ar sail y targedau a osodwyd gan sefydliadau addysg uwch, y bydd cynnydd o 41% yn nifer y staff mewn adrannau ym mhen uchaf y raddfa (4 neu uwch) a chynnydd o 4% yn nifer y staff mewn adrannau o ganol (3a a 3b) i ben uchaf y raddfa o'u cymryd gyda'i gilydd.

2.40 Ceir golwg arall ar weithgarwch ymchwil y sefydliadau drwy ystyried yr incwm a ddenir ganddynt o ffynonellau eraill. Rhoddir gwybodaeth am y cyfnod 1992-93 i 1998-99 yn y tabl sy'n dilyn. (Mae'r data ar gyfer 1992-93 a 1993-94 yn cyfeirio at yr "hen" sector prifysgol (CCP) gan na chasglwyd unrhyw wybodaeth am weithgarwch ymchwil y sefydliadau a oedd gynt yn y sector cyhoeddus cyn 1994-95.)

Blwyddyn		Cyfanswm £m	Cynghorau Ymchwil £m	Cyrff Elusennol y DU £m	Cyrff Llyw. Ganolog Y DU £m	Diwydiant a Masnach y DU £m	Ffynonellau UE £m	Ffynonellau Tramor Eraill	Ffynonellau Eraill
	Cymru	63.2	17.4	9.3	14.9	9.7	6.8	1.9	3.2
1998-99	**DU**	1834.8	559.6	429.2	316.4	221.2	183.7	91.1	33.6
	Cyfran Cymru (%)	**3.4**	**3.1**	**2.2**	**4.7**	**4.4**	**3.7**	**2.2**	**9.4**
	Cymru	58.2	15.4	7.9	14.9	9.6	5.3	1.8	3.3
1997-98	**DU**	1733.2	533.6	399.2	306.3	207.0	169.5	78.7	38.9
	Cyfran Cymru (%)	**3.3**	**2.9**	**2.0**	**4.9**	**4.7**	**3.1**	**2.3**	**8.4**
	Cymru	51.1	14.8	8.1	12.9	6.5	5.4	1.5	1.9
1996-97	**DU**	1642.4	525.1	364.4	296.7	188.1	157.7	68.6	41.8
	Cyfran Cymru (%)	**3.1**	**2.8**	**2.2**	**4.3**	**3.5**	**3.4**	**2.2**	**4.5**
	Cymru	50.2	15.3	7.5	11.5	6.2	5.6	1.6	2.5
1995-96	**DU**	1553.2	531.8	338.1	269.3	169.7	147.6	58.5	38.2
	Cyfran Cymru (%)	**3.2**	**2.9**	**2.2**	**4.3**	**3.7**	**3.8**	**2.7**	**6.5**
	Cymru	48.1	14.6	7.1	11.2	5.6	5.9	1.4	2.3
1994-95	**DU**	1453.2	496.8	313.2	244.1	157.5	145.2	56.1	40.3
	Cyfran Cymru (%)	**3.3**	**2.9**	**2.3**	**4.6**	**3.6**	**4.1**	**2.5**	**5.7**
*	**Cymru**	43.2	13.0	6.3	9.3	5.4	4.8	1.8	2.6
1993-94	**DU**	1240.8	436.4	293.6	183.1	131.4	101.9	55.6	38.8
	Cyfran Cymru (%)	**3.4**	**3.0**	**2.1**	**5.1**	**4.1**	**4.7**	**3.2**	**6.7**
*	**Cymru**	40.6	10.7	5.5	10.5	5.1	4.4	2.0	2.4
1992-93	**DU**	1106.2	385.7	248.9	171.2	122.5	80.4	54.1	43.4
	Cyfran Cymru (%)	**3.7**	**2.8**	**2.2**	**6.1**	**4.2**	**5.5**	**3.7**	**5.5**

Ffynhonnell: Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
** Sefydliadau wedi'u cyllido gan CCP yn unig*

2.41 Gellir gweld bod y sector Cymreig wedi denu llawer llai o incwm, yn gyfrannol, na'r hyn a ddisgwylid ar sail ei ffactor cyfran safonol o 5%. Pryderir yn fawr am y gyfran isel o grantiau a ddenwyd gan y cynghorau ymchwil. Bu hyn yn destun astudiaeth a gomisiynwyd gan y Cyngor ym 1999. Prif gasgliad yr astudiaeth oedd bod y broblem i raddau helaeth yn gysylltiedig â'r nifer isel o gynigion a oedd yn cael eu cyflwyno i'r cynghorau ymchwil yn hytrach nag ansawdd y cynigion hyn. O ganlyniad, prif argymhelliad yr adroddiad oedd y dylai sefydliadau ganolbwyntio ar strategaethau a fyddai'n cynyddu nifer y cynigion a gyflwynir. Argymhellion eraill oedd y dylai sefydliadau:

- Fel cyrff, a staff ymchwil yn unigol, rwydweithio'n fwy eang â'r cynghorau ymchwil er mwyn cynyddu cyd-ymwybyddiaeth o bolisïau, galluoedd a chyfleoedd;

- Adolygu eu trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli'r broses ymchwil, yn enwedig i sicrhau bod ganddynt strategaeth hysbys a chyfarwydd ar gyfer eu gweithgareddau ymchwil a strwythurau ategol digonol i helpu ymchwilwyr i sicrhau cyllid allanol;

- Ystyried y potensial ar gyfer gwella lefelau o incwm o'r cynghorau ymchwil drwy gynyddu nifer y staff ymchwil sy'n gweithio mewn meysydd o gryfder; a

- Pharhau i ystyried cydweithio â grwpiau ymchwil eraill fel ffordd o ennill mantais wrth geisio cyllid ymchwil ychwanegol.

2.42 Derbyniodd y Cyngor yr argymhellion hyn ac, yn dilyn trafodaethau â'r sefydliadau, ceisiodd ddatganiadau strategaeth gan y pum prif sefydliad ymchwil yn y sector – PC Aberystwyth, PC Bangor, Prifysgol Caerdydd, PC Abertawe a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru – yr oedd yr astudiaeth wedi'i seilio arnynt. Mae'r strategaethau a dderbyniwyd yn dangos bod y sector wedi ymateb yn gadarnhaol i gasgliadau'r astudiaeth ac yn gosod targedau uchelgeisiol dros y cyfnod hyd at 2002-03. Nodau'r sector yw:

- cynnydd o 54% yn nifer y ceisiadau a wneir; a

- chynnydd o 76% mewn incwm o'r cynghorau ymchwil.

2.43 Mae perfformiad yn cael ei fonitro ac mae'r canlyniadau dechreuol yn galonogol, gyda thwf mewn incwm o'r cynghorau ymchwil yn unol â'r targed ar hyn o bryd.

2.44 Gosodwyd targedau uchelgeisiol gan y Cyngor ar gyfer canlyniadau YAY 2001, sef:

- Y radd gyfartalog staff-bwysoledig ar gyfer Cymru yn yr YAY nesaf i fod yn hafal i neu'n uwch na'r radd gyfwerth ar gyfer y DU yn yr Ymarfer hwnnw; a

- Chyfran yr holl staff academaidd yn sefydliadau addysg uwch Cymru sy'n gwneud gwaith ymchwil ac sydd mewn adrannau wedi'u graddio 3b ac uwch yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil nesaf i fod yn hafal i neu'n fwy na'r gyfran gyfwerth ar gyfer y DU; ac, yn yr Ymarfer hwnnw, cynnydd o un rhan o dair yn y graddau uchaf (4 neu uwch) a geir o gymharu ag YAY 1996.

2.45 Mae'r targedau hyn yn ceisio gwelliant ym mherfformiad sefydliadau addysg uwch Cymru o'u cymharu â gweddill y DU; felly, maent yn dibynnu ar y symudiad cyffredinol mewn perfformiad drwy'r DU a gaiff ei fesur pan gymherir canlyniadau YAY 2001 â chanlyniadau YAY 1996. Ni fydd y wybodaeth hon ar gael hyd ddiwedd 2001.

Cydbwysedd y Portffolio Ymchwil

2.46 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido ymchwil o ansawdd uchel. O ganlyniad mae wedi ymrwymo i ddyrannu cyllid yn ddetholus.

2.47 Fel y nodwyd ynghynt, defnyddir yr ymarferion asesu ymchwil i wneud hyn. Mae pob ymarfer wedi adeiladu ar brofiad yr un blaenorol, ac mae'r offer a dulliau asesu wedi cael eu

mireinio fwyfwy. Ond beirniadwyd yr ymarferion; er enghraifft, ystyrir eu bod yn edrych yn ôl a'u bod yn dylanwadu'n ormodol ar y ffordd mae ymchwil yn cael ei gwneud mewn sefydliadau addysg uwch. Gan gydnabod y feirniadaeth, cytunodd y cyrff cyllido y byddent yn gwneud cyd-adolygiad o'r drefn asesu ymchwil wedi 2001. Wrth baratoi, mae pob corff cyllido wedi adolygu ei bolisi ymchwil a bydd yr adolygiadau hyn (cyfeiriwyd yn gynharach at adolygiad y Cyngor) yn cyfrannu at y cyd-adolygiad o'r drefn asesu ymchwil a fydd yn dechrau mae'n debyg ar ddiwedd 2000 neu ar ddechrau 2001.

2.48 Er bod detholedd yn gyfrwng ar gyfer diogelu a gwella ansawdd, rhaid penderfynu i ba raddau y dylai detholedd gael ei ddefnyddio. Yng Nghymru, ni ddefnyddiwyd canlyniadau YAY 1996 (y graddau) ar gyfer detholedd i'r fath raddau ag yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod adrannau â graddau canolig wedi cael eu cyllido ar lefel uwch nag adrannau cyfwerth mewn rhannau eraill o'r DU. Felly, yn 2000-01, mae adrannau yn sefydliadau addysg uwch Cymru a gafodd raddau o dan 5 yn derbyn £7m yn fwy nag y byddent o dan fformiwla gyllido HEFCE.

2.49 Wrth wneud y penderfyniad hwn roedd y Cyngor yn ceisio hybu sylfaen ymchwil ddigon eang yng Nghymru a allai gael ei datblygu at y dyfodol. Pe bai heb wneud hyn:

- byddai llai na 25% o'r holl feysydd asesu wedi derbyn cyllid;
- byddai llai o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ymchwil ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau yng Nghymru;
- mae'n debyg y buasai'r sylfaen ymchwil yn rhy gul i gyfrannu'n briodol at yr economi Gymreig ac ansawdd bywyd yng Nghymru;
- byddai wedi amharu ar allu Cymru i ymateb yn gadarnhaol i'r economi fyd-eang.

c) Y genhadaeth economaidd

2.50 Mesurwyd effaith y sector addysg uwch ar economi Cymru mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan Benaethiaid Addysg Uwch Cymru (PAUC) ym 1997. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod y sector addysg uwch yn cael effaith wario o dros £1bn, a'i fod yn uniongyrchol ac anuniongyrchol gyfrifol am dros 23,000 o swyddi yng Nghymru. Darganfu astudiaeth PAUC, fodd bynnag, nad oedd fawr ddim rhyngweithiad rhwng y sector a diwydiant Cymru, gyda rhai eithriadau nodedig, a gwnaeth argymhellion ar sut y gellid newid hyn.

Hyfforddi a Gwaith Ymchwil Contract

2.51 Mae Ysgrifenyddion Gwladol Cymru olynol, ac yn awr y Cynulliad Cenedlaethol, wedi gwneud yn glir eu bod yn disgwyl i addysg uwch chwarae rhan bwysig mewn cefnogi'r economi Gymreig. Felly, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod sefydliadau'n ychwanegu'r rôl 'wasanaethu' hon (y cyfeirir ati weithiau fel y 'drydedd genhadaeth') at eu cenhadaeth ddeuol draddodiadol, sef addysgu ac ymchwil. Wrth wneud hyn mae'n rhaid cydnabod nad yw gwasanaethu yn yr ystyr hon wedi'i gyfyngu i faterion economaidd. Mae gwella ansawdd bywyd yr un mor bwysig, ac mae sefydliadau addysg uwch eisoes yn gwneud cyfraniad mawr yn y cyswllt hwn drwy eu hymwneud â materion iechyd, cymdeithasol a diwylliannol. Yn y paragraffau a ganlyn canolbwyntir ar weithgareddau sy'n hybu'r economi.

2.52 Etifeddodd y Cyngor gyllid yn gysylltiedig â chynllun PICKUP y Llywodraeth ac o'r cynllun hwnnw datblygodd ei gynllun Gwasanaethau Hyfforddi ac Ymgynghori (TACS) ei hun ym 1993/94. Bwriedir i i'r cynllun hwn helpu sefydliadau addysg uwch i ddarparu a datblygu gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori ar gyfer diwydiant, masnach, y proffesiynau a'r sector cyhoeddus. Darparwyd y cyllid i ddechrau ar sail gystadleuol ond, ym 1998, cyflwynodd y Cyngor ddull newydd o ddosrannu cyllid ar gyfer TACS, gan wneud ei ddyraniadau pro rata yn ôl yr incwm cyfartalog yr oedd y sefydliadau wedi'i dderbyn yn ystod y ddwy flynedd blaenorol (ac yn amodol ar dderbyn cynllun busnes priodol). Dangosir dyraniadau ac incwm TACS yn y tabl isod:

Blwyddyn	Cyfanswm dyraniadau TACS i'r sefydliadau £K	Cyfanswm incwm TACS y sector AU £m	Cynnydd ar incwm y flwyddyn flaen
1995-96	644	23.948	-
1996-97	662	26.602	11.08
1997-98	662	27.845	4.67
1998-99	662	30.617	9.95
1999-00	778	amh.	-
2000-01	820	amh.	-

2.53 Mae'r Cyngor hefyd wedi ceisio gwobrwyo sefydliadau am lwyddo i ddenu incwm am waith ymchwil a datblygu (Ymchwil Contract, neu CR). Dyrennir y swm sydd ar gael ar gyfer CR pro rata yn ôl incwm contract cyfartalog y sefydliadau dros y ddwy flynedd blaenorol. O 2000/01 ymlaen bydd cyllid CR yn amodol ar gyflwyno cynllun busnes i'r Cyngor. Mae dyraniadau ac incwm CR fel a ganlyn:

Blwyddyn	Cyfanswm dyraniadau CR gan CCAUC i'r sefydliadau sefydliadau	Incwm y sector AU o grantiau a chontractau ymchwil (CR)	Cynnydd ar incwm y flwyddyn
	£m	£m	flaenorol (%)
1996-97	1.269	51.031	-
1997-98	1.270	58.248	14.14
1998-99	1.370	63.202	8.51
1999-00	1.500	amh.	-
2000-01	1.500	amh.	-

2.54 Mae'n anodd iawn gwneud cymariaethau uniongyrchol â Lloegr neu'r Alban mewn perthynas â gweithgareddau TACS/CR gan eu bod yn eu diffinio a'u mesur mewn gwahanol ffyrdd. Serch hynny, darparwyd £2m gan SHEFC (sy'n cynnwys £1m gan Weithrediaeth yr Alban) ar gyfer ei gynllun Proffesiynoli Masnacheiddio ers 1999-2000. Llwyddodd sefydliadau addysg uwch yr Alban i ennill bron £200m y llynedd o'u holl waith ymchwil allanol.

2.55 Yn Lloegr, sefydlodd HEFCE Gronfa Ymgyrraedd at Fusnes a'r Gymuned ym 1999 er mwyn cynyddu gallu sefydliadau addysg uwch i ymateb i anghenion busnes. Dyrannwyd £60m ym 1999-2000 a dyrennir £23m arall yn ystod y pedair blynedd nesaf.

2.56 Dengys y tabl isod yr incwm a enillodd sefydliadau am wasanaethau ar wahân i waith ymchwil contract.

BLWYDDYN		CYFANSWM £m	%
1995-96	Cymru DU Cyfran Cymru (%)	30.9 524.6	 5.9
1996-97	Cymru DU Cyfran Cymru (%)	36.7 612.8	 6.0
1997-98	Cymru DU Cyfran Cymru (%)	36.6 633.7	 5.8
1998-99	Cymru UK Cyfran Cymru (%)	38.4 640.7	 6.0

Ffynhonnell: Cofnod Cyllid yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

2.57 O gymharu ag incwm o grantiau ymchwil a gwaith ymchwil contract, mae'r sector Cymreig yn perfformio'n dda yn erbyn y DU yn gyffredinol, gan sicrhau canran o ryw 5.9% sydd ymhell uwchben y gyfran safonol ar gyfer Cymru. Yn arbennig, mae incwm sefydliadau Cymreig o Gynlluniau'r Cwmni Addysgu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae bellach yn 6% o'r cyfanswm ar gyfer y DU. O dan y cynlluniau hyn, mae sefydliadau a chwmnïau unigol yn sefydlu partneriaethau lle mae staff neu fyfyrwyr y sefydliad yn gweithio gyda'r cwmni dan sylw i fynd i'r afael â phroblem arbennig. Mae hwn yn ddull arbennig o effeithiol o ddatblygu cysylltiadau rhwng sefydliadau a diwydiant.

Addysg Uwch ac Economi Cymru

2.58 Mae sefydliadau addysg uwch Cymru yr un mor weithgar â sefydliadau eraill y DU o ran sefydlu a chynnal cysylltiadau a phartneriaethau â diwydiant a masnach.

2.59 Mae'r berthynas rhwng addysg uwch a diwydiant/masnach wedi canolbwyntio'n aml ar alluoedd ymchwil y sector addysg uwch. Er enghraifft, mewn perthynas â'r rôl y gall addysg uwch ei chwarae, mae Foresight – rhaglen Llywodraeth y DU i sicrhau mantais gystadleuol i'r DU a gwella ansawdd bywyd – yn canolbwyntio'n arbennig ar harneisio gwybodaeth newydd i gynnal cystadleurwydd y DU yn wyneb globaleiddio'r economi. Fodd bynnag, mae'r arbenigedd sydd ar gael o fewn addysg uwch yn llawer mwy eang na hyn. Felly, nododd y Papur Gwyn ar Gystadleurwydd (1998) nad yw cynhyrchu ac ymelwa ar wybodaeth *"yn ymwneud yn unig â gwthio ffiniau gwybodaeth yn ôl; mae hefyd yn ymwneud â defnyddio ac ymelwa'n fwy effeithiol ar bob math o wybodaeth ym mhob math o weithgareddau, ac nid yn unig y gweithgareddau hynny a elwir weithiau yn rhai technoleg-uchel neu wybodaeth-ddwys"*.

2.60 Mae gan hyn arwyddocâd arbennig mewn perthynas ag economi Cymru. Er bod y Llywodraeth yn iawn i annog sefydliadau addysg uwch i roi mwy o sylw i drosi syniadau newydd yn fentrau masnachol, nid oes yng Nghymru sylfaen ymchwil ddiwydiannol fawr. Mewn geiriau eraill, cyfyngiad allweddol ar drosglwyddo technoleg yn effeithiol yng Nghymru

yw nad oes "tynnu gan ddiwydiant" i gyd-fynd â'r "gwthio gan dechnoleg" sydd mor amlwg yma. Mae sicrhau gwell cydbwysedd rhwng yr elfennau hyn yn allweddol cyn y gall addysg uwch yng Nghymru wireddu ei photensial a chyfrannu'n llawn at yr economi Gymreig.

2.61 Mae'r pwyslais ar ddefnyddio gwybodaeth yn y sector addysg uwch at ddibenion masnachol wedi arwain at bwyslais ar sefydlu canolfannau o fewn sefydliadau, gan gynnwys canolfannau 'deor', sy'n canolbwyntio ar fasnacheiddio syniadau newydd. Bu'r Cyngor yn cefnogi ac yn hybu'r datblygiadau hyn. Yn arbennig, mae wedi ffurfio partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru i lansio Rhaglen "Spin-out" Cymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau ar gyfer creu busnesau o safon uchel o'r sector addysg uwch. Darperir £500k gan y Cyngor yn 2000-01 a £3.8m gan yr Awdurdod sy'n cael ei dargedu at bum clwstwr o sefydliadau.

2.62 Nod y Rhaglen yw peri newid meddylfryd drwy annog myfyrwyr, ymchwilwyr a staff, yn ogystal â chyn raddedigion, i gychwyn eu busnesau eu hunain, gyda chymorth academaidd a masnachol i'w helpu i ddatblygu eu cynnyrch neu wasanaeth. Gellir gwneud cyfraniad effeithiol, eang ei gwmpas a thymor hir drwy feithrin amgylchedd lle caiff greddfau creadigol ac entrepreneuraidd y myfyrwyr eu hysgogi a'u meithrin. Nid yw hyn yn golygu darparu cyfleusterau deor yn unig; mae hefyd yn golygu cynnwys creadigedd entrepreneuraidd yn nod o fewn y cwricwlwm academaidd. Mae'r rhaglen "Spin-out" wedi dechrau mewn sefydliadau addysg uwch a bydd y Cyngor yn adolygu'r cynllun ar ddiwedd 2000-01 cyn penderfynu ar gyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

2.63 Rhan o unrhyw strategaeth i harneisio'n llawn yr arbenigedd sydd o fewn sefydliadau addysg uwch yw gwneud yr arbenigedd hwnnw'n hysbys. Yn yr Alban, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban (SHEFC) a Phwyllgor Prifathrawon Addysg Uwch yr Alban (COSHEP) yn cymryd camau i sefydlu System Gwybodaeth Ymchwil yr Alban – cyfleuster wedi'i seilio ar y we sy'n darparu gwybodaeth fanwl am arbenigedd ymchwil staff yn y sector addysg uwch. Ystyrir y bydd y system hon yn gyfrwng effeithiol ar gyfer hybu masnacheiddio ymchwil a gwaith trosglwyddo gwybodaeth yn gyffredinol ac, fel y cyfryw, bydd hi'n ganolog i ddatblygu economi a chymdeithas â gwybodaeth yn sail iddynt yn yr Alban.

Cyflogadwyedd myfyrwyr a sylfaen sgiliau Cymru

2.64 Llawn cyn bwysiced yw paratoi unigolion ar gyfer byd gwaith. Mae pwyslais cynyddol yn cael ei roi ar brofiad gwaith, meithrin sgiliau sy'n allweddol i raddedigion, annog cymhelliant entrepreneuraidd, a darganfod ffyrdd o leihau diweithdra ymysg graddedigion i'r eithaf. Bu'r Cyngor yn annog y sefydliadau i wneud hyn ac eleni mae wedi gofyn iddynt baratoi cynlluniau profiad gwaith a chynlluniau cyflogadwyedd. Mae hefyd yn cydweithio â'r cyrff cyllido eraill i ddatblygu a mireinio dangosyddion perfformiad er mwyn cael dull dibynadwy o fesur llwyddiant sefydliadau i sicrhau bod eu graddedigion yn cael swyddi. Ffurfiwyd partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru hefyd i gyllido cyfres o raglenni mewn sefydliadau addysg uwch sydd â'r nod o wella rhagolygon gwaith eu myfyrwyr:

- mae'r cyd-gynllun hwn yn rhedeg am dair blynedd gyda chyllideb flynyddol o £350,000, y cyfrennir ei hanner gan y Cyngor; ac
- mae'r cynllun ar hyn o bryd yn creu oddeutu 1,500 o swyddi i raddedigion a 1,000 o swyddi i fyfyrwyr bob blwyddyn.

2.65 Mae'r Cyngor yn cefnogi'r prosiect Sgiliau Dyfodol Cymru ac, yn sgil cyhoeddi adroddiadau'r prosiect, mae wedi annog y sefydliadau i wneud defnydd llawn o'r wybodaeth sydd ar gael wrth adolygu eu strategaethau dysgu ac addysgu a'u portffolios o gyrsiau. Mae'n disgwyl gweithio'n agos ar hyn â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Yn fwy cyffredinol, mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth yn gyson i ddarparu lleoedd ar gyrsiau gwyddoniaeth a thechnoleg ac ar gyrsiau diploma dwy flynedd yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth ac i gwrdd ag anghenion diwydiannau gweithgynhyrchu a thechnolegol Cymru. Felly:

- bu cynnydd o 25% ers 1993-94 mewn cofrestriadau ar gyrsiau gwyddoniaeth a thechnoleg i israddedigion, o'i gymharu â chynnydd cyffredinol o 12% yn nifer yr israddedigion dros yr un cyfnod.

d) Cydweithio ac integreiddio

Cydweithio o fewn addysg uwch

2.66 Mae dyblygu gweithgareddau rhwng sefydliadau yn wastraffus. Am y rheswm hwn, argymhellir mwy o gydweithio. Mae llawer enghraifft o staff unigol yn cydweithio o fewn a rhwng sefydliadau. Mae gweddill yr adran hon yn edrych ar bartneriaethau ar raddfa fwy.

2.67 Mae nifer o enghreifftiau o fentrau cydweithiol mawr yng Nghymru. Darparwyd cymorth ariannol gan y Cyngor ar gyfer rhai ohonynt, er enghraifft:

- Mae Prifysgol Caerdydd a Choleg Cerdd a Drama Cymru yn rhannu adnoddau eu llyfrgelloedd cerddoriaeth;
- Mae Bwrdd Partneriaeth CMPC/Prifysgol Caerdydd yn darparu mecanwaith i'r ddau sefydliad weithredu cynlluniau addysg feddygol a deintyddol ar y cyd a hybu rhaglenni ymchwil cyffredin yn y disgyblaethau hyn;
- mae Pedwarawd Caerdydd yn gyfrwng ar gyfer marchnata'r cyfleoedd a ddarperir gan y pedwar sefydliad addysg uwch yn y ddinas;
- Dan fantell Prifysgol Cymru, mae'r Sefydliad Mecaneg Llifyddion An-Newtonaidd yn dwyn ynghyd weithgareddau ymchwil y grwpiau mecaneg llifyddion yn Aberystwyth, Bangor ac Abertawe; ac
- Mae Adrannau Addysg PC Aberystwyth, PC Bangor, PC Abertawe ac APC Caerdydd yn cefnogi HATT (Hyfforddi Athrawon/Teacher Training), rhaglen ar gyfer datblygu llwybrau rhan-amser ac amser-llawn i fyfyrwyr sydd am ennill Tystysgrif Addysg i Raddedigion drwy gyfrwng dysgu agored a dysgu o bell.

2.68 Fodd bynnag, mae gweithredu o'r fath wedi'i gyfyngu gan yr angen i sicrhau na thanseilir annibyniaeth y sefydliadau neu adrannau unigol. Mae'r rheidrwydd hwn i ddiogelu annibyniaeth yn gallu gosod cyfyngiadau neu rwystrau sy'n effeithio ar lwyddiant y cydweithio, ac nid yw'r rhwystrau hyn yn ganlyniad cystadleuaeth am fyfyrwyr neu gyllid ymchwil yn unig. Am y rheswm hwn, mae'n eithriadol o anodd gosod cydweithio o'r brig i lawr drwy ysgogiadau ariannol. Mae'r ddibyniaeth ar gyllido o'r tu allan, sy'n gyllid tymor byr fel rheol, ac ar frwdfrydedd un neu ddau o unigolion, yn golygu nad yw'r prosiect fel rheol yn dod yn rhan annatod o weithgareddau creiddiol y sefydliadau, gyda'r canlyniad bod newid tymor hir yn ddigwyddiad prin.

2.69 Serch hynny, y mae enghreifftiau o ddatblygiadau a all arwain at bartneriaethau effeithiol, hirbarhaol rhwng sefydliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu cynlluniau ar y cyd ar gyfer addysgu modylau cyfrwng Cymraeg, gan ymgorffori dulliau cyflwyno electronig o bosibl;
- Paratoi a chyflwyno rhaglenni e-ddysgu ar y cyd drwy gyfrwng yr e-Brifysgol arfaethedig ar gyfer y DU gyfan.

Cydweithio â Darparwyr Addysg Eraill

2.70 Ceir hefyd bartneriaethau pwysig a chynhyrchiol â sectorau eraill, yn enwedig addysg bellach. Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r sefydliadau hynny sydd wedi sefydlu partneriaethau ffranseis cryf a hirbarhaol gyda cholegau addysg bellach ac wedi sicrhau twf mawr mewn cofrestriadau ar gyrsiau ffranseis yn ystod y degawd diwethaf (gweler paragraff 3.23). Yn achos Prifysgol Morgannwg, mae hyn wedi arwain at ddatblygu rhwydwaith o golegau cyswllt gyda chwe choleg yn cymryd rhan. Mae'r trefniant hwn, ynghyd â'i phartneriaethau ffranseis helaeth a'i chyfraniad at ddatblygiad y Brifysgol Gymunedol, wedi galluogi'r Brifysgol i estyn ei gampws i bob rhan o Gymru.

2.71 Yn fwy diweddar, seiliwyd polisi'r Cyngor o gynyddu nifer y cyrsiau addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach ar sefydlu, ym mhob achos, cytundeb (compact) rhwng y coleg a sefydliad addysg uwch. Hyd yn hyn, sefydlwyd oddeutu 100 cytundeb yn y modd hwn.

2.72 Drwy ei Gronfa Bartneriaeth, mae'r Cyngor wedi cyllido amryw o gyd-gynlluniau rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach. Yn arbennig, darparwyd cyllid i helpu sefydlu Prifysgol Gymunedol Gogledd Cymru ac i wneud ymchwiliad i'r posibilrwydd o sefydlu trefn debyg yng Ngorllewin Cymru. Mae'r gyntaf, sy'n cynnwys dau sefydliad addysg uwch ac 8 coleg addysg bellach, newydd ddechrau recriwtio i'w chyrsiau. Mae'n disgwyl cyfrannu'n sylweddol at ddarparu cyfleoedd mynediad yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â bod yn ganolbwynt ar gyfer y Brifysgol i Ddiwydiant (PiDd) yn y rhanbarth.

2.73 Efallai mai'r datblygiad mwyaf arwyddocaol ar gyfer y tymor hir yw sefydlu, ar y cyd gan y cyrff sy'n cynrychioli addysg bellach ac addysg uwch (Fforwm a AUC), a chyda chymorth ariannol y Cyngor, weithgor strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu un fframwaith credyd a chymwysterau ôl-16. Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi'r agenda dysgu gydol oes drwy gynnig dull mwy hyblyg o astudio am gymhwyster tra'n cadw rheolaeth dros safonau.

2.74 Oherwydd maint ac amrywiaeth y cysylltiadau sydd wedi datblygu rhwng y ddau sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor yn bwriadu comisiynu astudiaeth eang ei chwmpas o'r partneriaethau rhwng addysg bellach ac addysg uwch. Disgwylir y bydd yr astudiaeth yn dechrau yn yr hydref 2000 a gobeithir y bydd ei chanlyniadau ar gael yn gynnar yn 2001. Mae'r Cyngor eisoes yn ystyried lleddfu ei safbwynt ar gyfuniadau AU/AB.

2.75 Yn yr astudiaeth, *From Elitism to Inclusion*, a gyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Is-gangellorion a Phrifathrawon Prifysgol ym 1998, gyda chymorth ariannol y Cyngor a'r cyrff cyllido eraill, tynnwyd sylw at yr angen i sefydlu a datblygu partneriaethau rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau mawr yn y nifer y bobl ifanc o wahanol grwpiau cymdeithasol a oedd yn cyrchu addysg uwch. Ystyrir bod sefydlu

cytundebau rhwng sefydliadau addysg uwch ac ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd yn ffordd arbennig o effeithiol o leihau'r gwahaniaethau hyn. Ceir dros 100 cytundeb o'r fath ar hyn o bryd yng Nghymru, a bwriad y Cyngor yw gweld y nifer hwn yn cynyddu. I gyflawni hyn, mae wedi sefydlu cynllun i gynorthwyo sefydlu a chynnal cysylltiadau rhwng ysgolion a sefydliadau addysg uwch. Dyrannwyd cyfanswm o £500,000 am gyfnod o ddwy flynedd, o 1999 hyd 2001, i gefnogi prosiectau mewn sawl sefydliad addysg uwch. Enghreifftiau o'r mathau o raglenni sy'n cael eu cynnal yw:

- sefydliadau addysg uwch yn adeiladu ar eu cytundebau presennol ag ysgolion, gan gynnig gweithgareddau ychwanegol neu ganolbwyntio ar blant ifancach;
- mae'r Coleg Meddygaeth yn ehangu sylfaen gymdeithasol ymgeiswyr ar gyfer hyfforddiant meddygol ar sail Cymru-gyfan, ac
- mae dau sefydliadau addysg uwch yn rhedeg ysgol haf Fynediad ar y cyd i ysgogi a helpu myfyrwyr i fynd i mewn i addysg uwch.

2.76 Mae cynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd yn her enfawr ac mae ymhell y tu hwnt i allu'r sector addysg uwch i'w ateb ar ei ben ei hun. Gall addysg uwch gyfrannu'n fwyaf effeithiol drwy weithio ar y cyd ag asiantaethau lleol eraill. Yn y cyswllt hwn, y gwaith sy'n cael ei wneud ag ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd yw un o'r sianelau mwyaf cynhyrchiol i'r sector addysg uwch.

Cyfuniadau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch

2.77 Ym 1999 gofynnodd y Swyddfa Gymreig i'r Cyngor nodi'r posibiliadau ar gyfer cyfuniadau sefydliadol yn y sector addysg uwch. Ymatebodd y Cyngor drwy gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Medi 1999. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod nifer cymharol fawr o sefydliadau bach yn y sector addysg uwch yng Nghymru ac, er mwyn cwrdd â'r her sydd bellach yn wynebu addysg uwch, o fewn ac y tu allan i Gymru, fod achos dros leihau nifer y sefydliadau. Ystyrid bod y sefydliadau lleiaf yn wynebu'r anawsterau mwyaf oni bai bod gan y sefydliad genhadaeth arbennig a oedd yn apelio at farchnad *niche* benodol. Enghreifftiau yng Nghymru yw Coleg Cerdd a Drama Cymru a Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru.

2.78 Nododd yr adroddiad fod cyfuniadau'n debygol o:

- Sicrhau mwy o ddarbodion maint mewn perthynas â gorbenion;
- Lleihau'r perygl o ansefydlogrwydd ariannol neu fethdaliad;
- Sicrhau amrywiaeth fwy cynhwysfawr o arbenigeddau (arbenigeddau pwnc ac yn fwy cyffredinol) mewn ymchwil ac addysgu;
- Sicrhau'r enillion gorau ar gyfleusterau drud; a
- Gwneud sefydliadau'n fwy amlochrog ac yn fwy ymatebol i sialensiau newydd.

ADRAN 3: Y CYNGOR CYLLIDO

Cyflwyniad

3.1 Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei sefydlu ar 6 Mai 1992 o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Pasiwyd y Ddeddf yn sgil penderfyniad y Llywodraeth i ddisodli'r system addysg uwch ddeuaidd a fodolai ar y pryd a sefydlu system unedol yn ei lle yn seiliedig ar diriogaethau cenedlaethol y Deyrnas Unedig (DU). Golygai hyn fod yr asiantaethau a fu hyd hynny yn gyfrifol am ddyrannu cyllid cyhoeddus ar gyfer addysg uwch, ar sail y system ddeuaidd, wedi cael eu disodli gan asiantaethau tiriogaethol, sef, yn benodol, cynghorau cyllido addysg uwch ar gyfer yr Alban, Cymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon parhawyd i gyllido addysg uwch yn uniongyrchol gan yr Adran Addysg (DENI); Cynulliad Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol amdani bellach.

3.2 Yng Nghymru golygai hyn fod cyfrifoldeb dros yr holl addysg uwch a ddarperir yng Nghymru, ac eithrio'r Brifysgol Agored, am y tro cyntaf yn nwylo'r Swyddfa Gymreig. Tan hynny roedd Prifysgol Cymru a'i sefydliadau cyfansoddol wedi cael eu cyllido fel rhan o drefn ar gyfer Prydain Fawr gan y Cyngor Cyllido Prifysgolion (UFC). O blith y sefydliadau sy'n weddill, roedd Coleg y Drindod, Caerfyrddin wedi cael ei gyllido'n uniongyrchol gan y Swyddfa Gymreig ac roedd y lleill yn eiddo i awdurdodau lleol unigol ond yn derbyn cyllid rheolaidd wedi'i gyfrifo ar sail Cymru gyfan gan Gorff Ymgynghorol Cymru ar gyfer Addysg Uwch yr Awdurdodau Lleol. Daeth pob un ond dau o'r sefydliadau hyn yn annibynnol ar eu hawdurdodau lleol ym 1992.

3.3 Daeth CCAUC yn gyfrifol am gyllido'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993. Wrth sefydlu system addysg uwch unedol yr oedd corff Cymreig, am y tro cyntaf, yn gyfrifol amdani, darparwyd gweinyddiaeth y Cyngor gan un Uned Weithredol wedi'i rhannu â Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru (CCABC). Hwn oedd yr unig drefniant o'i fath yn y DU hyd nes sefydlu Uned Weithredol ar y Cyd yn yr Alban ar gyfer Cynghorau Cyllido'r Alban (Addysg Bellach ac Uwch) ym 1999. Bydd y trefniant yn parhau pan ddisodlir CCABC gan Gyngor Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (CCAH) ar 1 Ebrill 2001.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

3.4 Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Cyngor yn deillio o'r cyfrifoldebau statudol a osodwyd arno gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac, mewn perthynas â Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), gan Ddeddf Addysg 1994. Gellir crynhoi'r prif rai fel a ganlyn:

- Gweinyddu'r cyllid a ryddheir i'r Cyngor at bwrpas:
  - darparu cymorth ariannol i gynnal darpariaeth addysgol;
  - ymgymryd â gwaith ymchwil a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r pwrpas hwn yn sefydliadau addysg uwch Cymru; a
  - darparu cyrsiau addysg uwch penodedig yn sefydliadau addysg bellach Cymru.

- Ymgynghori â chyrff perthnasol ynglyn â'r telerau a'r amodau i'w gosod mewn perthynas â grantiau, benthyciadau a thaliadau eraill;
- Rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol (yr Ysgrifennydd Gwladol gynt) unrhyw wybodaeth a chyngor y gall ofyn amdanynt neu y dylai eu cael ym marn y Cyngor;
- Sicrhau darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'r Cyngor yn cyllido eu gweithgareddau;
- Achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ysgol;
- Comisiynu ymchwil i wella safonau addysgu a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal, gall y Cyngor:

- gyda Chynghorau AU eraill, gyflawni swyddogaethau ar y cyd lle mae'n ymddangos y byddai'n fwy effeithlon neu effeithiol i wneud hynny.

3.5 Cyflwynodd y Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol i Addysg Uwch yn y DU, dan arweiniad yr Arglwydd Dearing, ei adroddiad i'r Llywodraeth ym mis Gorffennaf 1997. Nododd bum swyddogaeth yr oedd cyrff cyllido yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd ac y dylent barhau i'w cyflawni. Y rhain oedd:

- Cyfrannu at gyllido gweithgareddau addysgu;
- Dylanwadu ar y lefelau cyffredinol o gyflenwad a galw ar gyfer addysg uwch, gan ddefnyddio eu dylanwad o bosibl mewn meysydd rhaglen neu ddisgyblaethau arbennig;
- Hyrwyddo a sicrhau defnydd da o arian cyhoeddus;
- Gweithredu i gefnogi polisïau'r Llywodraeth; a
- Chyllido ymchwil o dan y trefniadau cymorth deuol (gweler paragraff 1.9).

Dull Gweithredu

3.6 Prif gyfrifoldeb y Cyngor yw dyrannu'r cymorth grant a roddir iddo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Dosrennir y rhan fwyaf ohono drwy fformiwla ar ffurf grant bloc blynyddol i'r sefydliadau. Felly, ar gyfer 2000-01, allan o ddosraniad grant rheolaidd o £285m, dyrannwyd oddeutu £260m (ychydig dros 90%) yn y modd hwn i gefnogi addysgu ac ymchwil.

3.7 Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ar sawl achlysur i'r dulliau cyllido a ddefnyddir ganddo. Daeth i'r casgliad, yn gyson, mai'r ffordd orau o ddosrannu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil yw drwy fformiwla. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn eglur ac, o safbwynt y sefydliadau, yn darparu rhywfaint o sicrwydd. Mae'r elfen o sicrwydd yn bwysig gan ei bod yn rhoi cyfle i sefydliadau ymgymryd â chynllunio tymor hir. Caiff dyraniadau fformiwla'r Cyngor ar gyfer addysgu ac ymchwil eu dosrannu ar ffurf grantiau bloc. Mae hyn yn golygu nad oes angen i sefydliadau roi cyfrif manwl o sut y gwariant eu dyraniad; yn hytrach, disgwylir canlyniadau penodol gan y sefydliadau am y cyllid a dderbyniant, gan gynnwys y nifer o fyfyrwyr i gael eu recriwtio neu ansawdd yr ymchwil a wneir.

3.8 Mae'r dull fformiwla yn caniatáu i'r Cyngor hyrwyddo blaenoriaethau polisi'r Cynulliad, er enghraifft:

- Hybu darpariaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg;
- Hybu cyrsiau ffranseis rhan-amser;
- Darparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer ehangu mynediad;
- Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- Gwella ansawdd ymchwil.

3.9 Hyrwyddir blaenoriaethau polisi hefyd drwy gynlluniau cyllido penodol, weithiau drwy gyfrwng cyllido cystadleuol neu, yn fwy diweddar, drwy gynigion yn erbyn cyllid a ddyrannwyd ymlaen llaw. Mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd detholus o gynlluniau o'r fath, er enghraifft, os yw o'r farn bod angen annog sefydliadau i ymgyrraedd at nodau arbennig, er enghraifft:

- Sefydlu partneriaethau â cholegau addysg bellach; a
- Datblygu ymchwil sy'n helpu i greu cyfoeth.

3.10 Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r sefydliadau fod yn glir ynghylch eu cenhadaeth a'u cyfeiriad. I'r perwyl hwn, mae wedi ceisio cynlluniau strategol ganddynt o'r cychwyn cyntaf. Yn fwy diweddar, er mwyn annog datblygu cynllunio tymor hir ar draws y sefydliadau mewn meysydd blaenoriaethol arbennig, mae'r Cyngor wedi ceisio strategaethau ar gyfer meysydd penodol ac wedi rhoi symiau ychwanegol o arian o'r neilltu a ddyrennir i'r sefydliadau os derbynnir cynlluniau boddhaol:

- Datblygu dysgu ac addysgu, gan gynnwys sgiliau sy'n gwneud graddedigion yn fwy cyflogadwy (£0.5m y flwyddyn);
- Ehangu mynediad (£1.5m y flwyddyn);
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg (£254k);
- Cymorth i fyfyrwyr ag anableddau (£0.5m y flwyddyn); a
- Chontractau hyfforddi, ymgynghori ac ymchwil (£2.3m).

Mae'r cynlluniau yn caniatáu i'r Cyngor fonitro'r meysydd hyn, ac annog sefydliadau i'w datblygu ymhellach.

3.11 Gweithgaredd sy'n ymestyn drwy'r DU a'r byd cyfan yw addysg uwch. Mae'n bwysig felly, er lles Cymru, i'r Cyngor gydweithio â chyrff cyllido eraill y DU ar raglenni is-strwythur sylweddol a rhaglenni eraill. Mae rhaglenni o'r fath yn cynnwys:

- Y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth (sy'n gweinyddu'r Cyd-rwydwaith Academaidd (electronig, band llydan);

- YSefydliad Dysgu ac Addysgu;
- Y Rhwydwaith Cefnogi Dysgu ac Addysgu;
- Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau;
- Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd; ac
- Y Cyd-gynllun Cyfarpar Ymchwil.

Cenhadaeth y Cyngor

3.12 Ceir datganiad ar gyfrifoldebau, nodau a gweledigaeth y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol.

Atodiad 2

Ymgynghori

Rhagymadrodd

Cyhoeddwyd y llythyr ymgynghori ar 22 Medi 2000 ac roedd yn ofynnol derbyn yr ymatebion erbyn 30 Tachwedd 2000. Atgynhyrchir yr holiadur a'r llythyr eglurhaol isod.

Rhoddodd y pwyllgor wahoddiad i oddeutu 200 o gyrff gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a derbyniwyd 86 o ymatebion. Ceir rhestr o'r rhain yn Atodiad 3.

Lluniodd yr ymgynghorydd arbenigol grynodeb cychwynnol o'r ymatebion a dderbyniwyd a thrafodwyd y papur hwn - ELL 02-01(p.3) - gan y pwyllgor yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2001. Wedi hynny, lluniodd yr ymgynghorydd arbenigol ddadansoddiad manylach o'r ymatebion - Chwefror 2001 ac mae'r ddwy ddogfen hyn ar gael ar wefan y Cynulliad - www.cymru.gov.uk - o dan pwyllgorau/Addysg a Dysgu Gydol Oes/adolygiadau polisi/addysg uwch.

Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

22 Medi 2000

Annwyl Gyfaill

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bendant bod sector addysg uwch o'r radd flaenaf yn bwysig iawn i Gymru. Mae'n denu ysgolheigion a myfyrwyr. Mae'n denu arian ymchwil ac arian datblygu o fyd diwydiant a masnach. Mae'n darparu elfen bwysig wrth ddenu buddsoddwyr i Gyrmu. Ond yn fwy na hynny, mae sefydliadau addysg uwch wedi hen ennill eu plwyf fel sefydliadau sy'n chwarae rhan o bwys ym materion diwylliannol a chymdeithasol Cymru, gan hybu hygyrchedd i'r addysg a'r arbenigedd y gallant eu darparu. Yn fwy diweddar mae sefydliadau wedi chwarae rhan fwyfwy pwysig ym mywyd economaidd, diwydiannol a masnachol Cymru mewn ffordd bwysig iawn fel y gwelir y sector fel chwaraewr o bwys mewn pwerdy economaidd yng Nghymru.

Er hynny, er gwaethaf holl gyflawniadau'r sector, ni chafwyd erioed strategaeth genedlaethol i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad y sector i fywyd Cymru. Mae'r Pwyllgor yn anelu at unioni'r fantol drwy ymgymryd ag adolygiad o'r sector yn ystod y cyfnod Hydref 2000 – Ebrill 2001.

Wrth ymgymryd â'r astudiaeth bolisi hon, roddwyd cyfrifoldeb i'r Pwyllgor dros nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu strategol, gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu a phennu targedau ar gyfer cyrhaeddiad gan roi sylw dyledus i flaenoriaethau cystadleuol a chyfyngiadau ar adnoddau.

Yn ystod yr astudiaeth bolisi, caiff y Pwyllgor gyngor arbenigol gan yr Athro Leslie Hobson.

I ddechrau, mae'r Pwyllgor yn dymuno ymgynghori â chyfranddeiliaid i nodi'r ystod o bynciau a'r materion y dylid mynd i'r afael â hwy yn ystod yr astudiaeth bolisi. Yn Atodiad A rhoddir Cylch Gorchwyl yr adolygiad ac yn Atodiad B ceir rhestr o bynciau a materion y mae'r Pwyllgor wedi'i llunio. Gofynnir i chi gyflwyno sylwadau ar y rhain yn ysgrifenedig erbyn dydd Iau, 30 Tachwedd 2000 fan bellaf i:

Holly Pembridge
Dirprwy Glerc, Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
BAE CAERDYDD
CF99 1NA

Neu drwy e-bostio holly.pembridge@wales.gsi.gov.uk

Fel rhan o ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn agored, trefnir bod ymatebion i ymarferion ymghynghori ar gael i'r cyhoedd os gwneir cais. Byddwch cystal â nodi os nad ydych am i'ch ymateb, neu unrhyw ran ohono, fod ar gael i'r cyhoedd.

Adran 1 Maint a Siâp Addysg Uwch
1.1 **O fewn cyd-destun byd-ehangu cynyddol AU a yw amrywiaeth o ran cenhadaeth yn dal yn nodwedd ddymunol** Gallai'r materion gynnwys: • esbonio beth yw amrywiaeth ac asesu o dan ba amgylchiadau y dylid ei gynnal/ei wella • datblygu polisïau, strategaethau a mecanweithiau ariannu sy'n cefnogi ac yn hybu amrywiaeth yn hytrach na'i lesterio a'i erydu • nodi a hybu'r meysydd hynny lle gallai cysondeb o ran polisi ac arferion, neu ganoli gwasanaethau, fod yn bwysicach nag amrywiaeth
1.2 **Beth yw rôl partneriaethau, cydweithredu ac uniadau wrth roi unrhyw weledigaeth ar gyfer dyfodol AU yng Nghymru ar waith? Beth yw'r gwahanol fodelau ar gyfer sector AU yn y dyfodol yng Nghymru a manteision ac anfanteision pob model?** Gallai'r materion gynnwys: • darparu cymorth ar gyfer cydweithredu ym maes addysgu ag ymchwil • asesu manteision systemau cynghreiriol • nodi'r arbedion maint y gellir eu sicrhau drwy gydweithredu • ymarferoldeb cydweithredu sefydliadol wrth ddarparu rhaglenni er mwyn ymdrin â holl anghenion Cymru
1.3 **Sut y gall AU ddangos ei bod yn 'ddynamig' ac yn effro i newid?** Gallai'r materion gynnwys: • nodi'r pwysau mewnol ac allanol ar gyfer newid a'u heffaith, megis ehangu, TGCh a her byd-ehangu • datblygu strategaethau rheoli newid ar gyfer y sector er mwyn ei alluogi i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd newydd a datblygiadau technolegol
1.4 **Sut y gellir gwneud AU yng Nghymru yn fwy deniadol i fyfyrwyr yng Nghymru?** Gallai'r materion gynnwys: • hybu mwy o gydweithredu rhng y sectorau AU, AB ac ysgolion uwchradd • codi ymwybyddiaeth o'r ystod o ddarpariaeth sydd ar gael yng Nghymru • marchnata AU yng Nghymru fel endid, h.y. porth y rhyngrwyd

Adran 2
Dysgu ac Addysgu

2.1 **Ar ba ymagweddau at ddysgu ac addysgu y dylid manteisio?**

Gallai'r materion gynnwys:

- cefnogi staff academaidd i fanteisio ar ymagweddau newydd at ddysgu ac addysgu er mwyn cydategu'r goreuon ymhlith yr ymagweddau mwy traddodiadol
- hybu newid diwylliannol yn agweddau'r staff a'r myfyrwyr at ddarpariaeth AU
- sicrhau bod y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn rhan annatod o ddyluniad rhaglenni astudio
- cynnal-a-chadw a gwella seilwaith cyfathrebu
- ymateb i gystadleuaeth ryngwladol o du darparwyr eraill ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

2.2 **Sut y gall AU sicrhau a dangos bod ansawdd a safonau ei darpariaeth addysgu yn gystadleuol yn fyd-eang?**

Gallai'r materion gynnwys:

- datblygu systemau priodol ar gyfer asesu a dangos ansawdd
- darparu cymorth digonol i fyfyrwyr drwy gydol eu rhaglenni astudio
- galluogi darpar fyfyrwyr a chyflogwyr i wneud dewisiadau cytbwys ynghylch rhaglenni astudio sy'n berthnasol i'w hanghenion
- denu, cadw a datblygu staff o safon uchel

2.3 **Pa fecanweithiau y dylai'r sector AU eu mabwysiadu er mwyn ymateb i'r farchnad am addysg gydol oes, dysgu o bell a dysgu hyblyg?**

Gallai'r materion gynnwys:

- galluogi mynediad hyblyg i gyrsiau ac ymadael â hwy
- achredu astudio, gwaith a phrofiad blaenorol
- darparu dulliau astudio hyblyg ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n gyfleus i ddysgwyr
- ymateb i gyfleoedd a bygythiadau o farchnadoedd dysgu o bell a chwaraewyr newydd mewn darpariaeth AU
- darparu canllawiau a chymorth digonol i fyfyrwyr mewn gwahanol ddulliau astudio

2.4 **Sut y gall y sector ddatblygu ac addasu ei ystod o raglenni sy'n berthnasol yn alwedigaethol er mwyn darparu cyfleoedd gwell yn myd gwaith?**

Gallai'r materion gynnwys:

- darparu cymysgedd priodol o bynciau a lefelau o gymwysterau i fodloni galw'r dyfodol a'r newid yn anghenion yr economi
- cefnogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol
- cynnal a gwella cysylltiadau â chyflogwyr er mwyn helpu i sicrhau bod rhaglenni yn berthnasol i'w hanghenion
- cadw cydbwysedd rhwng datblygu sgiliau penodol y myfyrwyr a'u gallu ar gyfer addysg gydol oes a fydd yn eu galluogi i barhau i fod yn arloesol ac yn hyblyg

Adran 3
Adfywio Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol

3.1 **Sut y gallwn amlygu'r manteision economaidd y mae sector addysg uwch sy'n gystadleuol yn rhyngwladol yn dod â hwy i Gymru?**

Gallai'r materion gynnwys:

- sefydlu perthynas briodol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac ag asiantaethau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol
- nodi effaith economaidd y sector addysg uwch, er enghraifft, o safbwynt cyflogaeth ac incwm
- sichrau a dangos bod manteision economaidd addysg uwch yn cael eu lledaenu yn eang ar draws y gymdeithas

3.2 **Sut orau y gall y sector ymateb yn effeithiol i anghenion amrywiol y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol am arloesi a gwybodaeth ar y lefel leol a rhanbarthol?**

Gallai'r materion gynnwys:

- cryfhau ymglymiad lleol a rhanbarthol AU, yn enwedig drwy ariannu ac amodau eraill, er mwyn galluogi prifysgolion i chwarae rhan gyflawn yn adfywiad economaidd a chymdeithasol Cymru
- nodi gofynion penodol y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol o safbwynt 'gwybodaeth'
- hybu cysylltiadau â busnes a hybu trosglwyddo gwybodaeth, gweithgarwch ymestyn allan, menter ac arloesi

3.3 **Pa fesurau y dylai AU eu cymryd i helpu i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a diwallu anghenion yr economi drwy ehangu mynediad i addysg uwch?**

Gallai'r materion gynnwys:

- nodi rhwystrau i fynediad a chyfranogiad
- datblygu partneriaethau mwy effeithiol ag ysgolion, addysg bellach a chymunedau lleol i wella llwybrau dilyniant i AU, gan ganolbwyntio yn arbennig ar ardaloedd lle ceir amddifadedd
- hybu cyfleoedd cyfartal mewn mynediad i raglenni astudio a gyrfaoedd mewn addysg uwch, cyfranogiad yn y rhain a dilyniant drwyddynt (a oes unrhyw faterion eraill mewn perthynas â chyfleoedd cyfartal ee: materion staffio y dylid eu hystyried?)
- cynnig gwybodaeth a chanllawiau i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr newydd

Adran 3 Adfywio Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
3.4 **I ba raddau y dylai sefydliadau AU weithredu fel canolfannau diwylliannol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?** Gallai'r materion gynnwys: • cynnal a gwella perthnasau â chymunedau lleol • datblygu, cadw a throsglwyddo gwybodaeth am hunaniaethau diwyllianol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol • helpu i gadw a chyfathrebu'r gwerthoedd y mae eu hangen mewn cymdeithas amlblwyfol a gwâr • datblygu 'brand' Cymreig i helpu i hybu AU yng Nghymru dros y môr tra'n cadw amrywiaeth y ddarpariaeth
3.5 **Ym mha ffyrdd y gall AU gyfrannu at ddatblygu cynhwysedd dwyieithog yng Nghymru?** Gallai'r materion gynnwys: • datblygu mecanweithiau cadarn i gefnogi ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector • nodi anghenion y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector

Adran 4 Ymchwil
4.1 **Beth yw'r rhwystrau i ddatblygu sylfaen ymchwil gadarn, o safon uchel yng Nghymru ?** Gallai'r materion gynnwys: • denu a chadw ymchwilwyr o safon uchel • cadw a datblygu seilwaith ymchwil digonol • gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig ar gyfer ymchwil • taro cydbwysedd rhwng hybu rhagoriaeth a datblygu potensial
4.2 **A ddylid cael gwahanol genadaethau ymchwil rhwng sefydliadau?** Gallai'r materion gynnwys: • taro cydbwysedd rhwng ymchwil sylfaenol, strategol a chymhwysol • achub y blaen ar anghenion ar gyfer ymchwil ac ymateb iddynt • adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â gwendidau • sicrhau 'màs critigol' mewn meysydd lle ceir cryfder arbennig • hybu cydweithredu er mwyn galluogi unigolion dawnus i gymryd rhan mewn meysydd ymchwil lle nad yw eu sefydliadau eu hunain yn chwaraewyr o bwys
4.3 **I ba raddau y dylai sefydliadau gymryd rhan mewn masnacheiddio canlyniadau gweithgarwch ymchwil?** Gallai'r materion gynnwys: • datblygu mecanweithiau cadarn ar gyfer amddiffyn a manteisio ar hawliau eiddo deallusol • datblygu perthnasasu â darpar-ddefnyddwyr, cefnogwyr ymchwil wedi'i masnacheiddio ac asiantaethau datblygu economaidd • darparu cymorth ar gyfer ymchwilio i gyfleoedd masnacheiddio • cadw cydbwysedd rhwng prif weithgareddau traddodiadol AU ac ymglymiad mewn manteisio ar arloesi yn fasnachol

Adran 5 Ariannu
5.1 **Sut y gallwn sicrhau bod sefydliadau'n cynnig gwasanaeth o safon uchel o fewn cyllidebau sy'n fforddiadwy ac yn dderbyniol i'r llywodraeth?** Gallai'r materion gynnwys: • nodi'r ystod o ddewisiadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer dysgu ac addysgu, gwaith a gysylltir ag ymchwil a datblygu economaidd a'u heffaith ar sefydliadau • gwneud y defnydd gorau o staff, seilwaith ac adnoddau allweddol eraill • sicrhau triniaeth ariannu decach yn achos myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser • ymestyn cylchoedd ariannu • cynhyrchu incwm
5.2 **Sut y gallwn sicrhau na chaiff unrhyw fyfyriwr ei atal rhag manteisio ar ei astudiaethau neu eu cwblhau oherwydd caledi ariannol?** Gallai'r materion gynnwys: • asesu a ddylai myfyrwyr gyfrannu yn ariannol at hyfforddiant • nodi system briodol o ariannu myfyriwr a fydd yn sicrhau bod mynediad i AU yn cael ei hybu yn y ffordd orau

Adran 6 Atebolrwydd
6.1 **A yw'r system bresennol o atebolrwydd i'r cyhoedd yn 'addas at ddibenion' AU fodern?** Gallai'r materion gynnwys: • mynd i'r afael â phryderon bod galwadau atebolrwydd yn rhy feichus i'r sector • sicrhau bod trefniadau atebolrwydd yn diwallu'r lefelau o sicrwydd a hyder y mae cyfranddeiliaid yn gofyn amdanynt • cadw cydbwysedd priodol rhwng annibyniaeth ac atebolrwydd
6.2 **Sut y gallwn sicrhau iechyd ariannol boddhaol ar gyfer sefydliadau ?** Gallai'r materion gynnwys: • hybu mwy o eglurdeb yn y defnydd o'r arian cyhoeddus sydd ar gael i AU • datblygu arferion da a chanllawiau ar reoli ariannol a gwerth am arian
6.3 **Sut y gallwn sicrhau llywodraethu effeithiol o fewn y sector?** Gallai'r materion gynnwys: • gwerthuso prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau • datblygu arferion da a chanllawiau i helpu sefydliadau i ddatblygu systemau priodol o lywodraethu a rheoli

Os oes unrhyw bwnc neu fater arall y credwch y dylai'r Pwyllgor eu hystyried, nodwch hwy isod os gwelwch yn dda.

Ymatebwyr

	Y Corff/Unigolyn yr Ymgynghorwyd ag ef	Ymateb
1	Prifysgol Caerdydd	✔
2	Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru	✔
3	Y Brifysgol Agored, Cymru	✔
4	Athrofa Addysg Uwch Abertawe	✔
5	Coleg y Drindod, Caerfyrddin	✔
6	Prifysgol Morgannwg	✔
7	Prifysgol Cymru	✔
8	Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	✔
9	Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd	✔
10	Prifysgol Cymru, Aberystwyth	✔
11	Prifysgol Cymru, Bangor	✔
12	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	✔
13	Prifysgol Cymru, Abertawe	✔
14	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	✔
15	Coleg Cerdd a Drama Cymru	✔
16	Cyfarwyddwr Cyffredinol y Cynghorau Ymchwil	
17	Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddoniaethau Biolegol	✔
18	Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol	✔
19	Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	✔
20	Cyngor Ymchwil Feddygol	
21	Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol	
22	Cyngor Ymchwil Ffiseg Gronynnau a Seryddiaeth	
23	Cymdeithas y Gwasanaethau Ymgynghorol Gyrfaoedd i Raddedigion	
24	Cymdeithas y Recriwtwyr Graddedigion	
25	Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr	✔
26	Cymdeithas y Gweinyddwyr Prifysgol	✔
27	Cymdeithas Athrawon Prifysgol (Cymru)	✔
28	Cymdeithas Ymchwil Prifysgol a Chysylltiadau Diwydiant	
29	Pwyllgor yr Is-Ganghellwyr a'r Prifathrawon	✔
30	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	✔
31	Addysg Uwch Cymru	✔
32	Sefydliad Dysgu ac Addysgu	
33	Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth	✔
34	Cyd-Grŵp Polisi a Strategaeth Caffael	
35	Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)	✔

36	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (Cymru)	✔
37	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch	✔
38	Y Gymdeithas er Ymchwil i Addysg Uwch	
39	UKCOSA: Y Cyngor dros Addysg Ryngwladol	✔
40	Cymdeithas y Prifysgolion dros Addysg Barhaus	✔
41	Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau	
42	Cymdeithas Cyflogaeth Prifysgolion a Cholegau	
43	Asiantaeth Datblygu Staff Prifysgolion a Cholegau	
44	Fforwm	✔
45	Asiantaeth Datblygu Addysg Bellach	✔
46	Coleg Aberdâr	
47	Coleg y Barri	
48	Coleg Pen-y-Bont ar Ogwr	
49	Coleg Technoleg a Chelf Sir Gaerfyrddin	✔
50	Coleg Ceredigion	
51	Coleg Glan Hafren	
52	Coleg Gwent	✔
53	Coleg Harlech	✔
54	Coleg Llysfasi	
55	Coleg Meirion-Dwyfor	
56	Coleg Menai	✔
57	Coleg Powys	
58	Coleg Llandrillo	✔
59	Coleg Glannau Dyfrdwy	✔
60	Coleg Gorseinon	
61	Coleg Merthyr Tudful	
62	Coleg Castell-nedd Port Talbot	
63	Coleg Sir Benfro	
64	Coleg Pontypridd	✔
65	Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant	✔
66	Coleg Trydyddol Abertawe	
67	Coleg Garddwriaeth Cymru	
68	Coleg Yâl	
69	Coleg Ystrad Mynach	✔
70	Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru	
71	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	✔
72	Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Gyrfaoedd a Chyfarwyddyd	✔
73	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus Oedolion	
74	Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu	
75	Asiantaeth Hyfforddi Athrawon	

76	Y Brifysgol i Ddiwydiant	
77	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru	
78	Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru	
79	Siambr Masnach a Diwydiant Caerdydd	
80	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)	✔
81	Cyngor CHMau Cymru	✔
82	Partneriaeth Addysg Busnes	
83	Ffederasiwn y Busnesau Bach (Cymru)	✔
84	Partneriaeth y Canolbarth	
85	Siambr Masnach a Diwydiant Casnewydd a Gwent	
86	Siambr Masnach a Diwydiant Gogledd Cymru	
87	Fforwm Economaidd Gogledd Cymru	
88	Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru	
89	Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru	
90	Awdurdod Datblygu Cymru	✔
91	Siambr Masnach Gorllewin Cymru	
92	Cyngor Celfyddydau Cymru	
93	Cyngor Cefn Gwlad Cymru	✔
94	Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru	✔
95	Y Comisiwn Cyfle Cyfartal (Cymru)	✔
96	Cydffederasiwn yr NHS yng Nghymru	
97	Sgrîn, Asiantaeth y Cyfryngau, Cymru	
98	Cyngor Chwaraeon Cymru	
99	Bwrdd Croeso Cymru	✔
100	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	✔
101	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	✔
102	Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru	✔
103	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	
104	Cymdeithas Anatomegol Prydain Fawr ac Iwerddon	
105	Y Gymdeithas Biocemeg	
106	Cymdeithas Peirianneg Biomeddygol	
107	Yr Academi Brydeinig	
108	Y Gymdeithas Brydeinig er Hyrwyddo Gwyddoniaeth	
109	Cymdeithas Gyfrifiaduron Prydain	
110	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain	✔
111	Sefydliad Rheolwyr Prydain	
112	Cymdeithas Feddygol Prydain	
113	Cymdeithas Ffarmacolegol Prydain	✔
114	Cymdeithas Seicolegol Prydain	
115	Sefydliad Siartredig y Bancwyr	✔

116	Sefydliad Siartredig Adeiladu	
117	Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr Rheoli	
118	Sefydliad Siartredig Marchnata	
119	Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu	✔
120	Sefydliad Siartredig Pwrcasu a Chyflenwi	
121	Y Cyngor Peirianneg	
122	Y Sefydliad Bioleg	
123	Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr	
124	Sefydliad y Peirianwyr Cemegol	✔
125	Sefydliad y Peirianwyr Sifil	
126	Sefydliad Peririanwyr Trydan ac Electroneg	
127	Sefydliad Logisteg a Thrafnidiaeth	
128	Sefydliad y Rheolwyr	
129	Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau	
130	Sefydliad Peirianwyr Mecanyddol	
131	Y Sefydliad Ffiseg	✔
132	Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol	
133	Cymdeithas y Cyfreithwyr	
134	Cymdeithas y Llyfrgelloedd	✔
135	Y Gymdeithas Fathemategol	
136	Coleg Brenhinol y Nyrsys	✔
137	Coleg Brenhinol y Milfeddygon	
138	Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain	
139	Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig	
140	Y Gymdeithas Frenhinol	
141	Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau	
142	Cymdeithas Frenhinol Cemeg	
143	Y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol	
144	Sefydliad Frenhinol Cynllunio Tref	
145	Y Sefydliad Tecstilau	
146	Celfyddydau a Busnes Cymru	
147	Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru	
148	Cyngor Prydain (Cymru)	✔
149	Yr Eglwys yng Nghymru	
150	Cyngor Darlledu Addysgol Cymru	
151	Estyn	✔
152	Sefydliad Joseph Rowntree	✔
153	Sefydliad Materion Cymreig	
154	Archesgobaeth Gatholig Caerdydd	✔
155	Canolfan Mileniwm Cymru	✔

156	Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd	
157	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	
158	TUC Cymru	
159	Ymddiriedolaeth Wellcome	
160	UNSAIN	✔
161	Urdd Gobaith Cymru	
162	Y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol	
163	Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain	
164	Pwyllgor Sefydlog y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithas	✔
165	Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau	
166	Cyngor Deoniaid Prifysgol y Celfyddydau a'r Dyniaethau	
167	Cymdeithas Ymchwil Cymdeithasol	
168	Cymdeithas Polisi Cymdeithasol	
169	Sefydliad Anthropolegol Brenhinol Prydain Fawr ac Iwerddon	
170	Y Gymdeithas Economaidd Frenhinol	
171	Cymdeithas Seicolegol Prydain	
172	SKILL	✔
173	Academi'r Cymdeithasau Dysgedig	✔
174	Pedwarawd Caerdydd	✔
175	Carol Rakodi	
176	Pwyllgor Colegau Addysg Uwch Cymru	✔
177	Grŵp Cadeiryddion Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru	✔
178	Dafydd Wigley	✔
179	Comisiwn Hawliau Anabledd	✔
180	Cyngor Penaethiaid Adrannau Seicoleg	✔
181	Penaethiaid Adrannau Cemeg Prifysgolion (Cymru)	✔
182	Cymdeithas Fathemategol Llundain	✔
183	Y Pwyllgor Cenedlaethol dros Athroniaeth	✔
184	Yr Athro Mike Scott (ymateb personol)	✔
185	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus Oedolion - Dysgu Cymru	✔
186	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (Cymru)	✔
187	Cyngor Dinas Abertawe	✔
188	Cymdeithas Rhwydweithio Addysg ac Ymchwil y DU	✔
189	Yr Athro Keith Smith (ymateb personol)	✔
190	Prifysgol Cymru, Abertawe - Adran Peirianneg Gemegol	✔
191	Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd	✔

Atodiad 4

Papurau a gyflwynwyd i'r pwyllgor

Gellir cael yr holl bapurau hyn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn www.cymru.gov.uk yn adran y pwyllgorau.

Teitl	Cyfeirnod	Dyddiad
Cylch gwaith ac amserlen	ELL 03-00 (p.1)	29 Tachwedd 2000
Papur a gyflwynwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru	ELL 04-00 (p.3)	13 Rhagfyr 2000
Rhagoriaeth a Pherthnasedd - Datganiad Cychwynnol gan Addysg Uwch Cymru	ELL 04-00 (p.4)	13 Rhagfyr 2000
Adroddiad Crynodeb yr Ymgynghorydd Arbenigol ar ganlyniad yr ymarfer ymgynghori	ELL 02-01 (p.3)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Coleg Cerdd a Drama Cymru	ELL 02-01 (p.4)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	ELL 02-01 (p.5)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Cymru, Bangor	ELL 02-01 (p.6)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Coleg y Drindod, Caerfyrddin	ELL 02-01 (p.7)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd	ELL 02-01 (p.8)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Caerdydd	ELL 02-01 (p.9)	31 Ionawr 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Morgannwg	ELL 03-01 (p.1)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Athrofa Addysg Uwch Abertawe	ELL 03-01 (p.2)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru	ELL 03-01 (p.3)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Cymru, Aberystwyth	ELL 03-01 (p.4)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	ELL 03-01 (p.5)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Cymru, Abertawe	ELL 03-01 (p.6)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad y Brifysgol Agored yng Nghymru	ELL 03-01 (p.7)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd	ELL 03-01 (p.8)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Prifysgol Cymru	ELL 03-01 (p.9)	8 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru	ELL 04-01 (p.8)	14 Chwefror 2001
Papur Cyflwyniad Fforwm	ELL 04-01 (p.9)	14 Chwefror 2001
Dadansoddiad yr Ymgynghorydd Arbenigol ar y sefyllfa hyd yn hyn	ELL 05-01 (mins) Atodiad A	7 Mawrth 2001
Thema dysgu ac Addysgu - Papur Cyflwyniad Yr Athro Allan Cochrane	ELL 05-01 (mins) Atodiad B	7 Mawrth 2001

Teitl	Cyfeirnod	Dyddiad
Papur Cyflwyniad Addysg Uwch Cymru - Dysgu ac Addysgu	ELL 05-01 (p.1)	7 Mawrth 2001
Thema Cyllido - Papur Cyflwyniad Syr William Taylor	ELL 06-01 (p.2)	21 Mawrth 2001
Thema Cyllido - Papur Cyflwyniad Addysg Uwch Cymru	ELL 06-01 (p.3)	21 Mawrth 2001
Thema Maint a Siâp - Papur Cyflwyniad Yr Athro Maxwell Irvine	ELL 07-01 (p.1)	4 Ebrill 2001
Thema Maint a Siâp - Papur Cyflwyniad Addysg Uwch Cymru	ELL 07-01 (p.2)	4 Ebrill 2001
Thema Datblygu Economaidd a Diwylliannol Papur Cyflwyniad WDA	ELL 07-01 (p.3)	4 Ebrill 2001
Thema Datblygu Economaidd a Diwylliannol Papur Cyflwyniad Addysg Uwch Cymru	ELL 07-01 (p.3)	4 Ebrill 2001
Thema Llywodraethu - Papur Cyflwyniad Yr Athro Mike Shattock	ELL 08-01 (p.2)	9 Mai 2001
Thema Llywodraethu - Papur Cyflwyniad Addysg Uwch Cymru	ELL 08-01 (p.3)	9 Mai 2001
Thema Dysgu Gydol Oes ac Ehangu Mynediad - Papur Cyflwyniad Yr Arglwydd Dearing	ELL 09-01 (p.1)	17 Mai 2001
Thema Ansawdd - Papur Cyflwyniad John Randall	ELL 09-01 (p.2)	17 Mai 2001
Thema Ansawdd - Papur Cyflwyniad Addysg Uwch Cymru	ELL 09-01 (p.3)	17 Mai 2001
Thema Addysgu Cyfrwng Cymraeg Papur Cyflwyniad Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg Prifysgol Cymru	ELL 09-01 (p.4)	17 Mai 2001
Thema Addysgu Cyfrwng Cymraeg - Papur Cyflwyniad Dafydd Glyn Jones	ELL 09-01(p.5)	17 Mai 2001
Undeb Llafur - Papur Cyflwyniad Cymdeithas Athrawon Prifysgol	ELL 10-01 (p.3)	23 Mai 2001
Undeb Llafur - Papur Cyflwyniad Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch Cymru	ELL 10-01 (p.4)	23 Mai 2001
Undeb Llafur - Papur Cyflwyniad UCAC	ELL 10-01 (p.5)	23 Mai 2001
Undeb Llafur - Papur Cyflwyniad UNSAIN Cymru	ELL 10-01 (p.6)	23 Mai 2001
Papur Cyflwyniad Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion	ELL 11-01(p.3)	13 Mehefin 2001
Papur Cyflwyniad Comisiwn Hawliau Anabledd	ELL 11-01(p.4)	13 Mehefin 2001
Papur i'w Nodi - Cysyniad Newydd o Brifysgol - Yr Athro Mike Scott	ELL 11-01(p.7)	13 Mehefin 2001
Papur i'w Nodi - llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd	ELL 11-01(p.8)	13 Mehefin 2001
Adroddiad y Grŵp Ymchwilio i Gyni Myfyrwyr	ELL 13-01(mins) Atodiad A	11 Gorffennaf 2001

Atodiad 5

Cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch

Cefndir

Yn ystod ei adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru, derbyniodd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar oddi wrth yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebion hyn at gydweithio â sefydliadau eraill. Mae'r pwyllgor yn croesawu parodrwydd sefydliadau addysg uwch i weithio gyda'i gilydd, gan ei weld yn fodd i wneud y defnydd gorau o adnoddau, i osgoi dyblygu diangen ac i hybu datblygiad staff. Roedd y pwyllgor yn dymuno ceisio mesur graddau'r cydweithio o'r fath a gofynnwyd i'r sefydliadau addysg uwch ddarparu gwybodaeth fanylach ar natur a maint eu gweithgareddau cydweithiol, hyd y cydweithio o'r fath ac amcangyfrif o'r incwm a gynhyrchwyd.

Ymatebion

Derbyniwyd ymatebion ym mis Mawrth oddi wrth yr holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac mae'r dadansoddiad yn yr atodiad hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth a roddwyd bryd hynny. Er bod y pwyllgor yn ymddiddori'n bennaf mewn dadansoddi graddau'r cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, bu'r wybodaeth a roddwyd ar gydweithio â chyrff y tu allan i Gymru yn ddefnyddiol hefyd gan fod y pwyllgor yn ymwybodol o'r graddau y bydd yn rhaid i addysg uwch weithredu mewn lleoliad byd-eang. Nid yw'r cydweithio â diwydiant neu â sefydliadau addysg uwch y tu allan i Gymru wedi'i gynnwys yn y ddogfen grynodeb hon ond gellir cael manylion yn y dogfennau a gyflwynwyd gan bob sefydliad addysg uwch. Roedd tystiolaeth fanwl o gydweithio mewn ymchwil rhwng unigolion neu unedau mewn sefydliadau yng Nghymru a sefydliadau addysg uwch yn y DU a thramor.

Meysydd cydweithio

Mae gweithgaredd cydweithiol mewn addysg uwch yn cwmpasu amryw o feysydd:

- Addysgu gan gynnwys trefniadau masnachfraint;
- Ymchwil;
- Trosglwyddo Technoleg;
- Adfywio economaidd a chymdeithasol;
- Addysg gymunedol; ac
- Aelodaeth o bwyllgorau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Efallai y byddai'n fwy priodol categoreiddio'r olaf fel rhwydweithio yn hytrach na chydweithio. Er hynny, mae'n weithgaredd gwerthfawr o ran lledaenu'r arfer gorau, darparu fforymau trafod, dylanwadu ar bolisi, a.y.b.

Mae rhai gweithgareddau cydweithiol yn cynnwys bron bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru ac oherwydd hynny nid ydynt wedi'u rhestru o dan yr ymatebion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cymru Prosper Wales – sy'n cynnwys 11 o'r 13 o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru – sy'n cynnig lleoliadau gwaith â chymhorthdal ar gyfer myfyrwyr a graddedigion i fusnesau bach a chanolig eu maint;

- Graddedigion Cymru – sy'n helpu graddedigion i ddod o hyd i waith yng Nghymru;
- HELP Cymru – sy'n darparu gwasanaethau ymgynghoriaeth i fusnesau bach a chanolig eu maint;
- Rhaglen Spinout Cymru – sy'n helpu academyddion i sefydlu mentrau masnachol newydd;
- Darparu gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth, e.e. Rhwydwaith Gwasanaethau Fideo Cymru, Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru, Fforwm Technoleg Gwybodaeth Addysg Uwch Cymru; a
- Chynlluniau Cwmnïau Addysgu – sy'n talu cymhorthdal i gyflogi graddedigion mewn cwmnïau i weithio ar brosiectau arloesol o bwys.

Ymatebion unigol

a) Prifysgol Caerdydd

Mentrau cydweithrediadol penodol - mae'r rhain yn cynnwys aelodaeth o Bedwarawd Caerdydd a Phartneriaeth Caerdydd. Mae'r cyntaf yn hyrwyddo'r ddarpariaeth addysg uwch yng Nghaerdydd a darparwyd tabl manwl o'i weithgareddau. Mae'r cydweithio yn yr ail yn ymwneud ag addysg feddygol a deintyddol gan gynnwys rhannu cyfleusterau/gwasanaethau ategol a gweithgareddau ymchwil. Tair thema ymchwil a ddilynir ar hyn o bryd o dan y fenter hon yw Cymdeithas, Iechyd a'r Amgylchedd, Niwrowyddoniaeth, Gwyddorau Biolegol a Bioleg Foleciwlaidd Feddygol. Roedd y dyfarniadau ymchwil newydd ar y cyd yn y meysydd hyn ar gyfer 1999/2000 yn dod i £859,000.

Ymchwil – Mae gan y Brifysgol 128 o brosiectau ymchwil cydweithiol cyfredol (38 ohonynt gyda phartneriaid yng Nghymru) sy'n cynnwys partneriaethau â Choleg Meddygol Prifysgol Cymru (y prif bartner sy'n ymwneud â 28 o brosiectau), Morgannwg, Bangor, Aberystwyth, Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys Gwyddor Cymdeithas (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru); Cyfrifiadureg (Morgannwg); Gwyddorau Biolegol (Bangor); Uned Ymchwil Economi Cymru (Morgannwg); Peirianneg (Aberystwyth); Gwyddorau Daear (Abertawe).

Trosglwyddo Technoleg - Mae'r gweithgareddau o dan y pennawd hwn yn cynnwys dros 50 o gontractau'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (£18 miliwn) sy'n cynnwys cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint; Rhwydwaith Arloesedd Prifysgol Caerdydd ("clwb busnes" misol); Llwyfan Gwyddorau Biolegol yr Arc Gorllewinol (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru); Cronfa Partneriaeth Caerdydd (o dan Gronfa Her Gwyddoniaeth y Prifysgolion) a nifer o Ganolfannau Arbenigedd o dan raglen y WDA (Aberystwyth, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Coleg y Drindod).

Cydweithio mewn addysgu – Gwneir hyn â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn bennaf (345+ o fyfyrwyr yn y flwyddyn gyfredol). Mae cydweithio mewn addysgu yn digwydd hefyd ag Aberystwyth ac Abertawe (Ffiseg); Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Abertawe (Hanes yr Henfyd); Aberystwyth (Cyfrifiaduro); Abertawe (Peirianneg – Cynllun Datblygu Graddedigion Integredig); Cerddoriaeth (Coleg Cerdd a Drama Cymru); Ehangu Mynediad i Ddeintyddiaeth, Meddygaeth a'r Gwyddorau (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru a sefydliadau addysg bellach).

Canolfannau Cydweithiol – Mae Canolfan Cymru America a Sefydliad Hanes Clasurol a Hanes yr Henfyd yn ganlyniad i gydweithio ag Abertawe a Llanbedr Pont Steffan yn y drefn honno.

Gwasanaethau – Darperir gwasanaethau cyfrifiaduro i Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru; cyfleusterau llyfrgell (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Coleg Cerdd a Drama Cymru); gwasanaethau myfyrwyr (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Coleg Cerdd a Drama Cymru); datblygu staff (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd); Graddio i Fenter (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd a Morgannwg) i drosglwyddo sgiliau i raddedigion yn eu blwyddyn olaf er mwyn cychwyn busnes.

Gweithgareddau cymunedol – Amryw o weithgareddau gan gynnwys LEARN – cyflwyno cyrsiau mewn 180 o ganolfannau. Mae'r cydweithio'n digwydd yn bennaf â'r gwahanol gyrff cymunedol a rhai partneriaid addysg bellach.

b) Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru

Mae prif weithgaredd cydweithiol Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru gyda Bangor ac mae'n negodi Cysylltiad Strategol â hi ar hyn o bryd. Rhai enghreifftiau o'r cydweithio hwn yw Canolfan Deunyddiau Datblygedig ac Adnewyddadwy o dan raglen Canolfannau Rhagoriaeth y WDA; prosiectau ymchwil mewn Cemeg (52 o fyfyrwyr, £95,000) ac addysgu (40 o fyfyrwyr); Prifysgol Gymunedol Gogledd Cymru (targedwyd 500 o ddysgwyr ychwanegol yn 2000/01) – mae Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru a Bangor yn arwain ar y cyd gyda'r 8 darparwr addysg bellach yng ngogledd Cymru; system awtomeiddio llyfrgell gydweithiol.

Gweithgareddau cydweithiol eraill yw Canolfan Doethuriaeth Peirianneg y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol i Gymru (gydag Abertawe a Chaerdydd) – 115 o fyfyrwyr doethurol ers 1994; Nyrsio cyn cofrestru i gynorthwyo prosiect Addasrwydd i Ymarfer (gyda Bangor a'r tair Ymddiriedolaeth NHS yng ngogledd Cymru – 984 o fyfyrwyr);

Ymchwil – cais ar y cyd ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe i ddatblygu diploma i raddedigion mewn datblygu proffesiynol.

c) Athrofa Addysg Uwch Abertawe

Mae'r cydweithio'n digwydd yn bennaf rhwng yr Athrofa a Phrifysgol Cymru, Abertawe. Mae hyn yn cynnwys prosiect Technium – cyfadeilad o unedau arloesedd a deori sydd i'w agor yn yr hydref 2001; Menter Eiddo Deallusol Abertawe; ceisiadau Amcan Un; Partneriaeth Dysgu Ar-lein Bae Abertawe sy'n darparu hyfforddiant TGCh i staff ysgolion.

d) Coleg y Drindod, Caerfyrddin

Datblygu Cwricwlwm – Mae prosiectau cydweithiol Coleg y Drindod yn cynnwys datblygu a hyrwyddo deunyddiau addysgu cyfrwng Cymraeg (Bangor, Aberystwyth, Morgannwg); prosiectau i ddatblygu deunyddiau a deunyddiau cyfeiriol ar gyfer gwaith mewn ysgolion (nid enwir y partneriaid); datblygu cwrs TAR uwchradd mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth (Morgannwg); paratoi modiwlau Busnes a Rheoli yn y Gymraeg (i Brifysgol Morgannwg). Mae Coleg y Drindod yn bartner hefyd yn rhwydwaith e-goleg Prifysgol Morgannwg. Mae Prifysgol Morgannwg yn dilysu tri o gyrsiau MA Coleg y Drindod, a BA ym mhynciau'r Dyniaethau a diploma israddedig (datblygu cymunedol/eglwysig).

Gwasanaethau – Bydd Coleg y Drindod yn aelod o gwmni newydd Networking Wales a sefydlir i ddatblygu darpariaeth technoleg gwybodaeth (gyda sefydliadau Prifysgol Cymru yn ne a chanolbarth Cymru a Phrifysgol Morgannwg). Mae'n cydweithio hefyd ar wasanaethau llyfrgell (Abertawe) a'r Adran Gyrfaoedd (Abertawe).

Addysgu – Mae Coleg y Drindod yn cydweithio mewn cyrsiau Iechyd a Nyrsio (mae Ysgol Iechyd Prifysgol Abertawe wedi'i lleoli ar gampws Coleg y Drindod); cyrsiau Daearyddiaeth, y Dyniaethau a'r Amgylchedd drwy gyfrwng y Gymraeg (Aberystwyth).

Ymchwil – Mae Coleg y Drindod yn cydweithio ar ymchwil sy'n ymwneud â datblygu'r cwricwlwm cyfrwng Cymraeg gydag Aberystwyth.

Cysylltiadau ag addysg bellach – Mae Coleg y Drindod yn cydweithio â Cholleg Sir Gâr ar Ysgol Celf a Pherfformio Gorllewin Cymru. Mae gan Goleg y Drindod femorandwm cydweithio ffurfiol gyda Cholleg Sir Gâr a gyda Cholleg Penfro.

Mae gan Goleg y Drindod nifer o gynigion ar y gweill hefyd gan gynnwys un ar gyfer Ysgol Dysgu Gydol Oes (Aberystwyth) ac astudiaeth dichonoldeb i gyfleoedd i gydweithio mewn addysg uwch gyda Phrifysgol Morgannwg, Coleg Sir Gâr a Cholleg Penfro.

e) Prifysgol Morgannwg

Cydweithio ag addysg bellach – Mae'r Brifysgol yn ymwneud â nifer o astudiaethau dichonoldeb ar gyfer datblygu addysg uwch gyda Cholleg Llandrillo, Coleg y Drindod, Coleg Sir Gâr, Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Merthyr Tudful a Cholleg Ystrad Mynach. Penododd gydlynydd Blaenau'r Cymoedd i hybu'r ddau gydweithrediad olaf hynny. Mae ganddi rwydwaith o 19 o bartneriaid masnachfraint (3,630 o fyfyrwyr yn y flwyddyn bresennol) a chysylltiadau strategol â'i Cholegau Cysylltiol a Chymunedol sy'n eu cynnwys mewn cylch cynllunio. Mae prosiect e-goleg Prifysgol Morgannwg i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd drwy ddefnyddio dysgu ar-lein yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Sir Gâr, Coleg Gwent, Coleg Llandrillo, Sir Benfro, Pontypridd, Coleg y Drindod, Addysg a Dysgu BBC Cymru a Menter Ifanc Cymru. Mae'r Brifysgol yn cydweithio mewn gweithgareddau datblygu staff fel cyflwyno Statws Athro Cydnabyddedig ar gyfer staff sy'n addysgu ar gyrsiau addysg uwch.

Addysgu – Mae Prifysgol Morgannwg yn cydweithio ar Ddyfarniadau Dylunio (Coleg Pontypridd); Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth Uwchradd (Coleg y Drindod); Drama'r Theatr a'r Cyfryngau (Coleg Cerdd a Drama Cymru) ynghyd â chyrsiau o dan fasnachfraint i 19 o bartneriaid.

Ymchwil –Mae'r Brifysgol wedi sefydlu Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru (Caerdydd, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd) ac yn cydweithio ar brosiectau sy'n ymwneud ag Iechyd/Meddygaeth (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru; Abertawe, Caerdydd).

Trosglwyddo Technoleg – Mae'r gweithgareddau'n cynnwys OpportunitE Wales (Bangor, Caerdydd), Rhaglen Spin Out Cymru, Rhwydwaith Best (gyda naw coleg addysg bellach).

Gweithgareddau cymunedol – Prifysgol Gymunedol y Cymoedd (Abertawe, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd, y Brifysgol Agored); Technium Merthyr Tudful (Coleg Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe).

Gwasanaethau – Mae'n cydweithio ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd mewn mentrau ar y cyd mewn cyllid myfyrwyr, cyflogadwyedd, Profiad Dysgu Rhithiol.

f) Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Ymchwil – Mae'r cydweithio gan Aberystwyth yn cynnwys prosiectau mewn Astudiaethau Gwledig (Bangor); Twristiaeth (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Caerdydd, Athrofa Addysg

Uwch Abertawe, Bangor, Morgannwg, Coleg y Drindod); Saesneg (Bangor); Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (Bangor, Abertawe, Llanbedr Pont Steffan, Caerdydd); Gwleidyddiaeth (Caerdydd, Bangor, Abertawe); Mathemateg (Abertawe).

Addysgu – Astudiaethau Gwledig (Bangor) 5-20 o fyfyrwyr y flwyddyn; Addysg (Bangor, Abertawe, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd, Coleg y Drindod, y Brifysgol Agored) 90 o fyfyrwyr ynghyd â chynhyrchu deunydd dysgu o bell; Saesneg (Coleg Harlech) 8/10 myfyriwr y flwyddyn; Daearyddiaeth – addysgu llanw (Abertawe); colocwiwm graddedigion Daearyddiaeth (yr holl adrannau daearyddiaeth yng Nghymru);

Rhai o'r mentrau cydweithiol eraill yw creu'r Sefydliad Ffiseg yng Nghymru sy'n cynnwys Bangor, Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Caerdydd, Abertawe ac Aberystwyth.

g) Prifysgol Cymru, Bangor

Ymchwil – Mae'r prosiectau'n cynnwys Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd, Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Llanbedr Pont Steffan, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Morgannwg, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd – a ddaeth i £800,000 yn 2000/2001.

Addysgu – Mae'r gweithgareddau cydweithiol yn cynnwys ysgrifennu yng Nghymru yn y Saesneg (pob sefydliad addysg uwch); Astudiaethau Modern Cynnar (Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd, Llanbedr Pont Steffan, Coleg y Drindod); Hanes a Hanes Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg (Aberystwyth); Gwaith Cymdeithasol (addysg uwch ac addysg bellach yng ngogledd Cymru) – 50 myfyriwr y flwyddyn; Gwyddorau Eigion (Caerdydd) – 28 myfyriwr y flwyddyn; Cemeg (Caerdydd, Abertawe) 35-40 myfyriwr y flwyddyn; Tystysgrif mewn Cyfieithu – 12 myfyriwr y flwyddyn.

Polisi a Chynllunio - Hyfforddiant Athrawon (pob sefydliad Hyfforddiant Athrawon yng Nghymru); Addysg Nyrsys (Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Abertawe, Morgannwg) – dros £400,000 yn y flwyddyn bresennol.

h) Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru

Addysgu – – Mae'r mentrau addysgu cydweithiol yn cynnwys addysg Ddeintyddol a Meddygol (Caerdydd) – 345+ o fyfyrwyr ar hyn o bryd; Ffarmacoleg (Caerdydd) – 20 myfyriwr y flwyddyn; Ffiseg (Caerdydd); Biowyddoniaeth (Caerdydd) – 120 o fyfyrwyr; Peirianneg Orthopaedig (Caerdydd) – 55 myfyriwr y flwyddyn; Peirienneg Glinigol (Caerdydd) – 7 myfyriwr y flwyddyn; masnachfraint MSc Nyrsio (Athrofa Abertawe) – 14 myfyriwr; Therapi Galwedigaethol (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd) – 40-50 myfyriwr; Ceiropracteg (Morgannwg) – 70 myfyriwr; Ffisiotherapi a Radiograffeg (Caerdydd) – 120 myfyriwr; Cynlluniau rhan amser i roi mynediad i Ddeintyddiaeth, Meddygaeth (Caerdydd a cholegau addysg bellach); MSc mewn Meddygaeth Chwaraeon (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd) – 15 myfyriwr y flwyddyn; Iechyd Cyhoeddus (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd); Gwyddorau Meddygol a'r Dyniaethau (Abertawe).

Ymchwil – Ymhlith y prosiectau y mae Bioleg Foleciwlaidd Feddygol, Niwrowyddoniaeth, Iechyd a'r Amgylchedd (Caerdydd, Bangor); Geneteg a Chymdeithas (Llanbedr Pont Steffan); Geneteg (Abertawe); Iechyd Cyhoeddus (Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd); Peirianneg (Morgannwg).

Mentrau eraill – Mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn aelod o Bedwarawd Caerdydd – gweler y cofnod am Brifysgol Caerdydd am y manylion.

i) Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd

Masnachfraint – Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd yw'r ail fwyaf o'r darparwyr masnachfreintiau yng Nghymru. Mae wedi darparu rhestr gynhwysfawr o'i fasnachfreintiau cyfredol i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Technoleg a Chelf Sir Gaerfyrddin, Coleg Ceredigion, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Gwent, Coleg Llandrillo, Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Menai, Coleg Powys, Coleg Penfro, Coleg Abertawe a Cholegau Ystrad Mynach.

Ymchwil – Mae'r prosiectau'n cynnwys Caerdydd, Abertawe, Aberyswyth, Bangor (Archaeoleg a Hanes); Bangor (Rhagbrawf ar ddisg fideo digidol ar theori ymarfer ffilm); Caerdydd (pobl ifanc a thechnolegau newydd); Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (Celf, y Cyfryngau a Dylunio)

Addysgu – Ysgol Ffilm Ryngwladol Cymru – yn cael ei datblygu. Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd sy'n cydweithio ar hyn yn bennaf ond mae rhywfaint o gyfranogiad gan bron bob un o'r sefydliadau addysg uwch eraill; Cynllun Hyfforddi Cynhyrchu Ffilmiau Byr (Coleg Cerdd a Drama Cymru); prosiect ESCALATE gyda Bangor, Aberystwyth, Coleg y Drindod ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd; gydag Abertawe ar raglen datblygu staff awdurdod lleol; prosiect y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus Oedolion ar faterion sy'n ymwneud â'r rhaniad addysg bellach/addysg uwch (Caerdydd, Abertawe, Morgannwg).

Trosglwyddo Technoleg – – Mae Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd yn cydweithio ar Diversity (Menter Cymdeithas Gwybodaeth Cymru) gyda Phrifysgol Caerdydd (£133,000); gyda Morgannwg ar y rhaglen Canolfannau Rhagoriaeth.

Cydweithio cymunedol – Prifysgol Gymunedol y Cymoedd (5,000 o fyfyrwyr) – gyda Phrifysgol Morgannwg, y Brifysgol Agored ac Abertawe; Hyfforddiant Gwaith Ieuenctid Cydlynol (Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd) – 1,000 o fyfyrwyr; Canolfan Adfywio (Caerdydd, cyrff cymunedol a sefydliadau addysg uwch eraill); gwaith datblygu cymunedol (Prifysgol Morgannwg).

j) Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd

Addysgu – Mae'r mentrau addysgu cydweithiol yn cynnwys Technoleg Ddeintyddol (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru) – 22 o fyfyrwyr ar hyn o bryd; gweithdai mewn gwaith cymdeithasol/therapi galwedigaethol (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru) – 100 o fyfyrwyr; Gwyddoniaeth Fiomeddygol (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru) – 3 myfyriwr llawn amser, 12 rhan amser; Cyfathrebu (Caerdydd, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru) – 31 o fyfyrwyr; Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon cyfrwng Cymraeg (Bangor, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd, Aberystwyth); MSc Iechyd Cyhoeddus (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru); Canolfan Rhagoriaeth ar gyfer Criced (Morgannwg).

Ymchwil – cydweithio ar amryw o brosiectau ymchwil mewn Biocemeg (Caerdydd); prosiectau'n gysylltiedig â Meddygaeth (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru); Seicoleg Chwaraeon (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru); Iechyd a Gwyddorau Cymdeithas (Caerdydd); arsylwi ar addysgu gan gymheiriaid (Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru).

Gwasanaethau/cyfleusterau ategol – mentrau cydweithiol gyda Chaerdydd, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Coleg Cerdd a Drama Cymru (ehangu mynediad, llyfrgell, iechyd a diogelwch, gwasanaethau myfyrwyr); caplaniaeth (Coleg Cerdd a Drama Cymru); gwasanaethau myfyrwyr (Caerdydd, Morgannwg); cyflogadwyedd graddedigion (Morgannwg); e-ddysgu (Morgannwg).

Datblygu cwricwlwm - cyrsiau TAR ar-lein (Caerdydd, Bangor, Aberystwyth ac Abertawe); prosiect safonau Statws Athro Cymwysedig (Caerdydd, Casnewydd, Abertawe).

k) Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan

Yr unig gydweithio ffurfiol yw'r MA mewn Hanes yr Henfyd drwy Sefydliad Astudiaethau Clasurol a Hanes yr Henfyd Prifysgol Cymru (Caerdydd, Abertawe) – 12 myfyriwr y flwyddyn.

l) Prifysgol Cymru, Abertawe

Ymchwil – Mae Abertawe wedi darparu manylion am wahanol brosiectau ymchwil/trosglwyddo technoleg y mae'n cydweithio arnynt gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gan gynnwys gwybodaeth am niferoedd myfyrwyr ac incwm grantiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Morgannwg, Aberystwyth, Athrofa Addysg Uwch Abertawe, Bangor, Caerdydd a'r Brifysgol Agored (Prosiectau mewn Addysg Barhaus Oedolion).
- Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (Gwyddorau Biolegol).
- Un o bartneriaid cychwynnol Sefydliad Prifysgol Cymru ar Fecaneg Hylifau An-Newtonaidd (gydag Aberystwyth, Bangor ac Abertawe).
- Aberystwyth (Economeg)
- Mae Abertawe wedi sefydlu'r Ganolfan Doethuriaeth Peirianneg mewn Technoleg Dur (gyda Chaerdydd ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru).
- Morgannwg (Rheolaeth Busnes Ewropeaidd)
- Caerdydd, Aberystwyth (Daearyddiaeth)
- Llanbedr Pont Steffan (Archaeoleg)
- Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (Gwyddor Iechyd)
- Morgannwg, Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd (Hanes)
- Aberystwyth (Peirianneg Fecanyddol
- Caerdydd, Aberystwyth, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd, Morgannwg (Polisi Cyhoeddus)
- Caerdydd (Gwleidyddiaeth)
- Caerdydd, Bangor, Morgannwg, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd, Bangor (Gwyddorau Cymdeithas)

Addysgu – BA mewn Technoleg Cerddoriaeth (Athrofa Addysg Uwch Abertawe) i ddechrau ym Medi 2001; Cemeg (Bangor) – 30 o fyfyrwyr; MA yn Hanes yr Henfyd (Caerdydd, Llanbedr Pont Steffan); Cyfrifiaduro (Athrofa Addysg Uwch Abertawe) – 16 o fyfyrwyr; prosiect Goruchwyliaeth Glinigol (Morgannwg) i ddechrau ym Medi 2001; Polisi Cyhoeddus a Rheoli (Caerdydd, Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd); Ffiseg (Aberystwyth, Caerdydd) – 95 o fyfyrwyr; Gwaith Cymdeithasol (Caerdydd, Bangor, Morgannwg) – 380 o fyfyrwyr (280 yn raddedigion), Gofal Meddygol ac Iechyd (Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru); Astudiaethau Datblygu (Bangor). Mae Abertawe, Llanbedr Pont Steffan a Chaerdydd yn rhedeg Sefydliad Astudiaethau Clasurol a Hanes yr Henfyd Prifysgol Cymru ar y cyd. Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch MA addysgedig mewn Hanes Modern Cynnar (sefydliadau Prifysgol Cymru).

Gwasanaethau – mae'n datblygu Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth Strategol (Coleg y Drindod, Llanbedr Pont Steffan) – system cofnodion myfyrwyr.

Trosglwyddo Gwybodaeth mae'r cydweithio'n cynnwys Athrofa Addysg Uwch Abertawe, Coleg y Drindod, Caerdydd.

m) Coleg Cerdd a Drama Cymru

Addysgu – Drama'r Theatr a'r Cyfryngau (Morgannwg) – 97 o fyfyrwyr – daw i ben yn 2003; mae'n cynnig Diploma Genedlaethol Uwch yn y Celfyddydau Perfformio o dan fasnachfraint i Goleg Castell Nedd/Port Talbot; Cerddoriaeth Safon Uwch i golegau lleol.

Gwasanaethau ategol – Mae Coleg Cerdd a Drama Cymru yn rhannu arfer da mewn Iechyd a Diogelwch, marchnata, gwasanaethau ategol gydag aelodau eraill Pedwarawd Caerdydd; mewn iechyd a diogelwch, gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth gyda Phrifysgol Caerdydd.

Casgliad

Mae'r sefydliadau wedi darparu ymatebion manwl. Er bod y rhain yn dangos bod llawer o enghreifftiau o gydweithio, nid yw graddau'r gweithgarwch cydweithiol yn arbennig o helaeth, yn enwedig o ran cydweithio mewn addysgu. Er bod eithriadau nodedig yn achos darpariaeth Partneriaeth Caerdydd o addysg feddygol a deintyddol (345 o fyfyrwyr), rhaglen nyrsio Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru/Bangor (984 o fyfyrwyr) a Phrifysgol Gymunedol Gogledd Cymru (targed o 500 o fyfyrwyr ychwanegol), mae'r rhan fwyaf o'r cydweithio mewn addysgu yn cynnwys niferoedd cymharol fach o fyfyrwyr – mae tua 30 yn nodweddiadol.

Mae'n naturiol bod cydweithio mewn ymchwil yn cynnwys niferoedd bach o fyfyrwyr ond gwrthbwysir hynny gan y swm sylweddol o incwm a greir gan y gweithgarwch hwn. Mae Caerdydd, er enghraifft, yn crybwyll 38 o brosiectau ymchwil cyfredol gyda phartneriaid yng Nghymru sy'n dod i gyfanswm o oddeutu £4.1 miliwn.

Un maes pwysig ar gyfer cydweithio yw trosglwyddo technoleg/cymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint. Mae hyn yn ganlyniad i gydweithredu rhwng sawl sefydliad addysg uwch a hefyd cydweithio a hybir gan y WDA.

Mae rhai sefydliadau wedi darparu tystiolaeth o'u *bwriad* i gydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill ond, gan fod hyn yn y cyfnod cynllunio, ni ellir ei fesur, wrth reswm. Fodd bynnag, mae'n arwydd o barodrwydd cynyddol i gymryd rhan mewn gweithgarwch cydweithiol a gellir cael manylion pellach yn y cyflwyniadau unigol.

Gan adael o'r neilltu y gweithgareddau embryonig hyn a'r rhai y gellir eu galw'n rhwydweithio, mae tystiolaeth o ewyllys i gydweithredu ac o sylfaen dda ar gyfer datblygu gweithgaredd cydweithiol oddi mewn i sector addysg uwch Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o anogaeth ar gyfer hynny (er enghraifft, drwy newidiadau i fecanweithiau cyllido) a mecanweithiau mwy ffurfiol i hybu cydweithio ystyrlon. Mae angen i addysg uwch yng Nghymru feddwl yn strategol ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio. Rhaid inni sicrhau partneriaethau mwy parhaol a sylweddol sy'n gallu hyrwyddo cryfderau'r partneriaid unigol a galluogi addysg uwch Cymru i gymryd cyfran fwy sylweddol o'r farchnad fyd-eang.

O ran yr ymateb gan addysg uwch i agenda'r Cynulliad, dylid nodi'r canlynol:

- Mae masnachfreinio sy'n cynnwys addysg uwch ac addysg bellach yn llwyddiannus iawn wrth gyrraedd yr amcanion ehangu mynediad a dylid cryfhau'r cysylltiadau rhwng addysg uwch ac addysg bellach. Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg sy'n fwyaf blaenllaw yn y gweithgareddau hyn.
- Mae addysg uwch wedi cyflawni llawer drwy ei gweithgareddau creu cyfoeth gyda chymorth y WDA. Fodd bynnag, pwysleisiodd Syr David Rowe-Beddoe yr angen i addysg uwch ymgymryd â mwy o gydweithio a gresynodd at natur ddigyswllt a chystadleuol llawer o weithgaredd y drydedd ffrwd.
- Mae cydweithio mewn ymchwil yn seiliedig yn bennaf ar bartneriaethau o unigolion o'r un bryd. Rhaid i addysg uwch weithredu'n fwy strategol fel y gall ddadansoddi ym mhle y dylid canolbwyntio adnoddau er mwyn meithrin enw da i Gymru ledled y byd. Byddai hyn yn cynnwys datblygu meysydd newydd yn ogystal â meithrin y cryfderau presennol.

Atodiad 6

Astudiaethau Achos o Systemau Addysg Uwch Eraill

Rhagymadrodd

"Cytunir yn gyffredinol fod Addysg Uwch Cymru yn rhan o farchnad fyd-eang anferth sy'n newid yn gyflym"

Sylw gan un a atebodd holiadur Adolygiad Addysg Uwch Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ionawr 2001

Pan ymgymerodd 'Pwyllgor Dearing' â'r Ymchwiliad i Addysg Uwch yn 1997, teimlai ei bod yn bwysig bod yn wybodus ynghylch arferion a datblygiadau cyfredol mewn addysg uwch ar draws y byd. Gwnaeth hynny drwy ymchwilio i:

- y gwledydd hynny a oedd yn gystadleuwyr rhyngwladol pwysig i'r DU (e.e. Japan, UDA, sawl gwlad yn yr UE;
- y gwledydd hynny a oedd yn debygol o ddod yn gystadleuwyr pwysig dros yr 20 mlynedd nesaf (e.e. 'economïau teigr' Asia); a
- y gwledydd hynny a wnaethai ddiwygiadau diddorol yn eu systemau addysg uwch yn y blynyddoedd diwethaf hyn a allai fod yn berthnasol i ddatblygiadau yn y DU (e.e. Awstralia, Seland Newydd, yr Iseldiroedd).

Mae'r gwaith hwn[1] yn amserol o hyd ac felly nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r gwledydd hynny.

Amcan yr adroddiad hwn yw darparu astudiaethau achos o systemau addysg uwch llai adnabyddus ond perthnasol mewn perthynas â'r adolygiad o addysg uwch yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Wisconsin, UDA
- Gweriniaeth Iwerddon
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Gwlad y Basgiaid, Sbaen
- Norwy
- Canada

Daethpwyd o hyd i'r wybodaeth ganlynol drwy gyfrwng ymchwil desg, yn bennaf drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd. Er nad ydynt yn gynhwysfawr, mae'r astudiaethau achos yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar y gwahanol systemau.

1 Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol i Addysg Uwch (1997) Higher Education in the Learning Society – Appendix 5: Higher Education in Other Countries, Llyfrfa Ei Mawrhydi

Mae'r pwyntiau canlynol yn werth eu nodi:

- System Wisconsin yw un o'r systemau cyfunedig mwyaf yn UDA ac mae'n darparu rhaglenni sy'n amrywio o ddoethuriaethau i waith allanol ag oedolion drwy strwythur hierarchaidd o gyrff 'ymreolus'
- Mae system Iwerddon wedi cyflwyno dimensiwn cydweithiol i ymchwil sydd wedi esgor ar gyfleoedd sylweddol ar gyfer màs critigol cadarnach a defnydd mwy cost-effeithiol o adnoddau ymchwil yn y system yn ei chyfanrwydd;
- Mae Prifysgol Ulster yn enghraifft dda o sefydliad amlgampws modern;
- Yn yr Alban, cyflwynwyd trydedd ffrwd gyllido barhaol – Grant Trosglwyddo Gwybodaeth – i hyrwyddo a phroffesiynoli gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth sefydliadau addysg uwch;
- Mae Prifysgolion Rhanbarth y Basgiaid a Navarra yn enghreifftiau da o'r modd y gellir darparu ar gyfer dwyieithrwydd oddi mewn i addysg uwch.
- Mae sefydlu "Network Norway" wedi gwella ansawdd cyffredinol addysg uwch drwy gryfhau disgyblaethau unigol drwy well defnydd o adnoddau, a thrwy sefydlu rhwydwaith o ganolfannau cymhwysedd cenedlaethol. Yn ogystal â hynny, mae wedi hwyluso cydweithredu agosach a hefyd gwell rhaniad llafur rhwng y sefydliadau.
- Yng Nghanada, cydnabyddir yn gyffredinol fod ymchwil yn gymar angenrheidiol i addysgu mewn prifysgol. Ymchwil ysgolheigaidd - o ddarganfyddiadau yn y labordy, hyd at gynnig mewnwelediadau newydd i ymddygiad dynol, y celfyddydau, hanes a'r byd o'n cwmpas - yw'r ysgogydd i ddysgu ac addysgu.

Wisconsin, UDA

System Prifysgol Wisconsin yw un o'r systemau cyfunedig mwyaf yn UDA, a chanddi tua 155,000 o fyfyrwyr cofrestredig. Mae'n cynnwys dwy brifysgol ddoethurol, 11 o brifysgolion cyfun, 13 o brifysgolion "dwy flynedd" a UW-Extension ledled y dalaith.



Hanes a Threfniadaeth System Prifysgol Wisconsin

Cyfuno Dwy System Addysg Uwch

Crewyd System Prifysgol Wisconsin ar 11 Hydref 1971, drwy Bennod 100, Deddfau 1971, a gyfunodd ddwy system prifysgol gyhoeddus y dalaith - Prifysgol Wisconsin a Phrifysgolion Talaith Wisconsin - o dan un bwrdd llywodraethwyr.

Cyn Brifysgol Wisconsin

Crewyd y Brifysgol Wisconsin a ragflaenodd y cyfuno gan gyfansoddiad y dalaith a chyfraith y dalaith yn 1848. Ar adeg y cyfuno yn 1971, roedd yn cynnwys y brifysgol grant tir wreiddiol ym Madison (1849); Prifysgol Wisconsin - Milwaukee (a gyfunwyd yn 1956); UW-Green Bay (1968) a UW-Parkside (1968) ynghyd â 10 canolfan glasfyfyrwyr-myfyrwyr ail flwyddyn (sydd bellach yn golegau) a'r Extension ledled y dalaith. Cyfanswm y myfyrwyr cofrestredig yn 1971 oedd 69,554. Fe'u llywodraethid gan Lywodraethwyr Prifysgol Wisconsin, bwrdd ac iddo 10 aelod, naw ohonynt wedi'u penodi gan lywodraethwr y dalaith a'u cadarnhau gan y senedd ar gyfer tymhorau o naw mlynedd, a'r degfed yn oruchwyliwr addysg gyhoeddus y dalaith a wasanaethai yn rhinwedd ei swydd ar fyrddau Prifysgol Wisconsin a Phrifysgolion Talaith Wisconsin.

Cyn Brifysgolion Talaith Wisconsin

Roedd system Prifysgolion Talaith Wisconsin â'i dechreuadau mewn deddf daleithiol yn 1857 a greodd Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgolion Normal. Agorwyd y cyntaf o naw sefydliad o'r fath yn Platteville yn 1866 a'r olaf yn Eau Claire yn 1916. Yn 1927, cafodd yr ysgolion normal hawl i roi graddau bagloriaeth mewn addysg ac fe'u hailenwyd yn Golegau Athrawon Taleithiol. Ar ôl ychwanegu rhaglenni celfyddydau breiniol yn 1951, daethant yn Golegau Talaith Wisconsin ac yn 1964 fe'u dynodwyd yn Brifysgolion Talaith Wisconsin. Ar adeg y cyfuno yn 1971, roedd 14 aelod ar y bwrdd, yn cynnwys goruchwyliwr addysg gyhoeddus y dalaith a 13 o ddinasyddion a benodwyd gan lywodraethwr y dalaith a'u cadarnhau gan y senedd ar gyfer tymhorau o bum mlynedd. Roedd system Prifysgolion Talaith Wisconsin, a lywodraethid bryd hynny gan y bwrdd, yn cynnwys y naw prifysgol a phedwar campws cangen i lasfyfyrwyr-myfyrwyr ail flwyddyn (colegau erbyn hyn) ac roedd ganddi gyfanswm o 64,148 o fyfyrwyr cofrestredig.

Bwrdd Llywodraethwyr System Prifysgol Wisconsin

Mae Bwrdd Llywodraethwyr System Prifysgol Wisconsin yn cynnwys 17 o aelodau, 14 ar dymhorau cyfnodol o saith mlynedd ac un aelod sy'n fyfyriwr â thymor dwy flynedd. Penodir pob un gan lywodraethwr y dalaith yn amodol ar eu cadarnhau gan y senedd. Mae dau ohonynt yn aelodau yn rhinwedd eu swydd: goruchwyliwr addysg gyhoeddus y dalaith a llywydd Bwrdd System Colegau Technegol Wisconsin neu un a enwebir ganddo.

Cenhadaeth

Mae pob sefydliad yn System Prifysgol Wisconsin yn cyfranogi yng nghenhadaeth y system. Cenhadaeth y system hon yw datblygu adnoddau dynol, darganfod a thaenu gwybodaeth, ymestyn gwybodaeth a'r defnydd ohoni y tu hwnt i derfynau'r campysau, a gwasanaethu ac ysgogi cymdeithas drwy ddatblygu hydeimledd deallusol, diwylliannol a dyngarol cryfach yn ei myfyrwyr; arbenigedd gwyddonol, proffesiynol a thechnolegol; ac ymdeimlad o bwrpas.

Rhan annatod o'r genhadaeth hon yw'r dulliau dysgu, ymchwil, addysg estynedig a gwasanaeth cyhoeddus sydd â'r bwriad o addysgu pobl a gwella'r cyflwr dynol. Sylfaen pob pwrpas yn y system yw'r ymchwil am y gwirionedd.

Gweinyddu

Ymddiriedir llywydd a changellorion system Prifysgol Wisconsin â'r gwaith o weithredu polisïau'r Bwrdd Llywodraethwyr ac o weinyddu'r sefydliadau. Mae gweinyddiaeth y system yn atebol i lywydd y system ac mae'n cynorthwyo'r Bwrdd Llywodraethwyr wrth sefydlu polisïau, adolygu gweinyddiad polisïau o'r fath a chynllunio datblygiad rhaglennol, cyllidol a ffisegol y system.

Fel penaethiaid gweithredol eu priod gyfadrannau a sefydliadau, mae'r cangellorion yn gyfrifol am weinyddu eu hunedau, gan gynnwys cynllunio'r cwricwlwm; gofynion graddau; safonau academaidd; systemau graddio; penodi, gwerthuso, dyrchafu ac argymhellion ynghylch dal swyddi darlithwyr; a gwasanaethau ategol a rheoli'r gyllideb.

Rôl y Darlithwyr

Mae'r ddeddf cyfuno yn rhagnodi'n benodol fod darlithwyr pob sefydliad, *"yn amodol ar gyfrifoldebau a phwerau'r bwrdd, y llywydd a changhellor y cyfryw sefydliad, i'w hymddiried â chyfrifoldeb dros lywodraethu uniongyrchol y cyfryw sefydliad a byddant yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu polisi sefydliadol. Fel y cyfryw, gan y darlithwyr y bydd y prif gyfrifoldeb dros weithgareddau academaidd ac addysgol a materion personél y darlithwyr. Bydd gan ddarlithwyr pob sefydliad yr hawl i bennu strwythur trefniadol y corff darlithwyr ac i ddewis cynrychiolwyr i gyfranogi mewn llywodraethu sefydliadol."*

Prifysgolion Doethurol a Chyfun

Mae prifysgolion doethurol yn cynnig graddau baglor, meistr, doethur a rhai proffesiynol uwch ac yn cynnal rhaglenni ymchwil trefnedig. Mae dau sefydliad yn y categori hwn: UW-Madison (40,045 o fyfyrwyr israddedig a graddedig) a UW-Milwaukee (22,964 o fyfyrwyr israddedig a graddedig).

Mae prifysgolion cyfun yn cynnig rhaglenni gradd cyswllt, bagloriaeth a dethol (annoethurol); yn rhoi pwys ar ragoriaeth addysgu; yn darparu sylfaen o astudiaethau breiniol fel paratoad ar gyfer eu graddau; yn cynnig rhaglenni o ddarpariaethau cwricwlaidd cyn-broffesiynol; yn ymwneud ag addysg allanol a pharhaus ar gyfer dinasyddion ym mhob rhanbarth gwasanaeth; ac yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ysgolheigaidd sy'n rhan annatod o raglenni addysgu a rhagoriaeth addysgu ac yn ategol iddynt. Mae 11 o sefydliadau yn y categori hwn:

- UW-Superior = 2,741 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-River Falls = 5,711 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Stout = 7,517 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Eau Claire =10,402 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Stevens Point = 8,544 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Green Bay = 5,442 o fyfyrwyr israddedig a graddedig

- UW-Oshkosh = 10,783 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-La Crosse = 9,295 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Platteville = 5,340 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Whitewater = 10,653 o fyfyrwyr israddedig a graddedig
- UW-Parkside = 4,951 o fyfyrwyr israddedig a graddedig

Cenadaethau Dethol

Mae cenhadaeth ddethol pob sefydliad yn diffinio dibenion a phwyslais penodol pob campws. Mae'r datganiadau hyn yn wahanol o ran eu fformat a'u cynnwys ar gyfer pob sefydliad; diffinnir rhai yn nhermau'r poblogaethau cleientau penodol sydd i'w gwasanaethu, rhai yn ôl y deunydd pwnc penodol sydd i'w addysgu, ac eraill yn ôl y dull addysgol.

Mae cenhadaeth Green Bay o feithrin cynllun academaidd a nodweddir gan addysg freiniol, rhyngddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar broblemau yn enghraifft o'r cenadaethau a ddiffinnir yn ôl eu dull addysgol. Mae cenhadaeth ddethol Milwaukee yn adlewyrchu ei statws yn brifysgol ddoethurol drefol fawr a gynlluniwyd i gwrdd â gwahanol anghenion ardal fetropolitanaidd fwyaf Wisconsin.

Mae cenadaethau nifer o'r campysau cyfun yn seiliedig ar feysydd sy'n rhoi pwyslais ar feysydd academaidd penodol. Ymhlith y rhain y mae addysg ysgolion canol, peirianneg, rheoli technoleg, amaethyddiaeth a'r gyfraith droseddol yn Platteville; anhwylderau cyfathrebu, adnoddau naturiol, a'r celfyddydau gweledol a pherfformio yn Stevens Point; a gwyddoniaeth amaethyddol, amaeth-busnes ac addysg athrawon amaethyddol yn River Falls.

Gweriniaeth Iwerddon

Darperir addysg uwch yng Ngweriniaeth Iwerddon yn bennaf gan brifysgolion, athrofeydd technoleg a cholegau addysg. Mae nifer o sefydliadau eraill yn cynnig hyfforddiant arbenigol mewn meysydd fel celf, dylunio, meddygaeth, diwinyddiaeth, cerddoriaeth a'r gyfraith. Darperir y rhan fwyaf o addysg uwch mewn sefydliadau a gynhelir gan y wladwriaeth (e.e. mae prifysgolion ac athrofeydd technoleg yn derbyn mwy na 90 y cant o'u hincwm oddi wrth y wladwriaeth). Diddymwyd ffioedd dysgu i ddinasyddion yr UE sy'n dilyn cyrsiau israddedig llawn amser mewn sefydliadau addysg uwch a gyllidir gan y wladwriaeth yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 1996.

Ar y drydedd lefel, mae'r Llywodraeth wedi dilyn polisi o ddarparu mynediad haws i fwy o fyfyrwyr drwy strategaeth o symleiddio'r broses derbyn a darparu ar gyfer lleoedd ychwanegol i fyfyrwyr. Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth wedi derbyn cymorth ar gyfer mentrau datblygiad cyfalaf mawr oddi wrth y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ac wedi pwysleisio pwysigrwydd addysg uwch ym mhob cytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Dros yr 20 mlynedd diwethaf darparwyd lleoedd a chyrsiau ychwanegol ar y drydedd lefel drwy agor y prifysgolion newydd yn Limerick a Dulyn ac ehangu'r Athrofeydd Technoleg. Yn ystod yr un cyfnod bu twf sylweddol hefyd yn y sector prifysgolion sefydledig yn enwedig ym meysydd busnes a thechnoleg, ond hefyd yn y celfyddydau a gwyddorau cymdeithas.

Mae'r cynnydd sylweddol yn y cyfraddau cyfranogi mewn addysg ôl-orfodol wedi arwain at gynnydd pedwarplyg yn y cofrestriadau llawn amser mewn addysg uwch, a gododd o 21,000 yn 1965 i ymron 97,000 yn 1997 (mae 53,500 o'r rhain mewn prifysgol ar hyn o bryd). Roedd adroddiad y Pwyllgor Llywio ar Ddatblygiad Addysg Uwch yn y Dyfodol (1995) yn rhagweld cyfanswm cofrestriadau mewn addysg uwch o 120,000 erbyn 2005. Er mai ystyriaeth i dwf economaidd a datblygiad technolegol oedd y prif rymoedd y tu ôl i'r ehangu digyffelyb mewn addysg uwch yn y degawdau diwethaf, bu ystyriaethau cyfiawnder cymdeithasol yn bwysig iawn hefyd wrth gyfiawnhau'r ehangu hwn.

Sefydliadau Addysgol, Gweinyddu, Rheoli

Mae wyth brifysgol yng Ngweriniaeth Iwerddon: Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Dulyn; Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Corc; Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Maynooth; Prifysgol Dulyn (Coleg y Drindod), Prifysgol Dinas Dulyn, Prifysgol Limerick a'r Brifysgol Archesgobol. Mae ychydig dros 56 y cant o'r holl fyfyrwyr addysg uwch yn y prifysgolion. Y strwythur gweinyddu arferol yn y sefydliadau addysg uwch yw corff llywodraethu gyda llywydd neu gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am weinyddu o ddydd i ddydd.

Rhai o'r darparwyr addysg uwch eraill yw:

- *Athrofeydd Technoleg* sy'n ddatblygiad o bwys yn y ddarpariaeth o addysg dechnegol / technolegol uwch yn Iwerddon dros y 25 mlynedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyrsiau sy'n amrywio o raglenni prentisiaeth crefft ail lefel hyd at y Dystysgrif Genedlaethol ddwy flynedd, y Diploma Cenedlaethol tair blynedd a rhaglenni gradd pedair blynedd ym meysydd cymwysedig Peirianneg, Gwyddoniaeth (gan gynnwys Cyfrifiadureg), Astudiaethau Busnes a'r Dyniaethau. Yn ogystal â hynny, maent yn chwarae rôl o bwys ar lefel ranbarthol drwy ddarparu ar gyfer anghenion addysgol rheolaidd drwy gyfrwng rhaglenni dydd a gyda'r nos rhan amser.

- *Mae wyth Coleg Addysg* wedi'u lleoli ledled y wlad; tri ohonynt yn cynnig cyrsiau gradd sy'n arwain at gymhwyster i athrawon pynciau arbenigol ar lefel ysgol uwchradd:

- *Mae Coleg Cenedlaethol Iwerddon* yn sefydliad annibynnol sy'n arbenigo mewn cysylltiadau diwydiannol, rheoli, a meysydd cysylltiedig.

- *Mae'r Coleg Celf a Dylunio Cenedlaethol* yn cynnig ystod o raglenni israddedig, gradd gyntaf a graddedig. Fe'i cydnabyddir yn goleg Prifysgol Genedlaethol Iwerddon.

- Mae *Athrofa Milltown* yn ddarllenfa archesgobol â chyfadrannau diwinyddiaeth ac athroniaeth. Fe'i sefydlwyd gan grŵp o athrofeydd eglwysig yn 1968. Mae'r Athrofa'n rhoi graddau, diplomâu a thystysgrifau archesgobol mewn athroniaeth, diwinyddiaeth, ysbrydolrwydd ac astudiaethau bugeiliol, yn ogystal â diploma addysg oedolion mewn diwinyddiaeth.

- *Sefydlwyd Athrofa Technoleg Dulyn* yn ffurfiol o dan Ddeddf Athrofa Technoleg Dulyn 1992. Fe'i cyfansoddwyd o'r Coleg Technoleg, Bolton Street; y Coleg Technoleg, Kevin Street; y Coleg Masnach, Rathmines; y Coleg Marchnata a Dylunio, Mountjoy Square; y Coleg Arlwyo, Cathal Brugha Street; y Coleg Cerdd, Adelaide Road. Hyd ddiwedd 1992, roedd y sefydliadau hyn yn gweithredu o dan adain y Ddeddf Addysg Alwedigaethol

1930. Ers 1 Ionawr 1993, mae'r athrofa'n gweithredu fel endid cyfreithiol ar wahân, gyda'i gorff llywodraethu ei hun, wedi'i gyfansoddi'n unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Athrofa Technoleg Dulyn yn cynnig ystod eang o gyrsiau sy'n cynnwys dyfarniadau Tystysgrif, Diploma, Gradd a rhai Proffesiynol. Mae darparu cyrsiau rhan amser trydedd lefel gyda'r nos yn swyddogaeth dra phwysig gan yr athrofa.

Cydweithio mewn Ymchwil

Cyflwynwyd dimensiwn cydweithiol i ymchwil addysg uwch yng Ngweriniaeth Iwerddon fel rhan o Gylch 2 y Rhaglen Ymchwil mewn Sefydliadau Trydedd Lefel 1999-2001, menter a oedd â'r bwriad o wneud Iwerddon yn arweinydd rhyngwladol mewn ymchwil. Mae hyn wedi creu cydweithio newydd ac eithaf arloesol, ar sail cysylltiadau rhyngddisgyblaethol a rhyngsefydliadol, er enghraifft

- Coleg Prifysgol Dulyn a Choleg y Drindod, Dulyn – a sefydlodd *Ganolfan Meddygaeth Foleciwlaidd Dulyn*
- Coleg Prifysgol Dulyn ac Athrofa Technoleg Dulyn - *Hysbyseg Iechyd.*
- Ymunodd Coleg Prifysgol Corc ag wyth sefydliad arall i gynnal ac integreiddio rhaglen o ymchwil amgylcheddol, morol ac arfordirol drwy adeiladu canolfan rhagoriaeth – yr *Athrofa Ymchwil Amgylcheddol*.
- Mae Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway, yn derbyn nawdd i arwain rhaglen gydweithiol – yr *Athrofa Newid Amgylcheddol.*
- Mae athrofeydd Coleg Prifysgol Corc a Phrifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway yn rhan o fframwaith cydweithredu ehangach, *Cynghrair Prifysgolion Iwerydd*, sydd hefyd yn cynnwys Prifysgol Limerick.
- Ymunodd yr Athrofa Technoleg, Sligo â chwe sefydliad arall er mwyn gwneud gwaith ymchwil ym maes Triniaeth Gynaliadwy, Ailgylchu ac Ailddefnyddio Biosolidau.

Mae'r fenter wedi hybu 'safbwynt systemau' ar ymchwil yn y sector prifysgolion, sydd wedi esgor ar gyfleoedd sylweddol i gael màs critigol cadarnach a defnydd mwy cost-effeithiol o adnoddau ymchwil yn y system yn ei chyfanrwydd. Fe'i cynlluniwyd i helpu i wrthweithio anfanteision maint cymharol fach y sefydliadau unigol eu hunain mewn ymchwil.

Gogledd Iwerddon

Darperir addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon gan ddwy brifysgol – Prifysgol Ulster a Phrifysgol y Frenhines, Belfast, dau goleg addysg – Coleg Addysg y Santes Fair a Choleg Addysg Stranmillis ac, i wahanol raddau, gan yr 17 o sefydliadau addysg bellach sydd yn y rhanbarth. Mae'r rhaglenni yn y rhai olaf yn rhai galwedigaethol gan mwyaf, e.e. y Ddiploma Genedlaethol Uwch/y Dystysgrif Genedlaethol Uwchradd a NVQ4, ac maent yn cynnwys ystod eang o feysydd pwnc o Fusnes ac Astudiaethau Cysylltiedig, Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Beirianneg a Thechnoleg. Mae Gogledd Iwerddon hefyd yn ffurfio rhanbarth o'r Brifysgol Agored.

Mae tua 85 y cant o'r myfyrwyr a gofrestrir gan y ddwy brifysgol yn hanu o Ogledd Iwerddon. Fel gweddill y DU, mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu polisi o gyfnerthu niferoedd myfyrwyr drwy osod cyfansymiau safonol.

Cyllidir y prifysgolion yn uniongyrchol gan Adran Addysg Gogledd Iwerddon gan ddilyn argymhellion Cyngor Addysg Uwch Gogledd Iwerddon. Mae cyllido'n seiliedig yn bennaf ar fethodolegau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Mae'r colegau addysg yn derbyn eu hadnoddau ar sail cyllido yn y gorffennol yn hytrach na fformiwla ar sail myfyrwyr.

Cofrestrwyd 65,917 o fyfyrwyr â'u cartrefi yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer cyrsiau addysg uwch yn 1998/99. Mae'r mynegrif cyfranogiad oedran wedi codi ers dechrau'r degawd. Roedd yn 45.8 yn 1997/98 o'i gymharu â 24.6 yn 1989/90. Mae'r mynegrif cyfranogiad oedran yn dangos y gyfran o rai ifanc sy'n dechrau mewn addysg uwch fel cyfran o'r rhai 18 mlwydd oed yng Ngogledd Iwerddon.

Prifysgol y Frenhines, Belfast

Mae ymron i 17,000 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser ym Mhrifysgol y Frenhines, a thua thri chwarter ohonynt yn israddedig. Derbynnir tua 4,500 o israddedigion bob blwyddyn. Mae gan y brifysgol oddeutu 3,000 o staff, gan gynnwys dros 1.300 o staff academaidd.

Ar wahân i'r prif safle, mae gan y Brifysgol adeiladau addysgu ac ymchwil yn Newforge Lane, Ysbyty Brenhinol Victoria, Ysbyty Dinas Belfast, yr Orsaf Bioleg Forol yn Portaferry, ac yn Ninas Armagh. Mae gan Brifysgol y Frenhines gyfanswm o dros 230 o adeiladau yn eiddo iddi.

Yn eu hasesiad diwethaf, derbyniodd nifer o feysydd pwnc yn y brifysgol asesiad uchel am eu haddysgu, a chafodd pob un ohonynt sgôr o o leiaf 75 y cant o gyfanswm y marciau sydd ar gael yn yr asesiad cenedlaethol. Gwnaeth yn dda hefyd yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil cenedlaethol yn 1996: cafodd 50 y cant o'r staff a gymerodd ran Radd 4 o leiaf, sy'n dangos ansawdd ymchwil o ragoriaeth genedlaethol. Cafodd nifer o feysydd pwnc Radd 5, sy'n dynodi ymchwil o ansawdd rhyngwladol, a dyfarnwyd Gradd 5* i Beirianneg Fecanyddol, Awyrennol a Gweithgynhyrchu.

Mae datganiad cenhadaeth y Brifysgol yn pwysleisio ei bod *'wedi ymrwymo i'r safonau rhyngwladol uchaf o addysgu, ysgolheictod ac ymchwil ac i hyrwyddo gwybodaeth, mewn amgylchedd o gydraddoldeb, goddefgarwch a chyd-barch ar gyfer ei holl staff a myfyrwyr, gan gyfrannu drwy hynny at ddatblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Gogledd Iwerddon.'*

Prifysgol Ulster

Sefydlwyd y Brifysgol yn 1984 ar ôl cyfuno Prifysgol Newydd Ulster a Choleg Politechnig Ulster. Mae'n sefydliad unedol â phedwar campws, yn Colraine (y pencadlys), Jordanstown, Belfast a Choleg Magee yn Ninas y Deri. Datblygir pumed campws, sy'n un allanol, yng Ngorllewin Belfast, Pentref Addysgol Springvale, ar y cyd ag Athrofa Addysg Bellach ac Uwch Belfast.



Rhai o'i phrif nodweddion yw:

- *Ers 1984, mae nifer y myfyrwyr yn y Brifysgol wedi cynyddu o 87 y cant ac yn 1999/2000 roedd ganddi ymron i 21,000 o fyfyrwyr; yn ogystal â hynny cofrestrir dros 3,500 o fyfyrwyr ar fwy na 100 o'i chyrsiau cymeradwyedig mewn sefydliadau eraill, yn bennaf yn y sector addysg bellach yng Ngogledd Iwerddon.*

- *Gan y Brifysgol hon y mae'r ddarpariaeth fwyaf o gyrsiau yn Iwerddon, a'r rheini'n cynnwys y Celfyddydau, Busnes a Rheoli, Peirianneg, Technoleg Gwybodaeth, Gwyddorau Bywyd ac Iechyd a Gwyddorau Cymdeithas. Mae elfen alwedigaethol gryf yn y cyrsiau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys cyfnod mewn lleoliad diwydiannol neu broffesiynol.*

- *Yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil yn 1996, cyflwynodd y Brifysgol 495 o staff cyfartal ag amser llawn. O blith y rhain, roedd dros 70 y cant mewn grwpiau y barnwyd eu bod â 'rhagoriaeth genedlaethol' neu'n well.*

- *Caiff y Brifysgol effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol fawr ar yr economi a'r gymuned yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cyflogi dros 3,500 o staff, mae ganddi drosiant blynyddol o fwy na £120 miliwn ac mae wedi dechrau ar raglen ddatblygu o £200 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf .*

- *Hyrwyddir trosglwyddo technoleg a gwybodaeth ac elwa masnachol ar syniadau drwy amryw o fentrau gan gynnwys sefydlu unedau deori uwch-dechnoleg ar gampws, ei Pharciau Ymchwil Gwyddoniaeth, y Cynllun Cwmni Addysgu ac ymchwil ac ymgynghori cyfredol â busnes a diwydiant.*

- *Mae'r Brifysgol yn gyfrannwr o bwys at y gallu ymchwil a datblygu yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cefnogi busnes a diwydiant lleol. Mae ei sylfaen ymchwil wedi cryfhau ac ehangu'n gyflym o ran cyllido ac ansawdd.*

- *Mae'r Brifysgol, drwy ei Hathrofa Dysgu Gydol Oes, yn gwneud cyfraniad blaenllaw i ddysgu (ac e-ddysgu) gydol oes, mynediad i addysg a gwella sylfaen gwybodaeth y rhanbarth.*

- *Ffurfiwyd partneriaethau cryf a chynyddol â darparwyr addysgol eraill yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae gan y Brifysgol rwydwaith o bartneriaethau strategol ledled y byd.*

Yr Alban

Mae 14 o brifysgolion yn yr Alban, dwy ysgol gelf, un conservatoire, un coleg addysg uwch, un coleg prifysgol a choleg hyfforddi athrawon.

Cyllid ac incwm

- Mae gan sefydliadau addysg uwch yr Alban gyfanswm incwm blynyddol o dros £1.27 biliwn ac maent yn ennill mwy na £365 miliwn oddi wrth weddill y DU a gwledydd tramor i economi'r Alban bob blwyddyn.
- Mae addysg uwch yr Alban yn creu 9 y cant o allforion sector gwasanaeth yr Alban, yr ail fwyaf ar wahân i dwristiaeth a chyllid.
- Mae sector addysg uwch yr Alban yn cyflogi 36,000 yn uniongyrchol. Amcangyfrifir bod 38,000 o swyddi pellach wedi'u creu yn economi'r Alban oherwydd y sector addysg uwch.
- Cyflwynwyd trydedd ffrwd gyllido barhaol – Grant Trosglwyddo Gwybodaeth – i hyrwyddo a phroffesiynoli gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth sefydliadau addysg uwch.

Myfyrwyr

- Cofrestrir dros 170,000 o fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster neu gredyd yn sefydliadau addysg uwch yr Alban ac, o blith y rhain, mae dros 62,000 yn 25 oed neu fwy.
- Mae 47 y cant o Albanwyr yn mynd i addysg uwch erbyn hyn. Dim ond 35 y cant yw cyfartaledd y DU ac yn Lloegr nid yw ond 32 y cant.
- Mae cyfran uwch o bobl yr Alban yn ennill graddau na'r un wlad arall yn Ewrop.
- Mae'r Alban yn 'mewnforio' mwy o fyfyrwyr nag y mae'n eu hallforio.
- Mae dros 27,000 o fyfyrwyr o weddill y DU yn derbyn eu haddysg mewn sefydliadau addysg uwch yn yr Alban. Mae tua 20,000 o fyfyrwyr o dros 100 o wledydd yn derbyn eu haddysg mewn sefydliadau addysg uwch yn yr Alban.
- Mae 17 y cant o'r holl fyfyrwyr yn yr Alban yn dod o gymdogaethau lle mae cyfranogiad isel o'i gymharu â chyfartaledd yn y DU o 12 y cant. Mae perfformiad yr Alban o ran cynhwysiant cymdeithasol yn gwella'n gyflymach na gweddill y DU. Y llynedd gwelodd yr Alban gynnydd o 0.7 y cant yn y myfyrwyr ifanc o gymdogaethau cyfranogiad isel o'i gymharu â chynnydd o 0.2 y cant yng ngweddill y DU. Mae'r sector yn ymdrin â chynhwysiant cymdeithasol drwy ddysgu hyblyg fel cyrsiau rhan amser, cyrsiau modiwlaidd, darpariaeth dysgu agored a dysgu o bell; drwy gynnig llwybr drwy ddysgu;

a thrwy gynnal mentrau mynediad fel ysgolion haf, cydweithio ag ysgolion ac addysg bellach a rhaglenni allanol.

Dysgu ac Addysgu

- Yn yr holl Asesiadau Ansawdd Addysgu a gynhaliwyd yn yr Alban, barnwyd bod dros 80 y cant yn dra boddhaol neu'n "rhagorol". Nid oedd yr un ohonynt yn anfoddhaol. Mae'r Cyngor yn asesu bod tua 25 y cant o'r addysgu mewn addysg uwch yn yr Alban yn "rhagorol".

- Canran y myfyrwyr yn yr Alban sy'n cwblhau eu cwrs yn llwyddiannus yw 84 y cant, yn union yr un ganran â chyfartaledd y DU er gwaethaf y cyfranogiad uwch a'r cynhwysiant cymdeithasol ehangach.

- Yn rhyngwladol, dim ond Japan sy'n gwneud cystal â'r DU o ran bod mwy na 80 y cant o'i myfyrwyr yn llwyddo i ennill gradd gyntaf. Ar wahân i Japan, sydd â system addysg uwch fach iawn ar gyfer y goreuon, gan yr Alban y mae'r gyfradd isaf o beidio â chwblhau yn y byd. Mae gan wledydd fel Awstralia, UDA a Ffrainc ddwywaith y ganran o beidio â chwblhau ac mae gan yr Eidal ganran sy'n deirgwaith gymaint. Mae cyfran uwch o bobl yr Alban yn ennill graddau erbyn hyn na'r un wlad arall yn Ewrop.

Ymchwil

- Er nad oes ganddi ond 9 y cant o boblogaeth y DU, mae'r Alban yn ennill 12 y cant o holl adnoddau cynghorau cyllido'r DU ar gyfer ymchwil

- Mae gan yr Alban 13 y cant o'r holl adrannau academaidd yn y DU a gafodd radd o 4, 5 neu 5* yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil yn 1996.

- Gan yr Alban y mae'r gyfran uchaf o ddarpariaeth biotechnoleg yn Ewrop. Yn yr Alban y dyfernir 18 y cant o'r holl ddoethuriaethau sy'n gysylltiedig â biotechnoleg yn y DU. Rhai o gryfderau eraill yr Alban mewn ymchwil yw cyfrifiadureg; gwaith cymdeithasol; optoelectroneg; a pheirianneg drydanol ac electronig

Gwlad y Basgiaid (Sbaen)

Mae Gwlad y Basgiaid yn 20,864 cilometr sgwâr o ran maint ac mae ganddi boblogaeth o tua 2.9 miliwn (yn Sbaen a Ffrainc). Mae tua 650,000 ohonynt yn siarad y Fasgeg, y rhan fwyaf ar ochr Sbaen (dim ond 70,000 ar ochr Ffrainc).

Mae gan Wlad y Basgiaid (Sbaen) bedair o brifysgolion â 28 o gyfadrannau, tri choleg technegol uwch ac 11 o golegau prifysgol, lle mae mwy na 4,000 o athrawon yn rhoi gwersi i fwy na 91,000 o fyfyrwyr:

- Ar 25 Chwefror 1980, daeth Prifysgol Bilbao yn *Brifysgol Gwlad y Basgiaid*, gan ffurfio system brifysgol gyhoeddus Cymuned Ymreolus newydd Gwlad y Basgiaid. Mae'r brifysgol yn cynnwys y canolfannau prifysgol swyddogol a oedd eisoes yn bodoli yn y tair talaith, yn ogystal â nifer sylweddol o golegau prifysgol a sefydlwyd fel canolfannau cysylltiedig. Mae'n darparu addysg uwch mewn llawer o feysydd sy'n amrywio o feddygaeth a'r gwyddorau, at y celfyddydau cain, y gyfraith, economeg a gwyddor

busnes a pheirianneg ddiwydiannol. Mae gan y sefydliad dros 54,000 o fyfyrwyr a dros 3,200 o staff (cyfartal ag amser llawn).

- Mae gan *Brifysgol Navarra* ddwy ganolfan ar gampws San Sebastián, sef yr Escuela Superior de Ingenieros Industriales (Coleg Uwch Peirianneg Ddiwydiannol) a ddechreuodd ar ei waith yn 1961 a'r Instituto Superior de Secretariado y Administración (Ysgol Uwch Astudiaethau Ysgrifenyddol a Chlercaidd).
- Mae *Prifysgol Deusto* yn sefydliad preifat (ac uchel ei fri), a weithredir gan yr Iesuwyr ers dros 100 mlynedd, sydd hefyd â chanolfannau yn nhair tiriogaeth y Basgiaid. Mae Prifysgol Deusto wedi ennill bri cynyddol dros y blynyddoedd, yn bennaf oherwydd ei chyfadrannau Cyfraith a Gwyddor Busnes - a elwir yn Sbaen a'r tu hwnt yn ôl yr enw "La Comercial" - lle yr astudiodd llawer o'r gŵyr busnes a rheolwyr uchaf eu parch yn Sbaen sydd yn y cwmnïau preifat mwyaf. Mae gan y sefydliad dros 16,500 o fyfyrwyr llawn amser a dros 4,600 o fyfyrwyr rhan amser mewn rhaglenni i raddedigion.
- Ym Medi 1997, daeth *Universidad de Mondragón* i fodolaeth, sef y brifysgol breifat gyntaf i'w chymeradwyo gan Senedd y Basgiaid ers diwedd cyfundrefn Franco.

Y Fasgeg

Mae'r ddwy brifysgol gyhoeddus yn cyfeirio at y defnydd o'r Fasgeg yn eu statudau:

Mae statudau Prifysgol Gwlad y Basgiaid yn cynnwys erthygl sy'n cyfeirio at reoleiddio'r defnydd o ieithoedd swyddogol. Yr agweddau mwyaf perthnasol ar yr ertthygl yw'r rhai a ganlyn:

- *Ieithoedd swyddogol Prifysgol Gwlad y Basgiaid yw'r Fasgeg a'r Sbaeneg.*
- *Mae gan fyfyrwyr y Brifysgol gyfres o hawliau ieithyddol sy'n cynnwys, yr hawl i dderbyn a thraddodi gwersi yn y naill neu'r llall o'r ddwy iaith swyddogol, yr hawl i ysgrifennu adroddiadau, cymryd profion neu arholiadau yn y naill neu'r llall o'r ieithoedd swyddogol a'r hawl i gyflawni a chyhoeddi gwaith ymchwil yn y naill neu'r llall o'r ieithoedd swyddogol.*
- *Mae'r Brifysgol yn gwarantu y cyfieithir i'r iaith swyddogol yr holl ddogfennau, testunau ysgrifenedig, adroddiadau, testunau neu arholiadau a fo'n angenrheidiol.*
- *Bydd y Brifysgol yn cynllunio gyda golwg ar normaleiddio addysgu ac ymchwil yn y Fasgeg a bydd yn cymryd y camau angenrheidiol i gynyddu gallu ieithyddol y staff addysgu presennol ac i recriwtio staff addysgu dwyieithog.*

Mae Prifysgol Navarra wedi datgan bod y Sbaeneg a'r Fasgeg yn ieithoedd yn y brifysgol a'i bod yn cydnabod hawl holl fyfyrwyr y brifysgol i'w medru a'u defnyddio. Cydnabyddir rhestr o hawliau ieithyddol sydd gan y myfyrwyr sef, ymhlith eraill, yr hawl i gyflwyno a chyhoeddi darnau o ymchwil yn unrhyw un o'r ieithoedd a gydnabyddir gan y Brifysgol a'r hawl i dderbyn a thraddodi gwersi a gwneud darnau o waith, arholiadau neu brofion yn y Fasgeg yn y pynciau hynny y mae'r Brifysgol yn eu cynnig yn y Fasgeg, yn unol ag amodau'r gyfraith. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo hefyd i fabwysiadu mesurau i hyrwyddo normaleiddio'r Fasgeg yn ei gweithgareddau gan gynnwys datblygu polisi o hyfforddi a chyflogi staff addysgu a gweinyddu a gwasanaethu o dan gytundeb er mwyn cyflwyno addysgu yn y Fasgeg a gwarantu defnydd o'r Fasgeg mewn cysylltiadau gweinyddol a llafuriol, oddi mewn i'r fframwaith a ragnodir gan y gyfraith.

Norwy

Gwybodaeth yw un o'r grymoedd cryfaf o blaid newid yng nghymdeithas Norwy. Yn 1950, dim ond 3 y cant o'r boblogaeth a oedd wedi ennill gradd ar lefel prifysgol. Erbyn 1990, roedd y ffigur hwn wedi codi i 15 y cant. Heddiw, mae 40 y cant o'r myfyrwyr a gwblhaodd eu haddysg mewn ysgol uwchradd uwch yn dechrau ar addysg uwch.

Mae system addysg uwch Norwy yn wahanol i'r systemau addysg uwch ym Mhrydain ac America. Mae sefydliadau sy'n cynnig addysg uwch wedi'u rhannu'r ddau brif sector: y sector prifysgolion a'r sector colegau. Rheoleiddir y ddau sector o dan yr un strwythur a deddfwriaeth, sy'n weithredol ers 1996.

Mae'r sector prifysgolion yn cynnwys y prifysgolion a'r colegau prifysgol gyda chyfanswm tybiedig o 83,000 o fyfyrwyr yn 1999. Mae'r sefydliadau hyn yn gwneud ymchwil ac yn cynnig addysg lefel prifysgol ar lefelau israddedig a graddedig, sy'n arwain at raddau academaidd. Mae pedair prifysgol yn Norwy yn Oslo, Bergen, Trondheim a Tromsø. Mae chwe choleg prifysgol a phob un ohonynt yn cynnig rhaglenni gradd proffesiynol arbenigol ar lefel prifysgol. Y rhain yw Prifysgol Amaethyddol Norwy, Coleg Meddygaeth Filfeddygol Norwy, Ysgol Economeg a Gweinyddiaeth Busnes Norwy, Prifysgol Chwaraeon ac Addysg Gorfforol Norwy, Academi Gerdd Wladol Norwy, ac Ysgol Bensaernïaeth Oslo.

Ar ôl yr ad-drefnu a gwblhawyd yn Awst 1994, mae 26 o golegau gwladol gyda chyfanswm tybiedig o 72,000 o fyfyrwyr yn 1999. Mae'r sefydliadau'n cynnig rhaglenni sy'n parhau rhwng un a phedair blynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni ar gyfer proffesiwn penodol, a bydd y graddedigion yn dod yn weithwyr proffesiynol mewn meysydd fel addysgu ar lefel cyn ysgol a lefel ysgol orfodol, peirianneg, gwaith cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, gweinyddu, economeg, llyfrgellyddiaeth, newyddiaduraeth. Yn ogystal â hynny mae tua 13,000 o fyfyrwyr mewn colegau preifat. Gellir cyfuno astudiaethau yn y colegau gwladol â'r rhaglenni addysgol mewn sefydliadau addysg uwch eraill. Gallant hefyd fod yn sail i gyflawni'r gofynion mynediad ar gyfer astudiaethau graddedig (rhaglenni meistr) yn y prifysgolion ac/neu'r colegau prifysgol.

Er mwyn hyrwyddo cydweithredu rhwng prifysgolion a cholegau, sefydlwyd corff o'r enw "Rhwydwaith Norwy" ganol y 1990au. Yn yr ychydig amser a fu ar waith, mae wedi codi ansawdd cyffredinol addysg uwch drwy gryfhau disgyblaethau unigol drwy well defnydd o adnoddau, a drwy sefydlu rhwydwaith o ganolfannau cymhwysedd cenedlaethol. Yn ogystal â hynny, mae wedi hwyluso cydweithredu agosach a hefyd gwell rhaniad llafur rhwng y sefydliadau.

Canada

Mae'r 91 o sefydliadau addysg uwch sy'n ffurfio cyfangorff Prifysgol Canada yn cynnig amrywiaeth eang o leoliadau addysgol. Mae rhai o'r prifysgolion yn fawr, ac yn cynnig ystod lawn o raglenni gradd israddedig a graddedig ac yn gwneud ymchwil o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Mae eraill yn cynnig yr agosrwydd a'r sylw personol a geir mewn colegau celfyddydau breiniol bach i israddedigion. Ceir eraill eto sy'n cynnig addysg broffesiynol arbenigol mewn meysydd fel peirianneg, celf a dylunio ac amaethyddiaeth. Yn 1998, roedd dros 700,000 o israddedigion ac ymron i 120,000 o raddedigion yn derbyn eu haddysg yn y sefydliadau hyn.

Er bod rhai eithriadau, mae prifysgolion yng Nghanada wedi'u cyllido gan y cyhoedd i raddau helaeth. Mae eu rhaglenni, yn enwedig ar lefel israddedig, o ansawdd unffurf. Ac er bod prifysgolion Canada yn cynllunio eu cenadaethau eu hunain ac yn dilyn eu llwybr eu hunain i'r dyfodol, maent yn dangos gallu o hyd i gydweithredu â'i gilydd ac i weithio ar y cyd.

Mae llawer o'r gwaith prifysgol yng Nghanada mewn ymchwil sylfaenol. Ond ceir is-gynhyrchion economaidd hefyd. Mae gwybodaeth a gasglwyd gan Gyngor Ymchwil y Gwyddorau Naturiol a Pheirianneg a'r Cyngor Ymchwil Cenedlaethol yn dangos bod cwmnïau a sefydlwyd gan brifysgol neu ymchwilwyr prifysgol i fasnacheiddio dyfeisiadau sy'n ganlyniad i ymchwil prifysgol a gyllidwyd gan y cynghorau hyn, yn cyflogi rhwng 8,000 a 10,000 yn uniongyrchol. Amcangyfrifir bod gwerthiant y cwmnïau deilliedig hyn gyda'i gilydd yn fwy na $1 biliwn y flwyddyn.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod ymchwil yn ategiad angenrheidiol i addysgu mewn prifysgol yng Nghanada. Ymchwil ysgolheigaidd - o ddarganfyddiadau yn y labordy, at gynnig mewnweliadau newydd i ymddygiad dynol, y celfyddydau, hanes a'r byd o'n cwmpas - yw'r ysgogiad y tu ôl i ddysgu ac addysgu. Rhestrir ymchwilwyr Canada yn uchel o'u cymharu ag eraill o gwmpas y byd. Mae Canada yn cyfrannu 4 y cant o lenyddiaeth academaidd y byd, ac mae adolygiad o'r Mynegrif Cyfeirio yn dangos bod Canada yn seithfed o blith 107 o wledydd o ran nifer y cyfeiriadau y papur.

Y Llywodraeth sy'n cyllido'r rhan fwyaf o ymchwil ym mhrifysgolion Canada, ac mae'n ei weld yn gyfraniad allweddol at allu cystadleuol ac ansawdd bywyd Canada.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae nifer o fentrau wedi ceisio cryfhau'r cysylltiadau rhwng ymchwilwyr prifysgol a diwydiant yng Nghanada. Mae ymchwil prifysgol yn canolbwyntio fwyfwy ar feysydd strategol sy'n ofynnol ar gyfer iechyd cymdeithasol ac economaidd Canada. Mae nifer cynyddol o brifysgolion yn sefydlu parciau ymchwil a swyddfeydd masnacheiddio er mwyn meithrin partneriaethau prifysgol-diwydiant a throsglwyddo darganfyddiadau mewn ymchwil prifysgol i'r sector preifat.

Mae prifysgolion yn chwarae rhan holl-bwysig hefyd ym mywyd cymunedol Canada. Maent yn rhedeg canolfannau gofal dydd a chlinigau meddygol, yn cynnig cyngor i fusnesau bach a threthdalwyr unigol, yn cadw orielau celf ac amgueddfeydd, yn cynhyrchu rhaglenni teledu a dramâu. Ar draws y wlad, mae rhwydwaith o orsafoedd radio cymunedol ar gampysau yn cynnig dewis yn lle radio masnachol a radio mewn perchnogaeth gyhoeddus.

Yng Nghanada, y prifysgolion yw'r sefydliadau addysgol a fynychir ar ôl ysgol uwchradd ar gyfer addysg sy'n arwain at radd. Mae'r colegau cymunedol yn sefydliadau ôl-uwchradd heb gyrsiau gradd sy'n cynnig cyrsiau technegol neu alwedigaethol neu gyrsiau ar gyfer trosglwyddo i brifysgol. Mae'r gwahaniaeth rhwng astudio mewn prifysgol ac astudio ar lefel coleg cymunedol yn llai pendant o lawer heddiw nag ydoedd ddegawd yn ôl. Mae nifer o brifysgolion ledled Canada yn ymuno mewn mentrau ar y cyd â cholegau cymunedol cyfagos, gan ganiatáu i fyfyrwyr gyfuno eu hastudiaethau academaidd â'r cyfleoedd dysgu mwy cymwysedig a geir fel arfer yn y coleg cymunedol. Yn British Columbia, gall myfyrwyr ddechrau eu haddysg yn y coleg a throsglwyddo eu credydau'n ddiweddarach er mwyn cael gradd prifysgol.

Mae rhaglenni israddedig sy'n arwain at radd baglor fel arfer yn gofyn tair neu bedair blynedd o astudio amser llawn, gan ddibynnu ar y dalaith. Yn y taleithiau sy'n cynnig graddau baglor tair blynedd, mae angen blwyddyn ychwanegol o astudio fel arfer i ennill gradd anrhydedd. Mewn mannau eraill, mae gradd anrhydedd fel arfer yn golygu lefel uwch o ganolbwyntio a chyrhaeddiad oddi mewn i'r pwnc anrhydedd, ond nid blwyddyn ychwanegol o astudio o reidrwydd. Yn gyffredinol, ystyrir bod gradd anrhydedd yn rhagamod ar gyfer astudio ar y lefel raddedig.

Pennir gofynion y graddau gan bob sefydliad. Ar y lefel israddedig, maent fel arfer yn golygu canolbwyntio ar bwnc penodol - 'major' - ac yn aml mae angen cyrraedd cyfartaledd penodol o bwyntiau gradd er mwyn graddio. Mewn rhai prifysgolion, mae'n ofynnol yn aml i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf ddilyn cyrsiau mandadol.

Mae graddau proffesiynol cyntaf, hefyd ar lefel baglor, yn gallu golygu un ai bedair blynedd o astudio amser llawn ar ôl ysgol uwchradd, neu flwyddyn neu ddwy ychwanegol ar ôl cwblhau gradd israddedig yn y celfyddydau. Yn achos y gyfraith, mae angen tair blynedd o astudio llawn amser fel arfer i gwblhau'r radd.

Mae llawer o brifysgolion hefyd yn cynnig amryw o gyrsiau tystysgrif a diploma, y ddau ar lefelau israddedig a graddedig. Mae graddau meistr fel rheol yn gofyn o leiaf un flwyddyn o astudio llawn amser gan gynnwys traethawd, gwaith ymarferol neu bapur ymchwil. Mae rhaglenni doethurol, sy'n arwain at ddoethuriaeth fel arfer, yn gofyn o leiaf dair blynedd o astudio llawn amser, a rhaid treulio o leiaf un o'r rheini ar gampws. Er bod angen gradd meistr fel arfer i ymgymryd ag astudiaethau doethurol, mae rhai prifysgolion yn gadael i fyfyrwyr ddechrau arnynt yn syth ar ôl cwblhau rhaglen anrhydedd israddedig.

Mae'r safonau derbyn yn amrywio o'r naill brifysgol i'r llall, ac o raglen i raglen oddi mewn i'r un sefydliad. Yn achos rhaglenni israddedig yn y celfyddydau a'r gwyddorau, y rhagamod arferol ar gyfer derbyn yw cwblhau rhaglen academaidd ysgol uwchradd yn llwyddiannus. Bydd angen cyflawniad academaidd ar lefel uchel yn aml er mwyn derbyn myfyrwyr i raglenni gradd proffesiynol fel peirianneg, gweinyddiaeth busnes, addysg a newyddiaduraeth.

Atodiad 7

Pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag addysg uwch

1. Cyffredinol

Mae'r pwerau uniongyrchol sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ymyrryd yn y ddarpariaeth o addysg uwch yn gyfyngedig iawn. Er bod y sefydliadau yn y sector addysg uwch yn amrywio o ran eu dechreuad, eu maint a'u trefniadaeth, mae pob un ohonynt yn sefydliad corfforaethol annibynnol sy'n atebol drwy gorff llywodraethu, sy'n gyfrifol yn y pen draw am yr holl agweddau ar y sefydliad.

2. Cyllido

O dan adran 65 o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir i'r Cyngor gan y Cynulliad o dan adran 68 o Ddeddf 1992. Gan hynny, cyfrifoldeb CCAUC yw penderfynu sut y dyrennir cyllid i sefydliadau unigol yng Nghymru, o dan y telerau a'r amodau a osodir gan y Cynulliad (a nodir yn llythyrau cyllido a chylch gwaith blynyddol y Cyngor) ar faterion fel:

- Rhagdybiaethau ynghylch cyfanswm y nifer o fyfyrwyr yn y sector; a
- Blaenoriaethau polisi (er enghraifft - mynediad a chyfranogiad, gwella ansawdd, cyfrannu at ddatblygu economaidd).

Wrth ddarparu grant i CCAU, gall y Cynulliad osod amodau y mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni gan bob sefydliad, neu gan yr holl sefydliadau o ddosbarth neu ddisgrifiad penodol. Fodd bynnag, ni all y Cynulliad osod amodau ar sefydliad neu sefydliadau unigol. Ni all ychwaith lunio telerau ac amodau gan gyfeirio at gyrsiau neu raglenni ymchwil penodol (gan gynnwys cynnwys cyrsiau neu raglenni o'r fath a'r dull o'u haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu) neu'r meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academaidd a derbyn myfyrwyr.

Gall y Cynulliad, drwy orchymyn (a wneir drwy offeryn statudol), roi cyfarwyddiadau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch arfer ei swyddogaethau. Gall hefyd (heb wneud gorchymyn) roi cyfarwyddiadau cyffredinol.

Gall y Cynulliad roi cyfarwyddiadau penodol i CCAUC hefyd ynghylch darparu cymorth ariannol i sefydliad unigol, os yw'r Cynulliad o'r farn bod materion ariannol y sefydliad yn cael neu wedi cael eu camreoli. Rhaid ymgynghori â'r Cyngor a'r sefydliad cyn cymryd unrhyw gamau o'r fath.

Gall y Cynulliad hefyd drwy orchymyn ddynodi sefydliad gwirfoddol (adran 129 o'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988) yn un cymwys i dderbyn cymorth o gyllid a weinyddir gan CCAUC os yw'r sefydliad yn cyflawni amodau penodol mewn perthynas â nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch.

3. Asesu Ansawdd

Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau statudol mewn perthynas ag asesu ansawdd addysgu neu adolygu sefydliadol. O dan adran 70 o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae dyletswydd ar CCAUC i sicrhau y darperir ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'n eu cyllido neu'n ystyried eu cyllido. Mater i CCAUC yw penderfynu ar y dull o asesu sydd i'w fabwysiadu, mewn ymgynghoriad â'r sefydliadau.

Sefydlwyd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) yn 1997. Mae'r Asiantaeth yn gorff annibynnol, a gyllidir drwy danysgrifiadau oddi wrth y sefydliadau addysg uwch, ac mae'n ymgymryd o dan gytundebau â'r cynghorau cyllido perthnasol i wneud asesiadau ansawdd ledled y DU.

Er nad oes ganddo bwerau statudol, gall y Cynulliad fynegi barn wrth CCAUC drwy lythyr cylch gwaith blynyddol Gweinidog y Cynulliad. Er enghraifft, mae'r llythyr cylch gwaith cyfredol yn gofyn i CCAUC barhau i weithio gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd i leihau baich biwrocrataidd adolygiadau ansawdd ar sefydliadau tra'n cynnal safonau. Yn y llythyr cylch gwaith ym Mai 2000 rhoddwyd pwyslais ar yr angen am archwilio allanol trwyadl ac effeithiol ar ansawdd a safonau'r sector addysg uwch, a hefyd y dylai gydnabod cyflawniadau a rhoi sicrhad bod yr arian a fuddsoddwyd drwy CCAUC yn cael ei ddefnyddio'n dda, ac y dylai sicrhau bod myfyrwyr dichonol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol yn derbyn gwybodaeth glir am berfformiad yr holl adrannau.

4. Llywodraethu a Rheoli

Nodir y strwythur llywodraethu ar gyfer pob sefydliad yn ei offerynnau corffori - y siarter frenhinol a'r statudau cysylltiedig yn achos sefydliadau cyn-1992, ac offeryn ac erthyglau llywodraeth y sefydliadau ôl-1992. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r offerynnau llywodraethu gael eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor. Cyn gwneud penderfyniad, bydd y Cyfrin Gyngor yn ymgynghori â'r Cynulliad.

Mae'r Cynulliad yn disgwyl safonau llywodraethu a rheoli uchel mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae CCAUC yn parhau'n gyfrifol am sicrhau bod systemau rheolaeth ariannol cadarn ar waith ar draws y sector, ac mae'n rhoi datganiad sicrhad blynyddol i'r Cynulliad ar gyflwr y rheolaethau oddi mewn i'r sector. Os bydd angen, fodd bynnag, gall y Cynulliad osod amodau cyffredinol ar ei grant i CCAUC i sicrhau bod gan sefydliadau systemau effeithiol ar waith.

5. Archwilio

Mae gwasanaeth archwilio CCAUC wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n nodi'r trefniadau archwilio ar gyfer y sector. Mae'n ofynnol i sefydliadau sefydlu pwyllgor archwilio a chyflogi archwilwyr mewnol ac allanol. Mae gwasanaeth archwilio CCAUC yn monitro'r canlyniadau o'r trefniadau archwilio hyn yn flynyddol ac mae hyn yn rhoi sicrhad i'r Cyngor fod y cyllid a ddyrannwyd i'r sefydliadau wedi'i ddefnyddio'n briodol, a bod rheolaethau digonol ar waith gan y sefydliadau i ddiogelu'r cyllid a ddyrannwyd iddynt. Yn ogystal â hynny, mae gwasanaeth archwilio CCAUC yn ymgymryd â chylch tair blynedd o ymweliadau archwilio i sefydliadau gyda'r bwriad o roi sicrhad bod pob sefydliad wedi sefydlu fframwaith rheolaeth priodol i ddiogelu cyllid cyhoeddus. Gall CCAUC ymgymryd hefyd ag adolygiad

archwilio arbennig, neu ddod ag ymweliad cynlluniedig yn nes, os yw'n derbyn gwybodaeth sy'n dangos bod anawsterau penodol wedi codi mewn sefydliad ac nad yw'r sefydliad yn gallu ymateb yn foddhaol.

Trosglwyddir unrhyw gyhuddiadau a dderbynnir gan Weinidog y Cynulliad am gamreoli mewn sefydliad i CCAUC er mwyn derbyn cyngor ganddo ac er mwyn iddynt gael eu cymryd i ystyriaeth gan y Cyngor pan yw'n monitro sefydliadau. Fel eithriad, gall Gweinidog y Cynulliad ofyn i'r Cyngor gynnal ymchwiliad os yw, er enghraifft, o'r farn, ar ôl ystyried yn ofalus, y byddai camau o'r fath yn osgoi anghydfod maith, a allai beryglu enw da'r sector.

6. Teitlau Sefydliadau

Nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau statudol mewn perthynas â newidiadau i deitlau sefydliadau addysg uwch ond byddai'r Cyfrin Gyngor yn ymgynghori ag ef cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch newid arfaethedig mewn perthynas â sefydliad yng Nghymru.

7. Pwerau Dyfarnu Graddau

Y Cyfrin Gyngor sy'n penderfynu ynghylch ceisiadau am bwerau dyfarnu graddau. Cyn gwneud penderfyniad, byddai'r Cyngor yn ymgynghori â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r Cynulliad, os oedd y cais yn un oddi wrth sefydliad yng Nghymru.

8. Ffioedd Dysgu

O dan y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, mae'r Cynulliad yn gallu (ac wedi) gosod amod ar ei grant i CCAUC sy'n mynnu bod y Cyngor yn gosod amod ar y cyllid y mae'n ei ddyrannu i sefydliadau, na ddylent godi ffioedd ychwanegol.

9. Cymorth Myfyrwyr

Mae'r cyfrifoldeb polisi am ddyfarniadau mandadol, benthyciadau myfyrwyr a ffioedd dysgu yn dal i fod gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES), i'w bennu ar gyfer Cymru a Lloegr. Nid yw'r swyddogaethau hyn wedi'u datganoli i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yn darparu Cyllid Cyni Myfyrwyr i ddarparu cymorth i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol arbennig. Caiff y Cyllid ei weinyddu a'i ddyrannu i'r sefydliadau gan CCAUC. Mater i'w benderfynu gan y sefydliadau unigol yw'r meini prawf ar gyfer dyfarnu Cyllid Cyni i fyfyrwyr unigol, oddi mewn i gyfarwyddyd cyffredinol a gyhoeddir gan Weinidog y Cynulliad, sy'n nodi pwrpas Cyllid Cyni Myfyrwyr a'r blaenoriaethau sydd i'w cymryd i ystyriaeth.

Atodiad 8

Cynigion yn y Pwyllgor

Yn ystod y trafodaethau ar yr adroddiad, cytunodd y pwyllgor i bleidleisio ar newidiadau i'r testun lle na ellid canfod consensws ymysg yr aelodau. Nodir y rhain isod, ynghyd â chanlyniad pob pleidlais.

Pennod 3 (paragraff 3.23)

Testun Gwreiddiol

Dadleuodd Dafydd Glyn Jones (Darllenydd mewn Llenyddiaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor) dros sefydlu coleg ffederal rhithiol, wedi'i leoli mewn sefydliadau addysg uwch sy'n bodoli yng Nghymru, i hyrwyddo dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn darparu'r màs critigol i sicrhau dichonoldeb y cynnig hwn, awgrymodd y dylid cael cynnydd sylweddol mewn recriwtio darlithwyr cyfrwng Cymraeg o fewn cyfnod byr - 200 o ddarlithwyr a 1,500 o fyfyrwyr o fewn pum mlynedd. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth ofalus i'r cynnig hwn ond teimlai fod cyfradd ehangu o'r fath yn afrealistig.

1. Cynigiodd Gareth Jones AC y gwelliant canlynol (mewn print du) i'r adran hon:

Dadleuodd Dafydd Glyn Jones (Darllenydd mewn Llenyddiaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor) **ac eraill** dros sefydlu coleg ffederal rhithiol, wedi'i leoli mewn sefydliadau addysg uwch sy'n bodoli yng Nghymru, i hyrwyddo dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn darparu'r màs critigol i sicrhau dichonoldeb y cynnig hwn, awgrymodd y dylid cael cynnydd sylweddol mewn recriwtio darlithwyr cyfrwng Cymraeg o fewn cyfnod byr - 200 o ddarlithwyr a 1,500 o fyfyrwyr o fewn pum mlynedd. ~~Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth ofalus i'r cynnig hwn ond teimlai fod cyfradd ehangu o'r fath yn afrealistig.~~

Mae'r pwyllgor yn cydnabod bod yr alwad am goleg ffederal cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar egwyddor gadarn a dilys: y câi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chryfhau a'i diogelu ymhellach drwy gael ei fframwaith sefydliadol ei hun. Fodd bynnag, teimlai rhai aelodau o'r pwyllgor fod y gyfradd ehangu a grybwyllwyd gan Dafydd Glyn Jones yn afrealistig, yn ôl pob tebyg. Byddai'r pwyllgor yn hoffie gweld Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Bwrdd Dysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg yn gwneud astudiaeth o oblygiadau ymarferol sefydlu coleg ffederal cyfrwng Cymraeg ac yn cyhoeddi adroddiad o fewn blwyddyn.

Canlyniad y bleidlais:

O blaid -

Gareth Jones
Cynog Dafis
Mick Bates

Yn erbyn

Lorraine Barrett
Jane Davidson
Jonathan Morgan
Alun Pugh
Ann Jones (dirprwy dros Janice Gregory)
Val Lloyd (dirprwy dros Huw Lewis)

Canlyniad:

O blaid 3; Ymatal 0; Yn erbyn 6; Cyfanswm 9
Ni dderbyniwyd y gwelliant

2. Cynigiodd Lorraine Barrett AC y gwelliant canlynol i'r adran hon:

Dileu'r paragraff sy'n dechrau: 'Dadleuodd Dafydd Glyn Jones... ', ac yn gorffen â '... fod cyfradd ehangu o'r fath yn afrealistig'.

a rhoi yn ei le:

Nid oedd cefnogaeth gan y pwyllgor ar yr adeg hon i gynnig i sefydlu coleg ffederal rhithiol wedi'i leoli mewn sefydliadau addysg uwch sy'n bodoli yng Nghymru, i hyrwyddo dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniad y bleidlais:

O blaid -

Lorraine Barrett
Jane Davidson
Alun Pugh
Ann Jones (dirprwy dros Janice Gregory)
Val Lloyd (dirprwy dros Huw Lewis)

Yn erbyn -

Mick Bates
Cynog Dafis
Jonathan Morgan
Gareth Jones

Canlyniad:

O blaid 5; Ymatal 0; Yn erbyn 4; Cyfanswm 9
Derbyniwyd y gwelliant

Pennod 5 (paragraff 5.6)

Testun Gwreiddiol

Rydym yn cydnabod y manteision mawr sy'n deillio o symudiad ar draws y ffin gan fyfyrwyr ac mor bwysig yw hi i'r sector addysg uwch yng Nghymru ddenu niferoedd sylweddol o fyfyrwyr o weddill y DU a thramor. Dymunwn weld rhagor o fyfyrwyr mewn addysg uwch. Rydym hefyd yn dymuno gweld rhagor o fyfyrwyr o Gymru mewn addysg uwch.

Cynigiodd Pauline Jarman AC y gwelliant canlynol; dilëer y testun gwreiddiol, a rhodder yn ei le:

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r lefel gymharol isel o fyfyrwyr y mae eu cartrefi yng Nghymru sy'n canlyn eu hastudiaethau Addysg Uwch yng Nghymru. Tra'n cydnabod y lles mawr a geir o symudiadau traws-ffiniol gan fyfyrwyr, a'r pwysigrwydd i Addysg Uwch Cymru o ddenu nifer sylweddol o fyfyrwyr o weddill y Deyrnas Gyfunol ac o dramor, mae gennym bryderon ynghylch lefel gyfredol yr all-lifiad o fyfyrwyr Cymreig. Fe'i gwelwn fel rhan o nychdod ehangach – yr allfudiad o'r ifainc, yr hyfedr a'r economaidd weithgar – a fu, ac sy'n parhau i fod, yn niweidiol i fywyd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Argymhellwn y dylai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ymgymryd â dadansoddiad o'r sefyllfa; ac ar sail y dadansoddiad hwnnw, baratoi strategaeth er sicrhau bod cyfran uwch o fyfyrwyr y mae eu cartrefi yng Nghymru yn dymuno derbyn eu Haddysg Uwch yng Nghymru, ac yn cael eu galluogi i wneud hynny.

Canlyniad y bleidlais:

O blaid -

Cynog Dafis
Pauline Jarman
Owen John Thomas (dirprwy dros Gareth Jones)

Yr erbyn -

Lorraine Barrett
Jane Davidson
Jonathan Morgan
Alun Pugh
Janice Gregory
Huw Lewis
Mick Bates

Canlyniad:

O blaid 3; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 10
Ni dderbyniwyd y gwelliant

Pennod 10 (paragraffau 10.53 a 10.54)

Cynigiodd Jonathan Morgan AC y gwelliannau canlynol ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru:

Testun Gwreiddiol

Mae'r pwyllgor yn cefnogi argymhellion y Grŵp yn gyffredinol ac mae'n falch bod Gweinidog y Cynulliad wedi ymrwymo i'w dilyn.

Gwelliant

Ar ôl "Mae'r pwyllgor yn cefnogi argymhellion y Grŵp", **ychwaneger** "heblaw am y rhai sy'n ymwneud â chyflwyno ffioedd sy'n amodol ar incwm a godir ar y diwedd, ac yn galw ymhellach am ddileu ffioedd myfyrwyr yn llwyr." **Dilëer** "ac". Dechrau brawddeg newydd: "Mae'r pwyllgor yn falch bod Gweinidog y Cynulliad....."

Testun Gwreiddiol

- Yn dilyn yr holl argymhellion (yn Adroddiad Rees) sy'n berthnasol i lywodraeth ganolog y DU, yn enwedig y rhai ar ddyfodol ffioedd dysgu, gyda'r timau Gweinidogol perthnasol;

Gwelliant

Ar ôl "lywodraeth ganolog y DU", **rhodder** "heblaw am y bwriad i gyflwyno ffioedd sy'n amodol ar incwm a godir ar y diwedd, a wrthodir gan y pwyllgor, ynghyd â ffioedd dysgu o flaen llaw." **Dilëer** gweddill y frawddeg.

Cytunodd y pwyllgor i bleidleisio unwaith ar y ddau welliant;

Canlyniad y bleidlais:

O blaid -

Jonathan Morgan
Gareth Jones
Cynog Dafis

Yn erbyn -

Lorraine Barrett
Mick Bates
Jane Davidson
Alun Pugh
Ann Jones (dirprwy dros Janice Gregory)
Val Lloyd (dirprwy dros Huw Lewis)

Canlyniad:

O blaid 3; Ymatal 0; Yn erbyn 6; Cyfanswm 9
Ni dderbyniwyd y gwelliant

Atodiad 9

Rhestr termau

Acronym	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
AHRB	Bwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau
AU	Addysg Uwch
AUC	Addysg Uwch Cymru
CAB	Coleg Addysg Bellach
CBI	Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
ELWa	Yr enw ar y cyd ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
HCA	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
HEFCE	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr
HESA	Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
HNC	Tystysgrif Genedlaethol Uwch
HND	Diploma Genedlaethol Uwch
JISC	Y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth
NATFHE	Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch
NUS	Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
QAA	Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
SAU	Sefydliad Addysg Uwch
SHEFC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
UCAC	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UKCOSA	Y Cyngor dros Addysg Ryngwladol
WDA	Awdurdod Datblygu Cymru
WHEILA	Cymdeithas Cysylltu Rhyngwladol Addysg Uwch Cymru
YAY	Ymarfer Asesu Ymchwil